Ofcom
sicrhau bod cyfathrebiadau'n gweithio i bawb

# Sgrîn Fach: **Trafodaeth Fawr**

## Argymhellion i Lywodraeth y DU ar ddyfodol Cyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus



Datganiad wedi'i gyhoeddi 15 Gorffennaf 2021

# Cynnwys


1. Crynodeb gweithredol 2

2. Cyflwyniad 8

3. Yr heriau sy'n wynebu diwydiant darlledu'r DU 12

4. Amcanion ar gyfer cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus 23

5. Moderneiddio deddfwriaeth i ddarparu cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus 35

6. Sicrhau bod cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus ar gael yn eang ac yn amlwg 38

7. Datblygu cynnwys cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus 47

8. Darparu cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus ar gyfer cynulleidfaoedd y DU 54

9. Cefnogi arloesedd mewn cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus 62

10. Y camau nesaf 75


## Atodiadau


Atodiadau i'r datganiad hwn 80

# 1. Crynodeb gweithredol

## Mae diwydiant darlledu'r DU yn wynebu ei her fwyaf

1.1 **Mae adolygiad Ofcom *Sgrin Fach*: *Trafodaeth Fawr* wedi edrych ar sut i adnewyddu system cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus ('PSM') y DU ar gyfer y degawd nesaf.** Yn dilyn ein hymgynghoriad ym mis Rhagfyr 2020, mae'r datganiad hwn yn cynnwys argymhellion ar gyfer gweithredu gan Lywodraeth y DU ("y Llywodraeth") a'r diwydiant.

1.2 **Mae cynulleidfaoedd y DU yn parhau i elwa o dwf anhygoel mewn cynnwys o ansawdd uchel, sydd ar gael ar deledu ac ar-lein, ac sy'n cael ei ddarparu gan ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus a darlledwyr masnachol.** Ond mae pandemig Covid-19 wedi atgyfnerthu pwysigrwydd arbennig darlledu gwasanaeth cyhoeddus. Roedd pobl yn chwilio am raglenni newyddion ac adloniant dibynadwy a chywir o safon uchel, yn ogystal â chynnwys addysgol i gefnogi addysgu gartref. Mae ei gyfraniad i'r economi greadigol ar draws ein pedair gwlad yn bwysicach nag erioed.

1.3 **Mae newid cyflym yn y diwydiant - sy'n cael ei sbarduno gan dueddiadau masnachol byd-eang a newid mewn arferion gwylio - yn ei gwneud yn anoddach i ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus gystadlu am gynulleidfaoedd a chynnal eu harlwy presennol.** Ers i ni gyhoeddi ein hymgynghoriad, bu rhagor o gyfuno byd-eang, gydag Amazon yn caffael MGM mewn bargen gwerth biliynau o ddoleri a chwmni telathrebu'r Unol Daleithiau AT&T yn uno ei isadran cyfryngau, Warner Media, gyda Discovery. Er bod presenoldeb chwaraewyr rhyngwladol yn cyfrannu at lwyddiant economi greadigol y DU ac yn rhoi mwy o ddewis i gynulleidfaoedd, mae'n rhoi rhagor o bwysau ar gynaliadwyedd ariannol cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus yn y DU. Yn y cyfamser, mae llwyfannau teledu cysylltiedig yn fwy a mwy o gyfryngwyr yn y berthynas rhwng darlledwyr a'u cynulleidfaoedd, gan leihau manteision masnachol y model rheoleiddio presennol.

1.4 **Cawsom dros 100 o ymatebion i'n hymgynghoriad.** Roedd amrywiaeth eang o safbwyntiau, ond roedd cytundeb ar rai materion sylfaenol: pwysigrwydd cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus i wylwyr yn y DU ac economi'r DU; a'r angen brys i ddiweddaru'r system cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus i sicrhau ei bod yn gynaliadwy'n ariannol ar gyfer y dyfodol.

## Mae angen addasu deddfwriaeth ar gyfer yr oes ddigidol

1.5 **Mae cynulleidfaoedd y DU yn dal i werthfawrogi rhaglenni gwasanaeth cyhoeddus yn fawr.** Mae ein hymchwil yn dangos pa mor bwysig yw newyddion cenedlaethol a rhanbarthol dibynadwy a chywir i wylwyr. Maen nhw hefyd yn gwerthfawrogi operâu sebon a chwaraeon byw, sy'n dod â ni at ein gilydd fel gwlad, yn ogystal â rhaglenni sy'n adlewyrchu'r amrywiaeth ar draws pob rhan o'n pedair gwlad.

1.6 **Mae darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus hefyd yn ganolog i economi greadigol y DU, yn enwedig ar draws y gwledydd a'r rhanbarthau.** Nhw yw'r comisiynwyr cynnwys mwyaf o bob cwr o'r DU o hyd. Bob blwyddyn, maen nhw'n gwario tua £3bn ar raglenni newydd

mewn amrywiaeth eang o genres. Ni fyddai cynnwys sy'n cael ei gomisiynu yn y DU sy'n llai masnachol hyfyw, fel newyddion rhanbarthol, neu raglenni crefyddol ac mewn iaith leiafrifol, yn cael eu gwneud yn eang heb ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus.

1.7 **Er mwyn diogelu ei ddyfodol, mae angen i gyfryngau gwasanaeth cyhoeddus gyrraedd y cynulleidfaoedd ehangaf posibl, ar y teledu ac ar-lein.** Rhaid i ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus gyflymu eu cynlluniau digidol os ydyn nhw am gynnal cysylltiad cryf â chynulleidfaoedd presennol, gan gynnwys gwylwyr iau sy'n troi fwyfwy at ffynonellau eraill ar gyfer adloniant a newyddion. Ond mae angen diweddaru'r system reoleiddio hefyd ar gyfer yr oes ddigidol.

## Set o amcanion wedi'u moderneiddio ar gyfer cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus

1.8 **Ein hargymhelliad cyntaf i'r Llywodraeth yw y dylid cael set ddiwygiedig o amcanion cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus, gan gefnogi'r broses o bontio o ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus i gyfryngau gwasanaeth cyhoeddus.** Dylai deddfwriaeth newydd ddiogelu a chryfhau ei nodweddion pwysicaf: ystod eang o raglenni sy'n adlewyrchu pob rhan o'r DU a'r gallu i ymgysylltu â'r cynulleidfaoedd ehangaf posibl.

1.9 **Dylid cael amcan newydd hefyd i gefnogi economi greadigol y DU** er mwyn iddi barhau i ffynnu, gan greu gwerth economaidd cynaliadwy ar draws gwledydd a rhanbarthau'r DU.

## Mae angen i gynnwys cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus fod yn amlwg ac ar gael yn eang

1.10 **Yn ail, rydyn ni'n ailadrodd ein galwad brys am ddeddfwriaeth i sicrhau amlygrwydd i gynnwys gwasanaeth cyhoeddus byw ac ar-alw ar draws yr holl brif wasanaethau a llwyfannau teledu.** Mae ein tystiolaeth yn awgrymu bod darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus a llwyfannau teledu cysylltiedig yn ei chael hi'n fwyfwy anodd dod i gytundebau masnachol. Mae hyn yn lleihau'r gwerth i gynulleidfaoedd, drwy ei gwneud yn anoddach dod o hyd i gynnwys cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus ar lwyfannau digidol newydd nag ar deledu traddodiadol.

1.11 **Mae angen rheolau newydd i sicrhau bod cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus ar gael ac yn amlwg ar lwyfannau teledu poblogaidd.** Fel rhan o hyn, dylid gosod gofynion ar ddarparwyr cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus a llwyfannau er mwyn i gynulleidfaoedd allu dod o hyd i gynnwys cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus yn hawdd. Rydyn ni'n cydnabod bod angen y gallu i arloesi ar lwyfannau hefyd. Wrth i dechnoleg ac arferion cynulleidfaoedd ddatblygu, felly mae angen i reolau allu addasu i farchnad sy'n newid yn gyflym.

1.12 **Dylai deddfwriaeth newydd roi pwerau monitro a gorfodi i Ofcom**, gan gynnwys y gallu i ddatrys anghydfodau, mewn meysydd fel rhannu data neu sut mae cynnwys yn cael ei briodoli i'r darlledwr.

## Mae angen i ddarlledwyr a chynhyrchwyr gydweithio i ddarparu cynnwys ar gyfer cynulleidfaoedd teledu sy'n cael ei ddarlledu a chynulleidfaoedd ar-lein

1.13 **Mae diwydiant creadigol y DU yn cael ei gydnabod ledled y byd am ei ansawdd a'i arloesedd.** Mae wedi cael ei adeiladu ar bartneriaethau effeithiol rhwng cynhyrchwyr a darlledwyr, ac mae ymyriadau rheoleiddiol hefyd wedi cefnogi'r llwyddiant byd-eang hwn.

1.14 **Mae'r amgylchedd y mae rhaglenni'n cael eu comisiynu ynddo wedi newid yn sylfaenol ers i reoliadau gael eu rhoi ar waith 20 mlynedd yn ôl.** Mae gwylio ar-alw wedi cynyddu, mae cyllidebau cynnwys ar gyfer gwasanaethau tanysgrifio wedi cynyddu ac mae nifer o gynhyrchwyr rhyngwladol yn y farchnad. Er mwyn i ddarparwyr cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus gyrraedd pob cynulleidfa, mae angen iddyn nhw allu comisiynu cynnwys y gallan nhw ei ddarparu'n hyblyg, ar-lein ac ar deledu sy'n cael ei ddarlledu. Rhaid ehangu'r ffocws presennol ar deledu sy'n cael ei ddarlledu neu bydd yn cyfyngu ar strategaethau digidol ac yn mygu arloesedd.

1.15 **Yn ymarferol, mae darlledwyr a chynhyrchwyr eisoes yn addasu.** Yn fwyaf diweddar, mae'r BBC a Channel 4 wedi cwblhau cynigion cynnwys gyda chynhyrchwyr ar gyfer eu gwasanaethau teledu ac ar-lein sy'n cael eu darlledu. Ond rydyn ni'n bryderus nad yw trafodaethau wedi symud yn ddigon cyflym mewn rhai achosion.

1.16 **Ein trydydd argymhelliad yw bod y Llywodraeth yn moderneiddio deddfwriaeth fel bod yr un gofynion sy'n cefnogi cynyrchiadau annibynnol yn berthnasol i'r holl gynnwys cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus ar-lein a theledu sy'n cael ei ddarlledu.** Byddai hyn yn cynnwys rhaglenni sy'n cael eu dangos ar wasanaethau ar-lein yn unig. Rydyn ni'n disgwyl y bydd y bargeinion yn parhau i addasu a byddwn yn barod i ddiweddaru canllawiau comisiynu Ofcom ar ôl i'r ddeddfwriaeth gael ei newid.

## Rhaid i ddarparwyr Cyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus fod yn atebol am ddarparu ar gyfer cynulleidfaoedd

1.17 **Er mwyn cyflawni'r amcanion newydd ar gyfer cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus mewn deddfwriaeth, bydd angen moderneiddio trwyddedau darlledu.** Dylai'r gofynion diweddaraf gynnwys cynnwys sy'n cael ei gynhyrchu ar gyfer cynulleidfaoedd ar draws teledu sy'n cael ei ddarlledu ac ar-lein. Bydd angen hyblygrwydd ar y rhain i ganiatáu i ddarparwyr arloesi ac ymateb i newidiadau mewn technoleg a marchnadoedd. Ond dylai rhai cwotâu aros, i sicrhau rhaglenni cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus pwysig ac i ddiogelu ansawdd gwasanaethau darlledu traddodiadol ar gyfer y cynulleidfaoedd hynny a fydd yn parhau i ddibynnu arnyn nhw.

1.18 **Rhaid i'r dull mwy hyblyg hwn gael ei ategu gan atebolrwydd ac adrodd ar berfformiad yn dryloyw.** Dylai fod yn ofynnol i ddarparwyr cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus nodi cynlluniau clir i gyflawni eu rhwymedigaethau ac adrodd ar y canlyniadau. Bydd Ofcom yn dal darparwyr cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus yn atebol, er mwyn sicrhau bod anghenion cynulleidfaoedd yn cael eu diwallu. Dylai hyn gynnwys gosod gofynion newydd a rhoi cosbau os oes angen.

1.19 **Mae Ofcom eisoes yn cefnogi'r newid i ddarpariaeth ar-lein.** Ar hyn o bryd, ni all trwyddedau gwasanaeth cyhoeddus masnachol gynnwys gofynion ar-lein heb ddeddfwriaeth newydd. Ond fel rhan o'n proses o asesu perfformiad y BBC a C4 rydyn ni'n adolygu eu darpariaeth ar-lein. Rydyn ni eisoes yn asesu rheoliadau presennol y BBC i baratoi ar gyfer Adolygiad canol tymor y Llywodraeth o'r Siarter a byddwn yn trafod gyda nhw sut bydd ein hargymhellion yn effeithio ar Siarter a Chytundeb y BBC. Byddwn hefyd yn ymgynghori ar ddiweddaru Trwydded Weithredu'r BBC. Yn ddiweddar, mae'r Llywodraeth wedi cyhoeddi ymgynghoriad ar berchnogaeth a chylch gwaith Channel 4. Byddwn yn gweithio gyda'r Llywodraeth i roi unrhyw newidiadau mae'n penderfynu eu gwneud ar waith. Byddwn hefyd yn adrodd i'r Ysgrifennydd Gwladol erbyn mis Mehefin 2022 ar gynaliadwyedd trwyddedau darlledu Channel 3 a Channel 5.

## Rhaid i'r sector Cyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus barhau i drawsnewid

1.20 **Er bod angen moderneiddio'r fframwaith deddfwriaethol ar gyfer cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus ar frys, efallai na fydd hyn yn ddigon i sicrhau manteision eang cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus yn y dyfodol.**

1.21 **Mae gan y darparwyr gwasanaethau cyhoeddus presennol ddegawdau o brofiad ac arbenigedd ac mae ganddyn nhw frandiau dibynadwy iawn.** Maen nhw wedi mynegi hyder yn eu gallu i ddarparu cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus dros y degawd nesaf, gan ddisgrifio datblygiadau yn eu harlwy ar-alw a rhaglenni arloesol sydd eisoes wedi bod yn llwyddiannus gyda chynulleidfaoedd. Ond mae'r tueddiadau masnachol – gan gynnwys heriau i'r model hysbysebu traddodiadol a ffi'r drwydded – yn sylweddol ac mae newidiadau i ymddygiad cynulleidfaoedd yn gofyn am feddwl radical.

1.22 **Rhaid i ran o'r ymateb gynnwys agwedd fwy uchelgeisiol ac agored tuag at bartneriaethau gwirioneddol a strategol rhwng y chwaraewyr presennol ac ar draws y sector ehangach.** Er enghraifft, mae Channel 4 a Sky wedi ehangu eu partneriaeth bresennol yn ddiweddar i gynnwys cynnwys, technoleg ac arloesedd.

1.23 **Dylai'r Llywodraeth hefyd ystyried sut i annog darparwyr newydd.** Gallai hyn gynnwys harneisio'r ystod eang o raglenni newyddion, drama a chelfyddydol gwreiddiol o ansawdd uchel yn y DU, sy'n cael eu cynnig y tu allan i'r system cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus bresennol gan ddarparwyr masnachol presennol fel Sky a Discovery. Gallai fod manteision hefyd i gynulleidfaoedd o annog darparwyr newydd cynnwys cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus neu gynnwys sy'n debyg i gyfryngau gwasanaeth cyhoeddus, er enghraifft ar lwyfannau cyfryngau cymdeithasol. Gallai hyn hybu arloesedd a thargedu cynulleidfaoedd penodol nad ydyn nhw'n cysylltu â'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus presennol ar lwyfannau traddodiadol.

1.24 **Rydyn ni'n argymell i'r Llywodraeth y dylai deddfwriaeth ganiatáu i ddarpariaeth cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus ategol newydd roi hwb i gadernid a chynaliadwyedd tymor hir cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus.** Mae'r ddeddfwriaeth bresennol yn dynodi sianeli penodol a enwir i ddarparu darlledu gwasanaeth cyhoeddus. Dylai deddfwriaeth

wedi'i diweddaru ganiatáu i ddarparwyr cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus ategol gael eu hychwanegu at y fframwaith rheoleiddio, er mwyn cynyddu hyblygrwydd polisi yn y dyfodol.

1.25 **Gallai cymorth ariannol hefyd ychwanegu gwerth i gynulleidfaoedd mewn rhai meysydd** – fel rhaglenni rhanbarthol, neu helpu i gyrraedd cynulleidfaoedd sy'n fwyfwy darniog. Roedd llawer o randdeiliaid yn gwrthwynebu'n gryf brigdorri ffi trwydded y BBC i ariannu cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus ategol, gan ddweud y byddai'n gwanhau'r ddarpariaeth bresennol. Ond roedd cefnogaeth i amrywiaeth o gymhellion fel cyllid y mae modd cystadlu amdano neu ryddhad treth.

## Y camau nesaf

1.26 **Yr argymhellion pwysicaf yn y Datganiad hwn yw bod y Llywodraeth yn symud ymlaen drwy ddeddfwriaeth sylfaenol newydd.** Byddwn yn cefnogi'r Llywodraeth i ddatblygu cynigion manwl er mwyn gallu gwneud hyn cyn gynted ag sy'n bosibl.

1.27 **Bydd Ofcom yn parhau i gyflawni ein dyletswyddau presennol.** Yn ogystal â'n gwaith ail-drwyddedu, byddwn yn parhau i edrych ar effeithiolrwydd ein rheoleiddio arall, gan gynnwys hysbysebu, i sicrhau bod cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus yn parhau i lwyddo wrth galon economi greadigol fywiog y DU.

### Argymhellion

**Rydyn ni'n argymell bod y Llywodraeth yn cyflwyno deddfwriaeth sylfaenol ar frys er mwyn:**

**Moderneiddio amcanion y system bresennol i ddarparu cynnwys cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus sy'n:**

- darparu gwerth cymdeithasol, gan gynnwys newyddion cenedlaethol a rhanbarthol dibynadwy a chywir o ansawdd uchel ac amrywiaeth eang o raglenni difyr a llawn gwybodaeth yn y DU;
- dod â phobl at ei gilydd i rannu profiadau;
- adlewyrchu amrywiaeth y D.U;
- cefnogi economi greadigol y DU, gan sicrhau manteision economaidd ar draws y gwledydd a'r rhanbarthau;
- ar gael yn gyffredinol, ac yn cael ei ddarparu ar-lein yn ogystal â drwy deledu sy'n cael ei ddarlledu.

**Diweddaru'r rheolau ar gyfer amlygrwydd i gynnwys llwyfannau teledu cysylltiedig, er mwyn:**

- bod yn rhaid i ddarparwyr cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus gynnig eu gwasanaethau ar-alw i lwyfannau teledu poblogaidd;
- bod yn rhaid i lwyfannau gynnwys a rhoi amlygrwydd priodol i gynnwys cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus a negodi â darparwyr cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus;
- bod proses gorfodi a datrys anghydfod effeithiol ar waith.

**Diweddaru'r rheolau ar gynhyrchu cynnwys cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus, er mwyn:**

- i ofynion cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus ar gyfer comisiynu gan gynhyrchwyr annibynnol fod yn berthnasol i deledu a ddarlledir a gwasanaethau ar-lein;
- bod hyblygrwydd i newid y rheolau yn unol â thueddiadau'r farchnad ac amcanion polisi.

**Diweddaru'r rheolau ar gynhyrchu cynnwys cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus, er mwyn:**

- i'w gofynion sicrhau bod cynulleidfaoedd teledu ar-lein a theledu sy'n cael ei ddarlledu yn elwa o gyfryngau gwasanaeth cyhoeddus;
- i'r gofynion ganiatáu i bob darparwr cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus addasu ei wasanaethau i ddiwallu anghenion newidiol cynulleidfaoedd;
- i ddarparwyr cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus nodi eu cynlluniau i gyflawni eu hamcanion cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus ac adrodd yn flynyddol ar eu perfformiad.

**Caniatáu ar gyfer darpariaeth cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus ategol drwy:**

- gyflwyno hyblygrwydd i alluogi darparwyr ychwanegol i ddarparu cynnwys cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus newydd, ochr yn ochr â darparwyr cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus presennol.

**Ar ben hynny, rydyn ni'n argymell:**

- Bod y Llywodraeth yn ystyried yr achos dros gymhellion cyllidol a allai ehangu'r ddarpariaeth cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus.
- Bod darparwyr cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus yn parhau i gydweithio i ddatblygu mwy o bartneriaethau strategol ymysg ei gilydd a gyda'r diwydiant ehangach.
- Bod rôl rheoleiddio Ofcom yn cael ei diweddaru i adlewyrchu deddfwriaeth newydd, er mwyn i ni allu dal darparwyr cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus i gyfrif a chael yr hyblygrwydd i newid rheolau yn unol â thueddiadau'r sector.

# 2. Cyflwyniad

**Yn yr adran ragarweiniol hon, byddwn yn:**

- Crynhoi gwybodaeth ein rhaglen *Sgrin Fach: Trafodaeth Fawr*, gan gynnwys ein hymgynghoriad, yr ymatebion rydyn ni wedi'u cael gan randdeiliaid a'r gwaith rydyn ni wedi'i wneud ers hynny.
- Tynnu sylw at waith cysylltiedig arall a darparu amlinelliad o bob adran o'r datganiad hwn.

## Ymchwil, dadansoddi ac ymatebion i'r ymgynghoriad

2.1 Bu ein *Sgrin Fach: Trafodaeth Fawr* yn edrych ar sut i adnewyddu system cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus ('PSM') y DU ar gyfer y degawd nesaf. Mae'r gwaith hwn wedi cyfrannu at ein hargymhellion i'r Llywodraeth, a nodir yn y datganiad hwn, ynghylch sut gall ein system darlledu gwasanaeth cyhoeddus newid i system cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus.[1] Dylai system cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus fod ag amcanion diffiniedig y mae'n rhaid i ddarparwyr cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus eu cyflawni yn gyfnewid am fanteision penodol.

1 Y darparwyr cynnwys gwasanaeth cyhoeddus presennol a ystyrir yn y datganiad hwn yw: y BBC, trwyddedigion Channel 3 (ITV ac STV), Corfforaeth Channel 4, S4C a thrwyddedai Channel 5.

**Ffigur 1: Ffynonellau tystiolaeth sydd wedi cyfrannu at yr adolygiad hwn**[2]




2.2 Fel y nodir yn Ffigur 1, mae safbwyntiau cynulleidfaoedd ledled y DU a rhanddeiliaid yma a thramor wedi cyfrannu at ein dadansoddiad. Rydyn ni wedi canolbwyntio ar pam mae cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus yn bwysig a sut mae modd moderneiddio’r drefn reoleiddio bresennol i gefnogi cynaliadwyedd y system cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus.[3] Rydyn ni hefyd wedi cynnal dadansoddiad helaeth o’r farchnad, gan gynnwys comisiynu adroddiadau annibynnol gan EY a Mediatique.

2.3 Fe wnaethom gyhoeddi *Sgrin Fach: Trafodaeth Fawr,* yr ymgynghoriad ar ddyfodol cyfryngau gwasanaethau cyhoeddus yn y DU fis Rhagfyr diwethaf. Fe wnaethom rannu canfyddiadau ein hymchwil a’n dadansoddiad ac amlinellu opsiynau ar gyfer moderneiddio rheoleiddio er mwyn darparu cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus i gynulleidfaoedd. Fe wnaethom gyhoeddi cais am dystiolaeth ychwanegol ar y berthynas rhwng y sector cynhyrchu a darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus i ystyried pa reoliadau, os o gwbl, allai fod angen eu diweddaru.

2.4 Cawsom dros 100 o ymatebion i’n hymgynghoriad a’n cais ychwanegol am dystiolaeth. Fe wnaethom gyhoeddi’r holl ymatebion nad oedden nhw’n rhai cyfrinachol ar ein gwefan

[2] Mae adroddiadau a fideos llawn sy’n rhoi cipolwg ar y gwaith ymchwil a’r dadansoddi a gyfrannodd at yr adolygiad hwn ar gael ar ein gwefan.

3 Byddai gofyn cael deddfwriaeth newydd er mwyn gweithredu’r rhan fwyaf o’n hargymhellion, felly nid ydym wedi cynnal asesiad llawn o’u heffaith. Mewn egwyddor, byddem yn disgwyl i’n hargymhellion gael effaith gadarnhaol ar ddinasyddion a defnyddwyr y DU, gan gynnwys pob grŵp cydraddoldeb, ac ar y sector darlledu.

*Sgrin Fach: Trafodaeth Fawr* ym mis Mai.[4] Roedd bron pob un o'r ymatebion yn cefnogi ein barn bod cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus yn bwysig, ond mae angen rheoleiddio newydd yng ngoleuni newidiadau parhaus yn ymddygiad a thechnoleg cynulleidfaoedd. Roedd cytundeb ynghylch yr angen brys i ddiweddaru'r system cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus, gyda'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn benodol yn ailadrodd galwad am newidiadau i sicrhau amlygrwydd i'w chwaraewyr ar-alw.

2.5 Roedd nifer o ymatebwyr yn cwestiynu cysyniad a chwmpas cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus ac yn awgrymu y byddai angen ei ddiffinio'n gliriach mewn deddfwriaeth. Rydyn ni'n cytuno â'r angen am eglurder ac yn ystyried mai 'cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus' yw'r ffordd orau o ddisgrifio cynnwys gwasanaeth cyhoeddus sy'n cael ei ddarparu drwy amrywiaeth o lwyfannau, gan gynnwys teledu a ddarlledir a gwasanaethau ar-lein. Yn y ddogfen hon, rydyn ni'n cyfeirio at ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus fel darparwyr cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus i adlewyrchu hyn.

2.6 Roedd yr ymatebion hefyd yn cyfeirio at feysydd eraill o'n gwaith gan gynnwys amrywiaeth ym maes darlledu, hygyrchedd, rheoleiddio teledu lleol, cynhyrchu yn y gwledydd a'r rhanbarthau, perchnogaeth o'r cyfryngau ac agweddau penodol ar reoleiddio'r BBC. Nid ydym yn mynd i'r afael â'r rhain yn fanwl yma, ond maen nhw'n rhan o raglen waith barhaus Ofcom sy'n cael ei thrafod yn fyr yn **Adran 10**.

2.7 Tynnodd nifer o ymatebwyr sylw at y cyfraniad pwysig y mae cynnwys sain o amrywiaeth o ffynonellau yn ei wneud i'r system cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus.[5] Roedden nhw'n cyfeirio at wasanaethau radio a sain ar-lein y BBC yn ogystal â'r amrywiaeth o raglenni gan ddarlledwyr radio masnachol a chymunedol. Mae Ofcom wedi darparu mewnbwn technegol i'r adolygiad o radio a sain digidol y mae'r Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS) yn ei gynnal ar hyn o bryd gyda'r diwydiant, sy'n edrych ar y materion sy'n wynebu radio yn ystod y degawd nesaf. Yng ngoleuni'r adolygiad hwn sy'n mynd rhagddo ar hyn o bryd, rydyn ni wedi canolbwyntio ein hadolygiad *Sgrin Fach: Trafodaeth Fawr* ar gynnwys clyweledol ac nid ydym yn ystyried sain yn fanwl yn y ddogfen hon. Byddwn yn ystyried y goblygiadau ar gyfer rheoleiddio sain pan fydd adolygiad yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon yn cael ei gyhoeddi, yn ogystal ag yn ein gwaith ehangach ar Drwydded Weithredu'r BBC. Bydd angen i unrhyw ddeddfwriaeth newydd ystyried argymhellion adolygiad yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ochr yn ochr â'r adolygiad hwn.

2.8 Tynnodd rhai ymatebwyr sylw at yr angen i'n hadolygiad ystyried dyfodol teledu daearol digidol (DTT).[6] Pwysleisiodd Arqiva gadernid teledu daearol digidol er gwaethaf y twf mewn gwasanaethau ar-lein, ac roedd BT yn awyddus i ni ystyried newid rheoledig o

[4] Mae'r ymatebion i'w gweld ar ein gwefan yma. Rydyn ni wedi ystyried yr holl ymatebion wrth lunio ein safbwyntiau a'n hargymhellion, ac wedi cyfeirio at rai ohonyn nhw yn y ddogfen hon, lle bo hynny'n berthnasol.
[5] Ymateb Premier Christian Media Trust i'r ymgynghoriad; Ymateb Radiocentre i'r ymgynghoriad; Ymateb Better Media i'r ymgynghoriad; Ymateb AudioUK i'r ymgynghoriad
[6] Ymateb Together TV i'r ymgynghoriad, t.1; Ymateb Digital UK i'r ymgynghoriad, t10; Ymateb Voice of the Listener and Viewer, t.2

deledu sy'n cael ei ddarlledu i deledu rhyngrwyd,[7] a fydd yn gofyn am sawl blwyddyn o gynllunio.[8] Er nad yw'r adolygiad hwn wedi canolbwyntio ar hyn, byddwn yn parhau i ymgysylltu â'r Llywodraeth a rhanddeiliaid ynghylch dyfodol y llwyfan DTT. Fel rhan o hyn, byddwn yn sicrhau bod buddiannau cynulleidfaoedd nad ydyn nhw ar-lein eto a'r rheini nad ydyn nhw'n defnyddio teledu daearol digidol i gael mynediad at gyfryngau gwasanaeth cyhoeddus yn cael eu diogelu. Rydyn ni'n disgwyl i'r llwyfan DTT fod yn bwysig i gynulleidfaoedd am y degawd nesaf o leiaf.

## Ynghylch y datganiad hwn

2.9 Mae **Adran 3** yn trafod yr heriau ar gyfer cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus ac yn rhoi cyd-destun ar gyfer yr argymhellion yng ngweddill y ddogfen.

2.10 Mae **Adran 4** yn nodi'r hyn y dylai'r system cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus ei ddarparu yn y dyfodol, gan ystyried pa agweddau ar ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus sy'n bwysig i gynulleidfaoedd, cymdeithas ac economi y DU.

2.11 Mae **Adran 5** yn cynnig y strwythur ar gyfer fframwaith rheoleiddio newydd.

2.12 Mae **Adran 6** yn edrych ar gynigion ar gyfer diweddaru deddfwriaeth a rheoleiddio i sicrhau bod cynnwys ar gael ac yn amlwg i gynulleidfaoedd.

2.13 Mae **Adran 7** yn ystyried a oes angen diweddaru rheoleiddio ar gyfer comisiynu cynnwys oherwydd newidiadau yn yr economi greadigol dros y blynyddoedd diwethaf.

2.14 Mae **Adran 8** yn nodi'r angen am rwymedigaethau cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus wedi'u diweddaru sy'n adlewyrchu sut mae arferion cynulleidfaoedd a thechnoleg yn newid.

2.15 Mae **Adran 9** yn edrych ar ragor o gyfleoedd i wella'r system cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus drwy bartneriaethau strategol a darpariaeth ategol newydd.

2.16 Mae **Adran 10** yn nodi'n fyr y camau nesaf ar gyfer Ofcom a sut mae'r rhain yn cysylltu â datblygiadau sy'n mynd rhagddynt yn sector cyfryngau ehangach y DU, gan gynnwys gyda'r Llywodraeth.

2.17 Ceir nifer o atodiadau ategol ar y meysydd canlynol:

a) **Atodiad 1:** Sicrhau bod cynnwys cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus yn dal i fod ar gael yn eang ac yn amlwg
b) **Atodiad 2:** Cynhyrchu cynnwys Cyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus
c) **Atodiad 3:** Sut i gymell darpariaeth newydd o Gyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus yn y DU
d) **Atodiad 4:** Annog cynnwys sydd o ddiddordeb i'r cyhoedd: enghreifftiau rhyngwladol
e) **Atodiad 5:** Y fframwaith rheoleiddio Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus presennol

[7] Dosbarthiad IP.
[8] Ymateb Arqiva i'r ymgynghoriad, t.2; Ymateb BT i'r ymgynghoriad, t.2.

# 3. Yr heriau sy'n wynebu diwydiant darlledu'r DU

**Yn yr adran hon, rydyn ni'n:**

- Disgrifio sut mae marchnad sy'n newid yn gyflym yn golygu bod ystod eang o wasanaethau darlledu ac ar-lein nawr yn cystadlu am sylw cynulleidfaoedd, gyda darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn wynebu heriau gan chwaraewyr byd-eang mawr gydag adnoddau ariannol sylweddol.
- Egluro fod pandemig Covid-19 wedi gwaethygu rhai o'r newidiadau hyn ar yr un pryd â dangos pwysigrwydd parhaus cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus.
- Crynhoi rhai o'r awgrymiadau am gyllid i'r dyfodol a wnaed gan ymatebwyr.

3.1 Yn ein hymgynghoriad roedden ni wedi dweud bod datblygiadau technolegol, mwy o gystadleuaeth gan chwaraewyr byd-eang a newid strwythurol parhaus mewn ymddygiad cynulleidfaoedd yn tarfu ar ddiwydiant cynnwys y DU. Nid yw cyflymder y newid, sy'n cael ei waethygu'n rhannol gan bandemig Covid-19, yn dangos unrhyw arwyddion o arafu.

## Mae cynulleidfaoedd yn dal i dreulio mwy o amser ar-lein

3.2 Mae cynulleidfaoedd y DU yn parhau i elwa o dwf anhygoel mewn cynnwys o ansawdd uchel, sydd ar gael ar deledu ac ar-lein, ac sy'n cael ei ddarparu gan ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus a darlledwyr masnachol. Mae amrywiaeth eang o wahanol wasanaethau, o gyfryngau cymdeithasol i lwyfannau gemau ar-lein, yn parhau i gystadlu am sylw'r gynulleidfa. Mae bron bob un o ddefnyddwyr y rhyngrwyd (97%) wedi defnyddio gwasanaethau rhannu fideos fel YouTube[9] ac mae'r gwasanaethau hyn yn parhau i weld twf cyflym yn eu poblogrwydd. Cynyddodd cyrhaeddiad TikTok ymysg oedolion y DU o 5.4 miliwn ym mis Ionawr 2020 i 13.9 miliwn ym mis Mawrth 2021.[10] Rhwng 2015 a 2020, gostyngodd gwylio teledu sy'n cael ei ddarlledu gan 24 munud y pen bob dydd; ar yr un pryd roedd gwylio gwasanaethau fideo ar-alw drwy danysgrifio ('SVoDs') wedi cynyddu i 65 munud y pen bob dydd.[11] Mae chwarae gemau hefyd yn weithgaredd cyffredin; yn 2020, dywedodd 62% o oedolion yn y DU eu bod yn chwarae gemau ar ddyfais electronig, gan godi i 92% o bobl ifanc 16-24 oed.[12]


3.3 Mae arferion ac agweddau gwylwyr sy'n newid yn debygol o barhau. Mae mwy a mwy o bobl yn gwylio cynnwys ar-lein – erbyn mis Medi 2020, roedd 60% o holl gartrefi'r DU wedi tanysgrifio i wasanaeth ar-alw, i fyny o 49% y flwyddyn cynt.[13] Mae ychydig dan hanner

[9] Ofcom, 2021. Profiad Defnyddwyr o Niwed Ar-lein Posibl mewn Llwyfannau Rhannu Fideos, t.15.
[10] Comscore MMX Multi-Platform, TikTok, Oedran: 18 oed a hŷn, Ionawr 2020 a Mawrth 2021, y DU.
[11] Amcangyfrifon Ofcom wedi'u modelu o ddata BARB, Comscore a TouchPoints.
[12] Ofcom, 2021. Adroddiad ar Agweddau Oedolion a'u Defnydd o Gyfryngau 2020/21, t.9.
Arolwg Sefydliad BARB, Ch3 2019 & Ch3 2020.

(47%) yr holl oedolion sy'n mynd ar-lein nawr yn ystyried mai gwasanaethau ar-lein yw eu prif ffordd o wylio teledu a ffilmiau, gan godi i tua dwy ran o dair (64%) ymysg pobl ifanc 18-24 oed.[14]

3.4 Mae ein parodrwydd i dalu am wasanaethau yn parhau i dyfu. Roedd aelwydydd sy'n tanysgrifio i wasanaethau ar-alw wedi talu 1.7 tanysgrifiad ar gyfartaledd ar ddiwedd 2020,[15] gan godi i 2.3 pan ystyriwyd treialon am ddim a rhannu cyfrifon.[16] Fel sy'n cael ei ddangos yn Ffigur 2 isod, roedd gwasanaethau blaenllaw Netflix (14.8 miliwn o aelwydydd) ac Amazon Prime Video (9.5 miliwn) wedi cynyddu eu sylfaen tanysgrifwyr yn sylweddol yn 2020. Erbyn hyn, mae gan Disney+, a lansiodd yn y DU ym mis Chwefror 2020 dros 3.4 miliwn o danysgrifwyr yn y DU.[17]

**Ffigur 2: Aelwydydd yn y DU sy'n tanysgrifio i wasanaethau SVoD**




*Ffynhonnell: Arolwg Sefydliad BARB. Oherwydd pandemig Covid-19, cafodd arolwg Sefydliad BARB ei atal dros dro, gan arwain at beidio â chasglu data ar gyfer Ch2 2020, Ch4 2020 a Ch1 2021.*

## Mae chwaraewyr byd-eang wedi cynyddu cystadleuaeth yn y farchnad cynnwys

3.5 Mae cynulleidfaoedd wedi croesawu amrywiaeth o newidiadau technolegol sy'n gweddnewid y profiad gwylio heddiw. Rydyn ni'n defnyddio mwy a mwy o argymhellion chwilio sy'n seiliedig ar algorithm i'n helpu i lywio drwy lyfrgelloedd cynnwys helaeth a

[14] Ampere Analysis Consumer UK, oedran: ar-lein 18-64, 2020. Sylfaen: 4000.
[15] Ampere – Data Gweithredwyr y Farchnad YE2020, yn cynnwys tanysgrifwyr o bob oed ac nid yw'n cynnwys treialon am ddim.
[16] Ampere Analysis Consumer UK, oedran: ar-lein 18-64, Ch3 2020. Sylfaen: 2000.
[17] Arolwg Sefydliad BARB Ch3 2020.

gwylio cynnwys ar amrywiaeth eang o ddyfeisiau y tu mewn a'r tu allan i'r cartref. Mae'r newidiadau hyn yn arferion cynulleidfaoedd yn newid y ffordd mae'r diwydiant cynnwys yn gweithio ac yn gwanhau gallu darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus i ddylanwadu ar yr hyn mae gwylwyr yn ei wylio.

3.6 Mewn ymateb i'n hymgynghoriad, tynnodd rhai rhanddeiliaid fel Google, sylw at y cyfraniad cadarnhaol y mae gwasanaethau byd-eang fel YouTube yn ei gynnig i ddarparwyr cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus wrth ddarparu cynnwys drwy eu swyddogaethau chwilio, cynyddu'u cyrhaeddiad a hyrwyddo doniau newydd yn y DU.

> "Ar draws diwydiannau creadigol y DU, mae YouTube a llwyfannau rhannu fideos eraill yn chwarae rôl bwysig o ran hyrwyddo talent newydd ledled y DU ac yn fyd-eang [...]. Mae YouTube hefyd mewn sefyllfa dda i helpu crewyr i gyrraedd ac ymgysylltu â chynulleidfaoedd newydd."[18] **Google**

3.7 Fodd bynnag, mynegodd eraill bryderon bod gweithredwyr llwyfannau byd-eang fel Apple ac Amazon, sy'n gallu casglu llawer iawn o ddata am eu cynulleidfaoedd, yn cael mantais annheg o gymharu â darparwyr cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus:[19]

> "Mae gan lwyfannau byd-eang fynediad at faint o ddata defnyddwyr sy'n gyrru economeg llwyfannau. Mae data am ddefnyddwyr yn werthfawr iawn ar gyfer hysbysebion wedi'u targedu, ond hefyd ar gyfer datblygu cynnyrch (ac, ym maes darlledu, ar gyfer creu a chomisiynu cynnwys). Mae hefyd yn sail i ansawdd argymhellion algorithmig, gan alluogi llwyfannau i gynnig profiadau gwell i ddefnyddwyr."[20] **Yr Athro Catherine Johnson**
>
> "Mae dosbarthiad ac argaeledd ein cynnwys y cael ei herio fwyfwy. Yn gynyddol, y cewri technoleg byd-eang fel Amazon, Google, Facebook ac Apple yw'r porthorion ar gyfer cynnwys gwasanaeth cyhoeddus. Mae'r llwyfannau byd-eang hyn nawr yn rheoli'r rhyngwyneb y mae gwylwyr yn ei ddefnyddio i gael gafael ar deledu ym Mhrydain, ac felly maen nhw'n gallu dylanwadu ar ba gynnwys mae gwylwyr yn gallu cael gafael arno, sut mae'r cynnwys hwnnw'n cael ei gyflwyno, a sut gall darlledwyr yn y DU bennu gwerth y gwylio hwn."[21] **Channel 4**

3.8 Mae gan y cwmnïau byd-eang mawr sy nawr yn cystadlu â darparwyr cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus yn y DU lawer mwy o adnoddau ariannol, sy'n golygu eu bod yn gallu buddsoddi'n helaeth yn eu llwyfannau ac mewn cynnwys newydd – mae Netflix wedi dweud ei fod yn bwriadu gwario dros $17 biliwn ar gynnwys yn 2021.[22] Ym mis Tachwedd 2020, roedd Netflix wedi cyllidebu ar gyfer gwariant o £750m ar gynnwys yn y DU yn unig, cynnydd o 50% ar y flwyddyn flaenorol, gan wneud y DU yn ail farchnad fwyaf iddo ar ôl yr

[18] Ymateb Google a YouTube i'r ymgynghoriad, t.3.
[19] Ymateb Pwyllgor Cynghori Ofcom ar gyfer Gogledd Iwerddon i'r ymgynghoriad, t.11.
[20] Ymateb Johnson, yr Athro C i'r ymgynghoriad, t.5.
[21] Ymateb Channel 4 i'r ymgynghoriad, t.19.
[22] Netflix, Ebrill 2021. Llythyr enillion chwarter cyntaf i gyfranddalwyr.

Unol Daleithiau.[23] Er bod hyn yn newyddion gwych i gynulleidfaoedd y DU ac i economi ehangach y DU, mae'n her sylweddol i ddarparwyr cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus. Ers 2014 mae cyllidebau cynnwys darparwyr cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus wedi bod yn ddisymud i raddau helaeth (roedd gwariant uniongyrchol ar raglenni sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf wedi disgyn o £3 biliwn yn 2014 i ychydig dros £2.8 biliwn yn 2019) ac maen nhw wedi defnyddio mwy a mwy o ffynonellau trydydd parti.[24]

3.9 Nid yw'r cynnydd hwn yn y gystadleuaeth fyd-eang yn dangos unrhyw arwyddion o arafu. Yn ystod y misoedd diwethaf, gwelwyd uno sylweddol pellach gydag Amazon yn prynu MGM a'i 4,000 o ffilmiau a 17,000 o sioeau teledu am $8.5bn a'r cwmni telathrebu o'r Unol Daleithiau, AT&T yn uno ei is-adran cyfryngau, WarnerMedia gyda Discovery.[25] Mae cystadleuwyr mawr yn tarfu fwyfwy ar y berthynas rhwng darlledwyr a'u cynulleidfaoedd. Bydd y datblygiadau hyn yn parhau i roi pwysau ar gynaliadwyedd ariannol darparwyr cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus ac yn ei gwneud yn anoddach iddyn nhw gystadlu am gynulleidfaoedd ar yr un pryd â chynnal eu cynnig presennol.

## Mae pandemig Covid-19 wedi dangos y gwerth a'r manteision pwysig y mae cynulleidfaoedd yn chwilio amdanyn nhw mewn cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus

- **Roedd pobl yn defnyddio gwasanaethau ar-lein fwy nag erioed yn ystod pandemig Covid-19.** Erbyn diwedd 2020, roedd gan tua 94% o gartrefi'r DU fynediad i'r rhyngrwyd, i fyny o 89% yn 2019.[26] Roedd hyn yn golygu bod mwy o bobl yn gallu cael mynediad at yr ystod eang o wasanaethau oedd ar gael ar-lein. Er enghraifft, yn ein hymchwil hir, ansoddol i agweddau oedolion a'u defnydd o gyfryngau, mae nifer o gyfranogwyr sydd â sgiliau digidol cyfyngedig (yn enwedig, ond nid yn gyfan gwbl, aelodau hŷn o'r ymchwil) wedi defnyddio technoleg newydd am y tro cyntaf o ganlyniad i anghenion penodol a gafodd eu creu gan bandemig Covid-19.[27]
- **Bu i bandemig Covid-19 atgyfnerthu pwysigrwydd cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus.** Roedd pobl yn chwilio am newyddion dibynadwy a chywir o ansawdd uchel i fynd i'r afael â chamwybodaeth eang, yn chwilio am gynnwys addysgol i gefnogi addysgu gartref ac yn troi at raglenni adloniant i gael ymlacio. Gyda chyfyngiadau symud cenedlaethol yn cadw pobl gartref yn 2020, cynyddodd y gwylio yn gyffredinol ond gwelwyd mwy o dwf ar-lein nag ar deledu sy'n cael ei ddarlledu. Treuliodd pobl 58 munud y dydd ar gyfartaledd yn gwylio gwasanaethau ar-lein fel Netflix a BBC iPlayer ar setiau teledu (25 munud yn fwy nag yn 2019).[28] Er bod SVoDs wedi elwa o'r cynnydd mwyaf yn y gynulleidfa, cafodd gwasanaethau ar-alw darparwyr gwasanaeth

---

[23] Ofcom/darlledwyr a gyflwynwyd yn Cyfryngau'r Genedl 2020 Ofcom; The Guardian, 25 Tachwedd 2020. Netflix i wario $1bn yn y DU yn 2020 ar raglenni teledu a ffilmiau.
[24] Ofcom/darlledwyr a gyflwynwyd yn Cyfryngau'r Genedl 2020 Ofcom.
[25] Datganiad i'r wasg Amazon, Mai 2021. Amazon ac MGM wedi llofnodi cytundeb i Amazon gaffael MGM; datganiad i'r wasg AT&T, Mai 2021. WarnerMedia AT&T a Discovery, Inc. yn Creu Cwmni Annibynnol drwy Gyfuno Gweithrediadau i Ffurfio Arweinydd Byd-eang Newydd ym maes Adloniant.
[26] Ofcom, 2021. Traciwr Technoleg arolwg omnibws CATI - 12 Chwefror i 5 Mawrth 2021, KDR06; Ofcom, 2020. Traciwr Technoleg y Gwledydd a'r Rhanbarthau, QE2. Dylid ystyried y symudiad hwn fel un dangosol yn unig. Mae newidiadau methodoleg a orfodwyd i'r arolwg yn cyfyngu ar gymharu'n uniongyrchol â blynyddoedd blaenorol felly, er y gallai'r ffigurau hyn fel arfer ddangos cynnydd mewn mynediad i'r rhyngrwyd o'i gymharu â blynyddoedd blaenorol, gallai'r newid hefyd fod oherwydd y newid mewn methodoleg, yn hytrach nag unrhyw newid gwirioneddol mewn mynediad i'r rhyngrwyd.
[27] Ofcom, 2021. Y Cyfryngau ym Mywyd Oedolion 2020/21, t.17-18.
[28] Amcangyfrifon Ofcom wedi'u modelu o ddata BARB, Comscore a TouchPoints.

cyhoeddus y flwyddyn orau erioed hefyd.[29] Roedd gwylio teledu wedi'i ddarlledu yn 2020 wedi cynyddu naw munud ar gyfartaledd y pen, y diwrnod (cynnydd o 5%, gan ddod â hyn yn ôl i lefelau 2018).[30]

- **Refeniw hysbysebu, cynhyrchu a gwariant**. Arweiniodd pandemig Covid-19 at ostyngiad serth cychwynnol mewn refeniw hysbysebu. Roedd ITV, Channel 4 a Channel 5 i gyd wedi adrodd am doriadau mewn gwariant ar gynnwys. Nododd y BBC £125m o arbedion ar draws ei gyllidebau cynnwys a'i gostau gweithredu.[31] Bu i'r pandemig hefyd gynyddu'r pwysau ar gostau cynhyrchu, gyda chynhyrchwyr annibynnol yn dweud bod costau ychwanegol cydymffurfio â Covid-19 rhwng 10% a 25%.[32] Roedd hyn i gyd yn ychwanegu at yr heriau ariannol a wynebir gan ddarparwyr cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus, sy'n gyfranwyr allweddol at wariant rhaglenni yn y DU. Fodd bynnag, erbyn diwedd 2020, roedd Corfforaeth Channel 4 wedi gwella'n dda ac wedi adrodd ar warged o £74m.

## Mae cyllido cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus yn dod yn fwyfwy heriol

3.10 Yn ein hymgynghoriad, fe wnaethom ddweud bod yr angen i gyrraedd cynulleidfaoedd ar-lein a graddfa'r tarfu ar y farchnad yn rhoi mwy a mwy o bwysau ariannol ar y darparwyr cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus.

3.11 Rhwng 2015 a 2019, gwelwyd gostyngiad cyfun o 16% mewn refeniw hysbysebu teledu a ddarlledir, mewn termau real,[33] gyda chwymp pellach o 15% yn 2020[34] o ganlyniad i bandemig Covid-19. Mae rhai arwyddion o adferiad wedi bod yn 2021 ac mae AA/WARC wedi rhagweld y byddai refeniw hysbysebion teledu yn cynyddu 9% yn 2021 a 2% yn 2022. Fodd bynnag, nid yw'r rhain yn ddigon i wrthbwyso'n llawn y gostyngiadau a gafodd eu hachosi gan y pandemig neu i wrthdroi'r newid strwythurol tymor hwy oddi wrth hysbysebu ar y teledu; mae Mediatique wedi amcangyfrif gostyngiad blynyddol o tua 2% mewn refeniw hysbysebu teledu sy'n cael ei ddarlledu rhwng 2018-2024. Er bod y darparwyr cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus masnachol wedi cael rhywfaint o lwyddiant o ran cynyddu refeniw hysbysebu ar eu gwasanaethau ar-alw yn y blynyddoedd diwethaf – gan gynnwys cynnydd o 15% rhwng 2015 a 2019 – bydd symud oddi wrth hysbysebion teledu yn parhau i roi pwysau ar gyllid darparwyr cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus.[35]

[29] BBC Media Centre, 20 Ebrill 2021. Dechrau 2021 yn torri pob record i BBC iPlayer.
[30] BARB.
[31] BBC, 2020. Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Grŵp y BBC 2019/20, t.43.
[32] Broadcast Indie Survey 2021. I gael rhagor o wybodaeth am y tueddiadau ehangach sy'n effeithio ar y sector cynhyrchu, edrychwch ar Atodiad 2.
[33] Ofcom/darlledwyr; Ofcom, 2020. Adroddiad ar y Farchnad Gyfathrebu 2020.
[34] Teledu heb gynnwys BVoD o AA/WARC.
[35] Adroddiad Mediatique ar gyfer Ofcom, 2020. Modelau'r Dyfodol ar gyfer darparu darlledu gwasanaeth cyhoeddus, t.31, Ffigur 27 (Twf refeniw CAGR 2014-2024). Amcangyfrifodd Mediatique y byddai twf cyfansawdd blynyddol refeniw hysbysebu teledu sy'n cael ei ddarlledu rhwng 2018 a 2024 yn -2.1%.

> "Wrth i batrymau defnyddio newid ac wrth i chwaraewyr newydd ddod i'r amlwg, mae modelau cyllido wedi newid yn sylfaenol: mae gwariant hysbysebion wedi newid o deledu i ddigidol, mae gwariant defnyddwyr ar danysgrifiadau wedi cynyddu, ac mae arian yn cael ei gipio gan chwaraewyr rhyngwladol. Y canlyniad yw colli cyllid i ddarparwyr cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus."[36] **ITN**

3.12 Yn eu hymatebion, roedd rhai darlledwyr yn codi pryderon y byddai'r gwaharddiad ar hysbysebu bwyd a diod sy'n uchel mewn braster, siwgr a halen ar y teledu cyn 9pm,[37] yn gallu gostwng symiau sylweddol o refeniw hysbysebu ac y byddai, yn absenoldeb cyfyngiadau tebyg ar hysbysebu ar-lein "ond yn arwain at refeniw yn llifo o deledu i ar-lein."[38] Roedd rhanddeiliaid eraill yn poeni y byddai'r effaith negyddol hon ar refeniw darparwyr cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus yn lleihau'r buddsoddiad mewn cynnwys i blant yn benodol ac yn awgrymu bod diffyg tystiolaeth y byddai'r nod polisi o leihau gordewdra ymhlith plant yn cael ei gyflawni gyda'r cyfyngiadau arfaethedig. Roedd ITV hefyd yn dadlau y byddai'r rheolau newydd yn lleihau gwerth y manteision rheoleiddio maen nhw'n eu cael am ddarparu cynnwys gwasanaeth cyhoeddus ar deledu traddodiadol.

> "Ni fydd yr ymyriad hwn, ar sail y dystiolaeth, yn gwneud unrhyw wahaniaeth i leihau gordewdra ymhlith plant. Ond bydd yn cael gwared ar swm enfawr o refeniw o deledu masnachol [...]. Bydd hefyd yn cael gwared ar werth sylweddol o'r asedau rheoleiddio – sbectrwm DTT ac amlygrwydd EPG llinol – sy'n sail i'r rhwymedigaethau darlledu gwasanaeth cyhoeddus presennol, gan arwain at ganlyniadau difrifol o ran hyfywedd y system cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus masnachol."[39] **ITV**

3.13 Mae'r BBC hefyd wedi wynebu heriau sylweddol i'w incwm. Yn ôl Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon y BBC, yn 2019/20 cododd y BBC £3.52 biliwn o refeniw o ffi'r drwydded. Roedd hyn yn ostyngiad o bron i 5% ers y flwyddyn flaenorol oherwydd gostyngiad graddol yng nghyllid y Llywodraeth ar gyfer trwyddedau i bobl dros 75 oed a gostyngiad yn nifer y trwyddedau y talwyd amdanyn nhw.[40]

## Barn ymatebwyr am fodelau cyllido ar gyfer cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus

3.14 Y llynedd, fe wnaethom gomisiynu EY i edrych ar fodelau cyllido cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus rhyngwladol i ganfod opsiynau a allai weithio yn y DU. Fe wnaethom ofyn i

[36] Ymateb ITN i'r ymgynghoriad, t.15.
[37] Ers hynny, mae'r Llywodraeth wedi cyhoeddi y bydd, erbyn diwedd 2022, yn cyflwyno trothwy 9pm ar y teledu ar gyfer cynnyrch HFSS ac ar yr un pryd yn cyfyngu ar hysbysebion HFSS ar-lein y telir amdanynt. Gweler GOV.UK, Cyfyngiadau hysbysebu pellach ar gyfer cynhyrchion sy'n cynnwys llawer o fraster, halen a siwgr.
[38] Ymateb Channel 4 i'r ymgynghoriad, t.32.
[39] Ymateb ITV i'r ymgynghoriad, t.2.
[40] BBC, 2021. Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Grŵp y BBC 2020/21, t.45.

randdeiliaid am eu barn ar opsiynau eraill ar gyfer ariannu cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus yn y dyfodol, neu wersi y gallem eu dysgu gan wledydd eraill. Isod, rydyn ni'n crynhoi eu hymatebion er mwyn helpu i gyfrannu at y drafodaeth ynghylch sut gallai modelau cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus masnachol a rhai sy'n cael eu hariannu'n gyhoeddus esblygu. Nid yw ein hadolygiad yn gwneud argymhellion ynghylch ariannu'r system yn y dyfodol. Mae hyn yn cynnwys cyllido'r BBC, sy'n fater i Lywodraeth a Senedd y DU ei ystyried.

## Egwyddorion a dulliau cyllido

3.15 Roedd rhai ymatebwyr yn awyddus i bwysleisio eu cefnogaeth i ganllawiau'r Undeb Darlledu Ewropeaidd[41] y gwnaethon ni gyfeirio atyn nhw yn yr ymgynghoriad.[42] Mae'r rhain yn argymell mai'r egwyddorion pwysicaf ar gyfer unrhyw fodel cyllido yw: ffynhonnell gyllid sefydlog a rhagweladwy, yn annibynnol ar ymyrraeth wleidyddol, yn deg ac yn gyfiawnadwy i'r cyhoedd ac i'r farchnad ac yn dryloyw ac yn atebol. Roedd rhai ymatebwyr hefyd yn canmol model cyllido cymysg y DU,[43] a thynnodd eraill sylw at yr her i ddarparwyr cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus o ran darparu teledu traddodiadol yn ogystal â gwasanaethau ar-lein.[44]

> "Mae'r model cymysg presennol ar gyfer cyllido darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn gweithio'n dda yn ymarferol. Mae'r cyfuniad o ffi'r drwydded (BBC) a darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus sy'n cael eu hariannu'n fasnachol (ITV, Channel 4, Channel 5) yn helpu i sicrhau bod cynulleidfaoedd y DU nid yn unig yn cael gwerth am arian, ond hefyd amrywiaeth eang o gynnwys o ansawdd uchel."[45] **Pact**
>
> "Yn syml iawn, nid yw'n ymarferol gofyn i sefydliadau cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus wneud mwy gyda llai, o ystyried y gofynion ariannol o redeg cynnig llinol/ar-lein hybrid."[46] **Yr Athro Catherine Johnson**

3.16 Awgrymodd cyfran fawr o'r ymatebwyr y gellid defnyddio rhyw fath o gronfa y mae modd cystadlu amdani neu fecanwaith rhyddhad treth i wella darpariaeth cynnwys cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus ac annog arloesedd. Trafodir y rhain yn fanylach yn **Adran 9** lle byddwn yn edrych ar amrywiaeth o gymhellion i annog cynnwys cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus yn y dyfodol. Gan fod hysbysebu hefyd yn rhan hanfodol o'r model cyllido cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus, cafwyd awgrymiadau hefyd ynghylch sut gellid moderneiddio rheoleiddio, yn enwedig gan y darparwyr cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus presennol. Rydyn ni'n cyfeirio at y rhain yn **Adran 10**

---

[41] Yr Undeb Darlledu Ewropeaidd, 2017. Ffocws cyfreithiol: egwyddorion cyllido cyhoeddus ar gyfer cyfryngau gwasanaethau cyhoeddus, t.3.
[42] Ymateb Pwyllgor Cynghori Ofcom ar gyfer yr Alban i'r ymgynghoriad, t.9; Ymateb Pwyllgor Cynghori Ofcom ar gyfer Cymru i'r ymgynghoriad, t.2.; Ymateb Yr Athro C Johnson i'r ymgynghoriad, t.8.
[43] Ymateb Pact i'r ymgynghoriad, t.15; Ymateb ITN i'r ymgynghoriad, t.15; Ymateb yr Athro S Barnett i'r ymgynghoriad, t.5.
[44] Ymateb yr Athro C Johnson i'r ymgynghoriad, t.10.
[45] Ymateb PACT i'r ymgynghoriad, t.15-16.
[46] Ymateb yr Athro C Johnson i'r ymgynghoriad, t.10.

## Modelau tanysgrifio

3.17 Nid oedd unrhyw gefnogaeth i fodel tanysgrifio cyflawn ar gyfer cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus. Roedd nifer o ymatebion yn gwrthwynebu'n gryf unrhyw fath o danysgrifio. Roedd yr ymatebwyr hyn yn dadlau y byddai tanysgrifio yn atal cynnwys cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus rhag bod am ddim ar y pwynt defnyddio, gan arwain at risg o gynyddu'r bwlch digidol a byddai'n tanseilio'r cyffredinolrwydd sy'n ganolog i'r system cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus.[47]

> "Dylen nhw hefyd sicrhau bod cynnwys cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus ar gael yn gyffredinol ac yn rhad ac am ddim pan fydd yn cael ei ddefnyddio. Felly, rydyn ni'n credu nad yw model tanysgrifio, er enghraifft, yn opsiwn credadwy i'w ystyried gan ei fod yn mynnu bod defnyddwyr yn talu i gael gafael ar gynnwys ac nad yw'n gydnaws â'r egwyddor hon o gyffredinolrwydd."[48] **Digital UK**
>
> "Mae VLV yn gwrthwynebu tanysgrifio fel model cyllido ar gyfer darlledu gwasanaeth cyhoeddus oherwydd byddai hyn yn tanseilio ei natur gyffredinol. Mae system ddarlledu gyffredinol y DU yn sicrhau cydraddoldeb lle mae gan bob dinesydd fynediad at gynnwys darlledu gwasanaeth cyhoeddus o ansawdd uchel, ni waeth ble maen nhw'n byw na beth yw eu hincwm. Byddai system tanysgrifio o blaid y bobl fwyaf cefnog mewn cymdeithas. Byddai'n tanseilio llawer o fanteision cymdeithasol allweddol darlledu gwasanaeth cyhoeddus."[49] **Llais y Gwrandäwr a'r Gwyliwr**

3.18 Ar gyfer y rhan fwyaf o ddarparwyr cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus y DU, mae tanysgrifio eisoes yn rhan gyfyngedig o'u model busnes er mwyn ategu incwm. Roedd rhai ymatebwyr yn awgrymu y gallai darparwyr cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus elwa o wasanaethau masnachol ychwanegol yn cael eu cynnig drwy danysgrifiad.[50] Er enghraifft, menter cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus ar y cyd Britbox neu wasanaethau gwell fel ITVHub+ ac All 4+, sy'n rhoi dewis i wylwyr wylio cynnwys heb hysbysebion.

> "Barn Screen Scotland yw, er bod y tanysgrifiad yn anghydnaws â chyffredinolrwydd, nid yw darparu gwasanaethau ffrydio premiwm sy'n seiliedig ar fodel tanysgrifio – fel ITV Hub+ neu All 4+ – yn anghydnaws, ar yr amod bod yr holl gynnwys yn ymddangos yn gyntaf, ac am gyfnod ystyrlon, 'am ddim'."[51] **Screen Scotland**

3.19 Er y gallai fod opsiynau ar gyfer modelau hybrid newydd yn ymwneud â thanysgrifio yn y dyfodol, mae'r dulliau hyn yn codi cwestiynau ynghylch beth ddylai fod ar gael yn eang.

---

[47] Ymateb MG Alba i'r ymgynghoriad, t.2; Ymateb yr Athro P Barwise i'r ymgynghoriad, t. 4, Ymateb VLV i'r ymgynghoriad, t.27; Ymateb Media Reform Coalition i'r ymgynghoriad, t.1.
[48] Ymateb Digital UK i'r ymgynghoriad, t.17.
[49] Ymateb VLV i'r ymgynghoriad, t.27.
[50] Ymateb BT i'r ymgynghoriad, t.13; Ymateb Pwyllgor Cynghori Ofcom ar gyfer Lloegr i'r ymgynghoriad, t.2.
[51] Ymateb Screen Scotland i'r ymgynghoriad, t.5.

Petai llawer neu'r cyfan o gyfryngau gwasanaeth cyhoeddus yn cael eu darparu y tu ôl i wal dalu byddai'n anodd ei gysoni â'i nod craidd i ddarparu gwasanaethau i bawb sy'n dod â'r genedl at ei gilydd. Fel rydyn ni wedi'i nodi yn ein hymgynghoriad, does dim enghreifftiau rhyngwladol sy'n defnyddio model seiliedig ar danysgrifio ar hyn o bryd i ariannu sefydliadau cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus.

> "Mae'n bosibl y bydd modelau tanysgrifio yn gallu cefnogi ac ategu'r cynnig gwylio am ddim, fel gwasanaeth Channel 4 ei hun sef All 4+ [...] neu'r fenter ar y cyd BritBox [...] Fodd bynnag, dylai'r rhain yn bennaf ategu'r cynnig cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus – os mai dim ond y tu ôl i waliau talu drwy danysgrifiadau y byddai'r cynnwys hwn, byddai hyn yn creu anghydbwysedd rhwng y rheini sy'n gallu talu a'r rhai sy'n methu fforddio talu i gael gafael ar gyfryngau gwasanaeth cyhoeddus."[52] **Channel 4**

## Enghreifftiau rhyngwladol

3.20 Yn ein hymgynghoriad fe wnaethom gyfeirio at nifer o ddulliau rhyngwladol o gefnogi cyllid cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus. Roedd y rhain yn cynnwys ardollau'r diwydiant a ddefnyddir yn Ffrainc a Sbaen, ardollau ar wasanaethau ffrydio yn Ffrainc a'r Almaen a disodli ffioedd trwyddedau seiliedig ar berchnogaeth teledu gydag amrywiadau o ddull gweithredu sy'n seiliedig ar dreth yn yr Almaen, Sweden, Denmarc a'r Ffindir.

3.21 Cyflwynodd ymatebwyr ragor o enghreifftiau o fecanweithiau cyllido a allai ddarparu cyd-destun a syniadau defnyddiol ar gyfer system cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus y DU. Roedd y rhain yn canolbwyntio'n bennaf ar ardollau ar chwaraewyr rhyngwladol. Roedd Cynghrair y DU dros Amrywiaeth Diwylliannol yn argymell y dylid ymestyn y Dreth Gwasanaeth Digidol yn y DU i SVoDs.[53] Roedden nhw'n cyfeirio at enghreifftiau rhyngwladol perthnasol, gan gynnwys y rhanbarth yng Ngwlad Belg lle siaredir Ffrangeg, yr Eidal, Gwlad Pwyl a Phortiwgal sydd i gyd yn mynnu neu'n ystyried mynnu cyfraniadau gan SVoDs i gronfeydd cynnwys cenedlaethol.[54] Cyfeiriodd un ymatebydd hefyd at fodel ffi aelwyd yr Almaen a'r systemau treth a ddefnyddir yn bennaf yn Sgandinafia, sydd mewn rhai gwledydd ag elfen flaengar (y Ffindir, Sweden, Norwy) yn seiliedig ar incwm personol.[55]

---

[52] Ymateb Channel 4 i'r ymgynghoriad, t.32.

[53] Mae'r dreth gwasanaeth digidol yn dreth newydd o 2% ar refeniw peiriannau chwilio, gwasanaethau cyfryngau cymdeithasol a marchnadoedd ar-lein sy'n cael gwerth o ddefnyddwyr y DU. Gweler: https://www.gov.uk/government/publications/introduction-of-the-digital-services-tax/digital-services-tax

[54] Ymateb UKCCD i'r ymgynghoriad, p.1. Mae Gwlad Belg Ffrengig yn mynnu bod cyhoeddwyr tramor yn cyfrannu at gronfa genedlaethol; mae'r Eidal yn trafod cyfraniad o 12.5% o refeniw net blynyddol gan SVoDs i gronfa genedlaethol; mae Gwlad Pwyl yn mynnu bod darparwyr ar-alw yn talu 1.5% o refeniw i Sefydliad Ffilm Gwlad Pwyl; ac mae Portiwgal yn cynnig bod llwyfannau ar-alw yn cyfrannu 1% o refeniw i gronfa genedlaethol.

[55] Ymateb yr Athro J Steemers i'r ymgynghoriad, t.4-5.

## Ffi'r drwydded y BBC

3.22 Roedd cyfran fawr o'r ymatebion i'r ymgynghoriad yn sôn am ffi'r drwydded y BBC, ac rydyn ni wedi crynhoi hynny isod i ddarparu gwybodaeth i'r Llywodraeth a'r Senedd.

3.23 Roedd dau randdeiliad yn gwrthwynebu unrhyw gyllid gan y Llywodraeth neu gyllid arall ac felly roedden nhw'n gwrthwynebu bodolaeth ffi'r drwydded a dewis arall.[56] Fodd bynnag, roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn tynnu sylw at bwysigrwydd cadw ffi'r drwydded,[57] neu'n cefnogi dull amgen o barhau â chyllid cyhoeddus cyffredinol ar gyfer y BBC.[58] Cafodd yr opsiwn hwn ei ystyried hefyd ym Mhwyllgor yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon yn Nhŷ'r Cyffredin ar Ddyfodol Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus.[59]

> "Nodwn nad yw cyllido'r BBC yn fater i'r adolygiad hwn, fodd bynnag, bydd angen rhoi ystyriaeth i unrhyw argymhellion yn ymwneud â model cyllido cynaliadwy ar gyfer darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yng nghyd-destun sgyrsiau ehangach am ddyfodol ffi'r drwydded deledu, o ystyried ei effaith ar y BBC ac S4C. Bydd unrhyw ostyngiad yn lefel y cyllid sydd ar gael drwy ffi'r drwydded i BBC Cymru Wales ac S4C yn niweidiol iawn ac yn dadsefydlogi gwasanaethau yng Nghymru."[60] **Llywodraeth Cymru**
>
> "Mae egwyddor cyffredinolrwydd, a dim cost wrth ddefnyddio, yn dal yn allweddol i ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn y DU ac i gyfryngau gwasanaeth cyhoeddus yn y dyfodol. Mae hyn yn awgrymu y bydd Ffi Trwydded y BBC yn parhau, ac nid oes unrhyw ddewis arall sy'n argyhoeddi wedi'i ganfod eto [...]."[61] **BECTU**

3.24 Roedd awgrymiadau gan ymatebwyr ar ddewisiadau eraill yn lle ffi'r drwydded yn cynnwys treth aelwyd, naill ai ar sail biliau cyfleustodau neu'r dreth gyngor.[62] Beirniadodd Clymblaid Diwygio'r Cyfryngau ffi'r drwydded am fod yn "dreth 'fflat' y telir amdani gan bron bob aelwyd beth bynnag fo'u statws economaidd" y dylid ei disodli gan ffi'r drwydded ddigidol sy'n gyffredinol ond sy'n cydnabod y gallu i dalu.[63]

---

[56] Ymateb Isherwood, J i'r ymgynghoriad, t.1; Ymateb News Media Association i'r ymgynghoriad, t.2 – awgrymodd yr NMA, yn lle ffi'r drwydded, y gallai arian yn hytrach gael ei sianelu i gronfa a allai ariannu gohebwyr er budd cyhoeddus, yn cael eu cyflogi gan gyhoeddwyr lleol ac eraill.
[57] Ymateb y BBC i'r ymgynghoriad, t.3-4; Ymateb BECTU i'r ymgynghoriad, t.2; Ymateb S4C i'r ymgynghoriad, t.9; Ymateb Screen Scotland i'r ymgynghoriad, t.5; Ymateb Llywodraeth Cymru i'r ymgynghoriad, t.5-6; Ymateb Create Central i'r ymgynghoriad, t.3; Ymateb Arqiva i'r ymgynghoriad, t.4; Ymateb Undeb Cenedlaethol y Newyddiadurwyr (NUJ) i'r ymgynghoriad, t.3; Ymateb y Guardian i'r ymgynghoriad, t.2
[58] Ymateb NUJ i'r ymgynghoriad, t.3; Ymateb Pwyllgor Cynghori Ofcom ar gyfer yr Alban i'r ymgynghoriad, t.10; Ymateb tîm DCMS y Democratiaid Rhyddfrydol i'r ymgynghoriad, t.2-3; Ymateb yr Athro P Barwise i'r ymgynghoriad, t.2.
[59] Adroddiad Pwyllgor DCMS Ty'r Cyffredin ar Ddyfodol Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus, t.40-55
[60] Ymateb Llywodraeth Cymru i'r ymgynghoriad, t.2.
[61] Ymateb BECTU i'r ymgynghoriad, t.2.
[62] Ymateb yr NUJ i'r ymgynghoriad, t.3, Ymateb Pwyllgor Cynghori Ofcom ar gyfer yr Alban i'r ymgynghoriad, t.10, Ymateb yr Athro P Barwise i'r ymgynghoriad, t.2, Ymateb Iosifidis, P a Klontzas, M i'r ymgynghoriad, t.1.
[63] Ymateb Cynghrair Diwygio'r Cyfryngau i'r ymgynghoriad, t.4.

3.25 Roedd cyfran fawr o'r ymatebwyr, boed o blaid ffi'r drwydded neu fodel cyllido amgen, yn gwrthwynebu 'brigdorri' ffi'r drwydded y BBC gyda chefnogaeth gref i ddod o hyd i gyllid o ffynonellau eraill os oes angen i gefnogi mentrau cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus.[64]

3.26 Awgrymodd rhai ymatebwyr fod angen adolygiad ar wahân i edrych ar ddewisiadau ariannu eraill. Roedd hyn yn cynnwys cynnig i sefydlu pwyllgor annibynnol a allai ystyried opsiynau fel ffi haenog, llwyfan-niwtral i aelwydydd, ychwanegiad at y Dreth Gyngor neu gyllid drwy drethiant cyffredinol gyda mesurau diogelu seneddol priodol.[65]

[64] Mae 'brigdorri' yn cyfeirio at ddefnyddio cyfran o ffi trwydded y BBC i ariannu mentrau eraill nad ydyn nhw'n rhan o'r BBC.
[65] Ymateb A Future for Public Service Television: Content and Platforms in a Digital World i'r ymgynghoriad, t.3.

# 4. Amcanion ar gyfer cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus


**Yn yr adran hon, rydyn ni'n:**

- Cynnig set wedi'i moderneiddio o amcanion craidd i'r system cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus eu cyflawni yn y dyfodol.
- Esbonio sut gellid diweddaru deddfwriaeth i sicrhau'r amcanion hyn.
- Ystyried pwysigrwydd hanfodol system cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus iach sy'n cefnogi economi greadigol ffyniannus ar draws gwledydd a rhanbarthau'r DU.

4.1 Yn ein hymgynghoriad, roedden ni wedi egluro bod ein hymchwil a'n dadansoddiad yn dangos bod achos clir o hyd dros system sy'n darparu manteision darlledu gwasanaeth cyhoeddus. Fe ddywedon ni fod darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn dal i chwarae rhan hollbwysig yn y gwaith o sicrhau mathau o raglenni sy'n bwysig i gymdeithas, gan greu profiadau sy'n cael eu rhannu, adlewyrchu amrywiaeth y DU a chefnogi'r economi greadigol. Fe wnaethom hefyd dynnu sylw at rôl rheoleiddio o ran sicrhau bod y cynnwys hwn yn dal ar gael i bawb, gan sicrhau nad oes unrhyw gynulleidfaoedd yn cael eu gadael ar ôl oherwydd cyflymder y newid technolegol.

4.2 O ystyried yr amrywiaeth o ddewis sydd bellach ar gael i gynulleidfaoedd, rydyn ni'n nodi beth y mae'n rhaid i gyfryngau gwasanaeth cyhoeddus ei ddarparu:

**Ffigur 3: Prif elfennau'r system cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus**




4.3 Roedd ymatebwyr i'n hymgynghoriad yn cytuno bod angen amlwg o hyd am ymyriad i sicrhau cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus. Roedd rhai rhanddeiliaid o'r farn ei bod yn bwysig diffinio cwmpas a manteision system cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus yn gliriach.

Er mwyn datblygu set o amcanion cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus craidd, rydyn ni wedi ystyried pa gynnwys sy'n angenrheidiol i gefnogi cymdeithas wybodus sy'n gweithio'n dda.

## Cynnwys â gwerth cymdeithasol uchel

### Rhaglenni newyddion a materion cyfoes cenedlaethol a rhanbarthol

4.4 Mae ein hymchwil yn dangos yn gyson mai newyddion dibynadwy a chywir o ansawdd uchel yw un o'r agweddau pwysicaf ar ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus ar lefel bersonol a chymdeithasol.[66] Roedd darparwyr cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus yn cael eu hystyried yn arbennig o bwysig ar gyfer darparu newyddion rhanbarthol pwrpasol[67], rhywbeth y byddai'r farchnad yn annhebygol o'i gynhyrchu, pwynt a wnaed hefyd gan nifer o randdeiliaid.[68] Er bod ffynonellau eraill ar gael ar gyfer newyddion lleol (e.e. radio lleol, papurau newydd lleol, teledu lleol ac ar-lein), dywedodd cynulleidfaoedd eu bod yn parhau i roi gwerth uchel ar newyddion rhanbarthol a ddarperir gan y darparwyr cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus presennol.[69]

> "Rhaid i unrhyw fframwaith yn y dyfodol gydnabod pwysigrwydd newyddion rhanbarthol a dangos gwelliannau parhaus yn y sylw a roddir i faterion gwleidyddol datganoledig yng Nghymru a sylw digonol i faterion a digwyddiadau Cymreig." [70] **Llywodraeth Cymru**
>
> "Rwy'n teimlo ei bod yn bwysig gwylio ac archwilio cynnwys gwreiddiol o ystyried sefyllfa'r cyfyngiadau symud yn Aberdeen a phethau eraill sy'n digwydd. Mae'n ddefnyddiol gallu cael gafael ar newyddion rhanbarthol mor hawdd ar BBC One ac STV." [71] **Menyw, 22-24, Aberdeen**

4.5 Ategwyd hyn gan randdeiliaid a bwysleisiodd ei bod yn bwysig bod y system bresennol yn darparu newyddion a materion cyfoes diduedd y gellir ymddiried ynddyn nhw.[72]

---

[66] Er enghraifft: Ofcom, 2020. Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus: canfyddiadau arolwg omnibws, t.1[67] Adroddiad Jigsaw Research ar gyfer Ofcom, 2020. Effaith cyfyngiadau symud ar berthynas cynulleidfaoedd â darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus, t.7.

[67] Adroddiad Jigsaw Research ar gyfer Ofcom, 2020. Effaith cyfyngiadau symud ar berthynas cynulleidfaoedd â darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus, t.7.

[68] Ymateb Pwyllgor Cynghori Ofcom ar gyfer yr Alban i'r ymgynghoriad, t.2; Pwyllgor Cynghori Ofcom ar gyfer Gogledd Iwerddon, t.7-8; Ymateb Llywodraeth Cymru i'r ymgynghoriad, t.3.

[69] Yn ei ymateb, a gyflwynwyd yn gyfrinachol, dywedodd Rhwydwaith Teledu Lleol fod gwasanaethau teledu lleol yn sianeli gwasanaeth cyhoeddus dynodedig, a'i bod yn ofynnol iddyn nhw gyflawni rhwymedigaethau cynnwys lleol sylfaenol. Rydyn ni'n ystyried cyfraniad teledu lleol at gyflawni'r amcanion darlledu gwasanaeth cyhoeddus presennol fel rhan o'n hadolygiad ehangach o wasanaethau cyfryngau o dan a.264A o'r Ddeddf (edrychwch ar Adran 5 o'n hadolygiad pum mlynedd diwethaf). Mae *Sgrin Fach: Trafodaeth Fawr* yn rhan o'n hadolygiad o Ddarlledu Gwasanaeth Cyhoeddus o dan a.264 y Ddeddf sy'n ymwneud yn benodol â'r BBC, Corfforaeth Channel 4, Channel 3 a thrwyddedigion Channel 5 ac S4C (edrychwch ar a.264(12)). Felly, rydyn ni'n canolbwyntio ar y fframwaith rheoleiddio ar gyfer y darparwyr hyn yn y dyfodol.

[70] Ymateb Llywodraeth Cymru i'r ymgynghoriad, t.3.

[71] Adroddiad Jigsaw Research ar gyfer Ofcom, 2020. Effaith cyfyngiadau symud ar berthynas cynulleidfaoedd â darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus, t.7.

[72] Ymateb y BBC i'r ymgynghoriad t.2; Ymateb F. Balfour i'r ymgynghoriad, t.1. Ymateb TUC Yorkshire & Humber Creative Leisure Industries Committee i'r ymgynghoriad, t.1

> "all democratiaeth sy'n gweithio ddim bodoli heb gyfryngau lluosog, bywiog y gellir ymddiried ynddyn nhw" a dylai darparwyr cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus "ddarparu'r sylfaen ar gyfer hyn."[73] **Undeb Cenedlaethol y Newyddiadurwyr (NUJ)**

4.6 Ystyriwyd ei bod yn arbennig o bwysig mynd i'r afael â chamwybodaeth o ystyried pa mor gyffredin yw'r wybodaeth ffug neu gamarweiniol sydd ar gael ar-lein.[74]

> "Heb fframwaith rheoleiddio clir i sicrhau bod newyddion cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus yn cael ei ddarparu a'i weld mewn amgylchedd digidol, bydd camwybodaeth a gwybodaeth gamarweiniol yn parhau i ffynnu, tra bydd newyddion sy'n cael ei reoleiddio, sy'n gywir ac wedi'i gynhyrchu'n broffesiynol yn dod yn anoddach ac yn anoddach dod o hyd iddo."[75] **ITN**

4.7 Mae darparu newyddion bob amser wedi bod yn rhan greiddiol o ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus ac mae gan ddarparwyr presennol ofynion i gynhyrchu rhaglenni newyddion a materion cyfoes.[76] Hefyd, mae'n rhaid i'r BBC ac ITV ddarparu newyddion rhanbarthol.[77] Mae cynulleidfaoedd yn gallu cael gafael ar amrywiaeth eang o ffynonellau newyddion eraill[78] – gydag oddeutu tri o bob deg o oedolion ar-lein yn defnyddio Sky News a radio masnachol. Fodd bynnag, mae gwasanaethau darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn gyfrifol am hanner yr 20 prif ffynhonnell newyddion yn y DU (gyda bwletinau newyddion BBC One ac ITV/STV/UTV/ITV Wales yn cymryd y ddau le ar y brig yn gyson).[79]

4.8 Mae'n amlwg y bydd angen i raglenni newyddion a materion cyfoes dibynadwy, cywir a diduedd fod yn rhan ganolog o system cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus yn y dyfodol. Mae hyn yn bwysig er mwyn helpu pobl i gyfrannu at gymdeithas ddemocrataidd wybodus ac, fel y dangosodd ymchwil Ofcom, mae cynulleidfaoedd yn ei werthfawrogi'n arbennig am yr wybodaeth ddibynadwy y mae'n ei darparu.[80]

4.9 Yn ystod wythnos gyntaf pandemig Covid-19, roedd canran y bobl a ddywedodd eu bod yn ymddiried mewn gwybodaeth gan y sianeli gwasanaeth cyhoeddus dros 80%. Roedd hyn o'i gymharu â 30% o bobl a oedd yn ymddiried mewn newyddion o wefannau/apiau sefydliadau newyddion ar-lein (fel Buzzfeed, Huffington Post, Vice) a 55% a oedd yn ymddiried mewn papurau newydd wedi'u hargraffu.[81] Mae'n hollbwysig bod cynulleidfaoedd yn dal i ymddiried mewn darparwyr cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus sydd â brandiau cryf, er mwyn iddyn nhw allu chwarae rhan flaenllaw yn y gwaith o ddarparu gwybodaeth gywir i'r cyhoedd am ddigwyddiadau arwyddocaol.

---

[73] Ymateb NUJ i'r ymgynghoriad, t.2.
[74] Ymateb ITN i'r ymgynghoriad, t.9; Ymateb Pwyllgor Cynghori Ofcom ar gyfer Gogledd Iwerddon i'r ymgynghoriad, t.1.
[75] Ymateb ITN i'r ymgynghoriad, t.9.
[76] Edrychwch ar (i) a.279 y Ddeddf; (ii) para. 9, atodlen 12 y Ddeddf; a (iii) para. 4, atodlen 2 o Gytundeb y BBC.
[77] Edrychwch ar (i) para. 6, atodlen 2 o Siarter a Chytundeb y BBC a (ii) a.287 y Ddeddf.
[78] Yn ogystal â'r prif ddarparwyr cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus, mae 34 o wasanaethau teledu lleol.
[79] Ofcom, 2021. Arolwg ar gael gafael ar newyddion.
[80] Ofcom, 2019. Adolygiad o newyddion a materion cyfoes y BBC, t.11; adroddiad Jigsaw Research ar gyfer Ofcom, 2020. Archwiliad o berthynas pobl â darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus, gyda ffocws penodol ar farn pobl ifanc, t.43-44.
[81] Ofcom, 2020. Newyddion a gwybodaeth am Covid-19: ymchwil ar ddefnydd ac agweddau.

4.10 Roedd ein hymchwil hefyd yn tynnu sylw at bwysigrwydd gwybodaeth gywir i bobl am Covid-19 yn eu hardal nhw, o ystyried y cyfyngiadau amrywiol ledled y DU dros y 18 mis diwethaf. Mae darparwyr cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus wedi chwarae rhan hollbwysig yn y gwaith o ddarparu newyddion teledu sy'n benodol i'r rhanbarthau dros y cyfnod hwn.[82] Rydyn ni'n credu ei bod yn hanfodol bod dewis o hyd o ddarparwyr rhaglenni newyddion rhanbarthol ar gyfer cynulleidfaoedd; dylai cystadleuaeth hefyd helpu i hybu ansawdd ac arloesedd.

## Amrywiaeth eang o raglenni difyr a llawn gwybodaeth yn y DU

4.11 Mae llawer iawn o raglenni o ansawdd uchel o'r DU yn cael eu darparu ar draws gwasanaethau gwasanaeth cyhoeddus, teledu masnachol a ffrydio. Roedd rhanddeiliaid yn cytuno â'n hasesiad, er mwyn sicrhau bod anghenion pob cynulleidfa yn cael eu diwallu, ei bod yn hanfodol bod y system cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus yn darparu amrywiaeth eang o gynnwys o ansawdd uchel yn y DU. Mae angen i'r cynnwys hwn gynnwys pob genre ac apelio at gynulleidfaoedd sydd â diddordebau amrywiol, er mwyn sicrhau ei fod yn darparu rhywbeth i bawb. Dywedodd rhanddeiliaid hefyd y dylai cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus ddysgu pobl am y byd o'u cwmpas a darparu cynnwys sy'n annhebygol o gael ei gomisiynu fel arall.[83]

> "Mae cael cylch gwaith cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus yn arbennig o bwysig er mwyn sicrhau bod cynnwys gwreiddiol sy'n cael ei wneud yn y DU yn parhau mewn rhai genres pwysig iawn, er enghraifft, rhaglenni plant, addysg, y celfyddydau a chrefydd."[84] **Teledwyr Annibynnol Cymru (TAC**)

4.12 Dywedodd nifer o randdeiliaid y dylid cael mwy o gynnwys cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus mewn genres yr oedden nhw'n eu hystyried yn arbennig o bwysig neu sy'n dibynnu'n drwm ar ddarparwyr cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus. Er enghraifft, pwysleisiodd rhai ymatebwyr bwysigrwydd diogelu cynnwys ieithoedd cynhenid,[85] dysgu ffurfiol ac anffurfiol,[86] rhaglenni am grefydd a chredoau eraill (yn enwedig bod ar gael ar wasanaethau ar wahân i'r BBC),[87] rhaglenni dogfen ymchwiliol, ffilmiau nodwedd a drama.[88] Dadleuodd Sky ei fod yn darparu llawer iawn o gynnwys gwasanaeth cyhoeddus,

---

[82] Adroddiad Jigsaw Research ar gyfer Ofcom, 2020. Effaith cyfyngiadau symud ar berthynas cynulleidfaoedd â darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus, t.7-8.
[83] Nododd y BFI bwysigrwydd y gall rhaglenni animeiddio gwreiddiol o'r DU ei chwarae yn natblygiad plant ifanc (Ymateb BFI i'r ymgynghoriad, t.9). Dadleuodd Better Media y dylai cefnogaeth y cyhoedd i gynnwys cyfryngau ganolbwyntio ar sefydliadau sydd wedi ymrwymo i flaenoriaethu budd cymdeithasol fel addysg a llythrennedd yn y cyfryngau (Ymateb Better Media i'r ymgynghoriad, t.3).
[84] Ymateb TAC i'r ymgynghoriad, t.6. (Mae TAC yn cynrychioli'r sector cynhyrchu teledu yng Nghymru.)
[85] Ymateb Llywodraeth yr Alban i'r ymgynghoriad, t.7-8; Ymateb Llywodraeth Cymru i'r ymgynghoriad, t.3-4, Ymateb MG Alba i'r ymgynghoriad, t.1-2. Awgrymodd un atebydd y dylid cynnwys darlledu mewn ieithoedd eraill ar gyfer cymunedau nad yw Saesneg yn iaith gyntaf iddynt (Ymateb Pwyllgor Cynghori Ofcom ar gyfer Lloegr i'r ymgynghoriad, t.4).
[86] Ymateb y Brifysgol Agored i'r ymgynghoriad, t.1.
[87] Ymateb Ymddiriedolaeth Premier Christian Media i'r Ymgynghoriad, t.1-2; Ymateb Ymddiriedolaeth Sandford St Martin i'r ymgynghoriad, t.2-4. Roedd Humanists UK yn dadlau y byddai'r system darlledu gwasanaeth cyhoeddus bresennol yn cael ei chryfhau pe byddai'n sicrhau bod rhaglenni'n cael eu darparu am gredoau heb fod yn rhai crefyddol yn ogystal â chrefydd, yn unol ag a.264(6)(f) y Ddeddf (Ymateb Humanists UK i'r ymgynghoriad).
[88] Ymateb UKCDD i'r ymgynghoriad, t.1.

ac mae llawer ohono ar gael am ddim i'w ddarlledu (e.e. drwy ei sianeli Sky News a Sky Arts).[89] Tynnodd y BFI sylw at rôl darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn y gwaith o gynhyrchu ffilmiau annibynnol yn y DU fel un o fanteision pwysig y system darlledu gwasanaeth cyhoeddus bresennol.[90]

4.13 Mae gan ddarparwyr cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus rôl bwysig o ran creu, comisiynu a chefnogi mathau o gynnwys yn y DU sydd naill ai ddim ar gael am ddim o gwbl mewn mannau eraill, neu ddim ond i raddau cyfyngedig. Er enghraifft, yn ein hadolygiad pum mlynedd diwethaf, a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2020, gwelsom mai prin oedd y ddarpariaeth mewn nifer o genres (gan gynnwys rhaglenni plant, y celfyddydau, addysg ffurfiol, a chrefydd y DU).[91]

> "Nid yw'r farchnad erioed wedi darparu rhaglenni plant, addysg na rhaglenni crefyddol. Ni fydd y farchnad yn cyflenwi rhaglenni penodol a wneir ar gyfer rhanbarthau'r DU."[92] **NUJ**

4.14 Dangoswyd pwysigrwydd amrywiaeth eang o gyfryngau gwasanaeth cyhoeddus i bob cynulleidfa yn ystod pandemig Covid-19. Ochr yn ochr â'r cynnwys addysgol, a ddarparwyd gan y BBC i gefnogi athrawon a rhieni i addysgu eu plant gartref,[93] cynigiodd darparwyr cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus yn gyflym amrywiaeth o raglenni a oedd yn adlewyrchu effaith y pandemig ar bobl. Roedd rhaglenni fel *Isolation Stories* ITV yn dangos sut roedd pobl yn y DU yn profi cyfyngiadau symud cenedlaethol, ac roedd yr heriau o ddydd i ddydd yn cael eu cynnwys mewn sawl drama boblogaidd (e.e. y rhan fwyaf o operâu sebon y DU a rhaglenni wedi'u comisiynu'n arbennig fel *Staged*).[94] Roedden nhw hefyd yn gallu addasu rhaglenni a fformatau – roedd *Question Time* y BBC yn cael ei recordio o bell, *The Steph Show* Channel 4 yn cael ei ffilmio o gartref y cyflwynydd a chrëwyd swigen ar gyfer *Great British Sewing Bee* y BBC – i helpu i sicrhau bod gwybodaeth ac adloniant newydd yn parhau i gael eu darparu i bob cynulleidfa.[95]

---

[89] Ymateb Sky i'r ymgynghoriad, t.4.
[90] Ymateb BFI i'r ymgynghoriad, t.10.
[91] Ofcom, 2020. Ymgynghoriad Sgrin Fach: Trafodaeth Fawr - adolygiad pum mlynedd o Ddarlledu Gwasanaeth Cyhoeddus (2014-2018) t. 21.
[92] Ymateb NUJ i'r ymgynghoriad, t.3.
[93] Er enghraifft, ymestynnodd y BBC ei raglenni Bitesize, a gosod rhai rhaglenni addysgol yn ystod yr wythnos ar CBBC a BBC Two i gefnogi teuluoedd ar incwm is nad oedd ganddyn nhw ddigon o becynnau data i gael gafael ar gynnwys.
[94] Ymateb ITV i'r ymgynghoriad, t.3.
[95] BBC, Ebrill 2020. Teledu yn ystod y cyfnod clo: Sut mae rhaglenni'n ymdopi heb gynulleidfa stiwdio; y BBC. The Great British Sewing Bee: Covid-19.

> "Ar ben hynny, mae rôl gyffredinol [y cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus yn y DU] yn dal y genedl at ei gilydd mewn ffordd nad yw'n fasnachol iawn. Cafodd hyn ei gymryd yn ganiataol yn ystod pandemig Covid-19, ond mae'n bwysig ystyried sut mae cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus y DU wedi ymateb drwy gomisiynu rhaglenni penodol nad oes ganddyn nhw werth masnachol mawr o bosibl, ond a oedd yn hanfodol i helpu'r gwledydd i ddod i delerau â'r pandemig a'r cyfyngiadau ar fywyd normal sy'n deillio o hynny."[96] **TAC**

4.15 Rydyn ni'n credu ei bod hi'n bwysig bod gan ddarparwyr cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus rwymedigaethau o hyd i ddarparu amrywiaeth eang o gynnwys difyr a llawn gwybodaeth yn y DU.

## Dod â phobl at ei gilydd i rannu profiadau

4.16 Dywedodd cynulleidfaoedd yn ein hymchwil fod rhaglenni gwasanaeth cyhoeddus yn gwneud cyfraniad pwysig at gynhwysiant a chydlyniant cymdeithasol. Roedd rhanddeiliaid hefyd wedi sôn am rôl cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus o ran cysylltu pobl o gefndiroedd gwahanol, yn ogystal â meithrin ymdeimlad o hunaniaeth a pherthyn cenedlaethol:

> "Mae [darlledu gwasanaeth cyhoeddus] nid yn unig yn dod ag unigolion at ei gilydd yn grwpiau, ond mae hefyd yn sefydlu cysylltiadau rhwng y cenedlaethau."[97] **Llais y Gwrandäwr a'r Gwyliwr**

4.17 Oherwydd eu bod yn adnabyddus ac ar gael i bawb, mae darparwyr gwasanaeth cyhoeddus yn gallu denu cynulleidfaoedd mawr gyda'u cynnwys gwreiddiol. Er enghraifft, roedd gan bennod olaf *Line of Duty* gynulleidfa o 16.4m o bobl ar gyfartaledd.[98] Mae'r gallu hwn i ddod â phobl at ei gilydd hefyd yn bwysig o ran darlledu digwyddiadau byw.[99]

4.18 Er y bydden nhw fel arfer yn cael sylw gan ddarlledwyr eraill, rydyn ni'n ystyried bod argaeledd digwyddiadau sy'n dod â'r wlad at ei gilydd ar wasanaethau cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus yn helpu i sicrhau eu bod ar gael i bob cynulleidfa. Er enghraifft, mae chwaraeon byw yn cael eu gwerthfawrogi gan lawer o bobl (ar ei anterth, gwyliodd 19.9 miliwn gêm Ewro 2020 Lloegr yn erbyn yr Alban)[100] ond mae cost uchel hawliau chwaraeon yn golygu nad yw'r digwyddiadau mwyaf poblogaidd yn debygol o fod ar gael ar wasanaethau cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus heb ymyriad rheoleiddiol.[101]

---

[96] Ymateb TAC i'r ymgynghoriad, t.6.
[97] Ymateb VLV i'r ymgynghoriad, t.8.
[98] Cyfunodd BARB wylio hyd at 28 diwrnod ar draws teledu a dyfeisiau eraill.
[99] Gwnaed y pwynt hwn hefyd gan y Pwyllgor Dethol ar Gyfathrebiadau a Digidol yn ei adroddiad yn 2019 'Public service broadcasting: as vital as ever', paragraff 93, t.28.
[100] BARB gwylio dros nos ar ddiwrnod y darllediad.
[101] Er enghraifft, yn 2019 roedd cyfanswm gwariant ar raglenni chwaraeon 25% yn uwch na 2015 (mewn termau real), gyda darparwyr cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus yn cyfrif am 11% o'r cyfanswm. Ffynhonnell: Ofcom/darlledwyr. Mae'r ffigurau'n cynnwys hawliau chwaraeon a gwariant cynhyrchu ar gyfer darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus a chwmnïau amlsianel.

4.19 Mae'r drefn digwyddiadau rhestredig wedi'i chynllunio i sicrhau bod digwyddiadau penodol o ddiddordeb cenedlaethol, a ddewisir gan y Llywodraeth, yn dal ar gael i bawb am ddim.[102] Mater i Ofcom wedyn yw asesu pa sianeli neu wasanaethau sy'n gallu dangos y digwyddiadau hyn ar y sail eu bod yn rhad ac am ddim a'u bod yn gallu cyrraedd o leiaf 95% o'r boblogaeth drwy deledu wedi'i ddarlledu neu ar-lein.[103]

> Dylai'r compact darlledu gwasanaeth cyhoeddus gynnwys "[...] rhagdybiaeth y bydd disgwyl i'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus, rhyngddyn nhw, roi sylw i'r holl ddigwyddiadau cenedlaethol pwysig o ddathlu, chwaraeon a choffau. Dylai'r drefn digwyddiadau rhestrwyd, nad oes sôn amdani, aros a dylid rhoi ystyriaeth ddifrifol i'w diweddaru."[104] **Yr Athro Steven Barnett, Prifysgol Westminster**

4.20 Dylai'r Llywodraeth ystyried a ddylid diweddaru'r meini prawf sy'n pennu pa wasanaethau ddylai gario digwyddiadau a restrwyd. Byddai'n werth asesu a ddylid newid y drefn mewn ffordd a fyddai'n cryfhau manteision cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus.

## Adlewyrchu amrywiaeth y DU

4.21 Cafodd rhaglenni sy'n adlewyrchu amrywiaeth y DU yn gywir eu nodi fel un o brif gyfraniadau darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn ein hymchwil cynulleidfa, yn enwedig ymysg gwylwyr iau.[105] Roedd y bobl y buon yn siarad â nhw'n glir bod rhaglenni'n taro mwy o dant gyda nhw os oedden nhw'n portreadu cymeriadau y gallen nhw adnabod eu bywydau. Mynegwyd balchder gan lawer hefyd o weld eu hardaloedd eu hunain yn cael eu cynrychioli ar y sgrin.[106] Roedd 65% o oedolion y DU sy'n gwylio gwasanaethau darlledu gwasanaeth cyhoeddus a gwasanaethau SVoD o'r farn bod y cyntaf yn well am "ddarparu rhaglenni sy'n adlewyrchu bywyd a gwerthoedd y DU."[107]

4.22 Tynnwyd sylw at rôl cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus o ran cefnogi diwylliant y DU drwy adlewyrchu cymdeithas yn ôl iddi hi ei hun gan nifer o ymatebwyr i'n hymgynghoriad.[108]

---

[102] A. 97-105 o Ddeddf Darlledu 1996.
[103] Ofcom, 2019. Datganiad: Digwyddiadau a Restrwyd. Nodi gwasanaethau sy'n rhad ac am ddim i'w gwylio ac ar gael yn eang. Cafodd y rhestr o wasanaethau cymwys ei diweddaru ym mis Hydref 2019.
[104] Ymateb yr Athro S Barnett i'r ymgynghoriad, t.5.
[105] Ofcom, 2020. Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus: canfyddiadau arolwg omnibws, t.6-7. Gofynnwyd i'r cyfranogwyr enwi tair o fanteision darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus a oedd, yn eu barn nhw, yn fwyaf gwerthfawr i gymdeithas yn gyffredinol.
[106] Adroddiad Jigsaw Research ar gyfer Ofcom, 2020. Archwilio perthynas pobl â darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus, gyda ffocws penodol ar farn pobl ifanc, t.40-41.
[107] Ofcom, 2020. Darlledu gwasanaeth cyhoeddus: canfyddiadau ymchwil meintiol, t.2.
[108] Ymateb Humanists UK i'r ymgynghoriad, t.1, Ymateb Llywodraeth Cymru i'r ymgynghoriad, t.1; Ymateb Pwyllgor Cynghori Ofcom ar gyfer Gogledd Iwerddon i'r Ymgynghoriad, t.2-3.

> "Rydyn ni'n credu y dylai atebolrwydd gynnwys gofyniad i gynrychioli amrywiaeth y DU mewn gweithrediadau / staffio oddi ar y sgrin yn ogystal â'u cynnwys, ac i adrodd a gyrhaeddwyd y metrigau targed ai peidio." [109] **BECTU**
>
> "Mae natur y system darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn helpu darlledwyr i adlewyrchu amrywiaeth y DU, ond dylid gwneud mwy i wella cynrychiolaeth a dilysrwydd rhaglenni i sicrhau bod cynulleidfaoedd yn yr Alban yn teimlo bod darlledwyr yn wir yn adlewyrchu eu bywydau iddyn nhw ac i eraill." [110] **Llywodraeth yr Alban**

4.23 Rydyn ni o'r farn bod yn rhaid i adlewyrchu amrywiaeth y DU gynnwys portreadu nodweddion gwarchodedig yn gywir, [111] yn ogystal â chynrychioli pobl o amrywiaeth eang o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol a chymunedau o bob rhan o'r DU. Mae'n bwysig bod yr amrywiaeth hon yn ymestyn i rolau oddi ar y sgrin (fel awduron, cyfarwyddwyr, cynhyrchwyr, criw cynhyrchu, comisiynwyr ac ati) er mwyn darparu mwy o amrywiaeth o leisiau golygyddol a chynrychiolaeth ddilys.

4.24 Er mwyn sicrhau bod yr amcan hwn yn cael ei gyflawni, bydd yn bwysig ein bod yn parhau i fonitro amrywiaeth gweithluoedd darlledwyr y DU. Ar gyfer y rhan fwyaf o ddarlledwyr, mae ein pwerau i fynnu darparu gwybodaeth o'r fath wedi'i chyfyngu ar hyn o bryd i ddata am ddynion a menywod, hil ac anabledd. Darperir data sy'n ymwneud â nodweddion gwarchodedig eraill ar sail wirfoddol.

4.25 Yn y fframwaith rheoleiddio ar gyfer cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus yn y dyfodol, rydyn ni'n credu y gellid cyflwyno rhwymedigaethau cyfle cyfartal cyfatebol ar gyfer canghennau comisiynu a chynhyrchu'r prif wasanaethau SVoD sy'n gweithredu yn y DU. [112] Byddai hyn yn rhoi darlun llawnach o gyfle cyfartal ar draws y diwydiant gan y byddai'n ategu'r data y mae Ofcom yn ei gasglu gan ddarlledwyr yn y DU a chan gwmnïau cynhyrchu gan y Rhwydwaith Amrywiaeth Creadigol.

4.26 Mae pwerau amrywiaeth presennol Ofcom mewn perthynas â gweithwyr llawrydd yn gyfyngedig. Mae gan yr adran fawr hon o'r gweithlu darlledu ran hollbwysig i'w chwarae o ran gwneud cynnwys y sector a'r cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus yn fwy amrywiol. Nid ydym yn gwybod sut bydd newidiadau i arferion a lleoliadau sy'n deillio o bandemig Covid-19 a newidiadau ehangach yn y diwydiant yn effeithio arnyn nhw. Bydd yn bwysig bod deddfwriaeth yn y dyfodol yn sefydlu fframwaith rheoleiddio a fydd yn caniatáu i Ofcom ymateb i newidiadau.

---

[109] Ymateb BECTU i'r ymgynghoriad, t.1.
[110] Ymateb Llywodraeth yr Alban i'r ymgynghoriad, t.1.
[111] Oed, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, rhyw, hil, cyfeiriadedd rhywiol, crefydd neu gred, beichiogrwydd a mamolaeth.
[112] Ofcom, 2020. Amrywiaeth a chyfle cyfartal ym maes teledu a radio 2019/2020, t.44.

## Cefnogi economi greadigol y DU

4.27 Mae'r sector cynhyrchu yn y DU yn ffynnu – mae'n amrywiol, yn gystadleuol ac yn llwyddiannus yn rhyngwladol. Cynyddodd gwariant ar gomisiynu o tua £2.6bn yn 2004 i rhwng £4.5bn a £5bn yn 2019.,[113] Mae sioeau a gynhyrchir yn y DU yn ennill refeniw allforio gwerthfawr (£1.48bn yn 2019-20),[114] ac yn tynnu sylw cynulleidfaoedd rhyngwladol at y DU, gyda rhaglenni a gomisiynwyd gan gyfryngau gwasanaeth cyhoeddus yn chwarae rhan flaenllaw yn y gwaith o gyflwyno'r DU mewn goleuni cadarnhaol ar draws y byd.

4.28 Mae ymyriadau polisi cyhoeddus wedi chwarae rhan bwysig yn y gwaith o ddatblygu'r sector cynhyrchu annibynnol yn y DU, gyda chreu Channel 4 fel darlledwr-gyhoeddwr yn fwyaf arwyddocaol.[115] Mae darparwyr cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus presennol yn ganolog i economi greadigol y DU. Gyda'i gilydd, nhw o hyd yw'r comisiynwyr cynnwys mwyaf yn y DU sy'n asgwrn cefn i fuddsoddiad sefydlog. Hyd at 2019, roedden nhw wedi gwario dros £2.8bn bob blwyddyn ar raglenni newydd yn y DU ar eu prif sianeli (bron i £3bn os yw sianeli portffolio yn cael eu cynnwys).[116]

4.29 Rydyn ni o'r farn y dylid cydnabod cefnogi'r economi greadigol fel un o amcanion allweddol y system cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus.[117] Roedd rhanddeiliaid yn cytuno â'r farn hon ar y cyfan ac yn credu y dylid canolbwyntio'n benodol ar hybu manteision economaidd i fusnesau ar draws gwledydd a rhanbarthau'r DU.[118]

4.30 Mae sicrhau buddsoddiad gan ddarparwyr cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus yn y sector cynhyrchu wedi arwain at fanteision economaidd sylweddol, yn enwedig ar draws gwledydd a rhanbarthau'r DU. Er enghraifft, amcangyfrifodd KPMG bod y BBC yn cynhyrchu dros £3.1bn o allbwn economaidd ar gyfer sector creadigol y DU.[119] Mae i Channel 4 symud tua 250 o'i weithlu i Leeds wedi bod yn gatalydd ar gyfer clwstwr o sefydliadau teledu, ffilm a chreadigol yn yr ardal gyfagos[120] ac amcangyfrifir ei fod yn rhoi hwb o £1bn i'r economi leol.[121] Mae ychydig dros 50% o weithwyr y BBC, a bron i hanner gweithwyr ITV Group, wedi'u lleoli y tu allan i Lundain.[122]

4.31 Mae'r gwerth y gall buddsoddiad cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus ei roi i ardal yn cael ei ddangos gan yr effaith y mae Uned Hanes Naturiol y BBC wedi'i chael ar yr economi greadigol ym Mryste. Mae ymrwymiad y BBC i'r ddinas wedi denu cyflenwyr arbenigol sy'n

---

[113] Ofcom, 2020. Ymgynghoriad Sgrin Fach: Trafodaeth Fawr – Atodiad 7, paragraff A2.7.
[114] 3Vision, 2020. Pact: UK TV Export Report 2019-20, sleid 3.
[115] Ni chaniateir i C4C fod yn gysylltiedig â gwneud rhaglenni sy'n cael eu darlledu ar Channel 4. Edrychwch ar a.295 y Ddeddf.
[116] Ofcom/darlledwyr.
[117] Er bod y BBC a C4C yn rhwym wrth ddyletswyddau lefel uchel sy'n ymwneud â'r diwydiant creadigol (edrychwch ar a.198A(4)(a) y Ddeddf [C4C] ac erthygl 6(4) Siarter a Chytundeb y BBC), nid yw dibenion Darparwyr Gwasanaeth Cyhoeddus yn a.264(4) y Ddeddf yn cyfeirio'n uniongyrchol at gefnogi'r diwydiant creadigol.
[118] Ymateb ITV i'r ymgynghoriad, t.3; Ymateb VLV i'r ymgynghoriad, t.8; Ymateb Pwyllgor Cynghori Ofcom ar gyfer Cymru i'r ymgynghoriad, t.14; Pwyllgor Cynghori Ofcom ar gyfer Gogledd Iwerddon, t.3; Ymateb y BBC i'r ymgynghoriad, t.8.
[119] KPMG, 2021. Asesiad o Effaith Economaidd y BBC – Adroddiad i'r BBC ar gyfer y Flwyddyn Ariannol 2019/20, t.21.
[120] Ymateb Channel 4 i'r ymgynghoriad, t.15.
[121] BBC News, 29 Mawrth 2019. Leeds yn disgwyl cael hwb economaidd gwerth £1bn wrth i Channel 4 symud.
[122] BBC, 2021. Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Grŵp y BBC 2020/21, t.30; Ymateb ITV i'r ymgynghoriad, t.3.

amrywio o arbenigwyr ffilmio tanddwr i gyfansoddwyr ffilmiau nodwedd.[123] Mae clwstwr o gynhyrchwyr hanes naturiol annibynnol fel Plimsoll Productions, Silverback a Humble Bee Films – i gyd wedi'u sefydlu gan gyn staff y BBC – wedi tyfu o'i amgylch.[124]

4.32 Mae darparwyr cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus eisoes yn gwario mwy o'u cyllidebau cynnwys yng ngwledydd a rhanbarthau'r DU. Yn 2019, roedd bron i hanner (48%) cyfanswm gwariant ar gynnwys cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus y tu allan i Lundain, i fyny o 38% yn 2010.[125] Mae Pact wedi amcangyfrif bod darparwyr cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus yn cynrychioli 61% (tua £600m) o'r prif refeniw comisiynu ar gyfer cynhyrchwyr annibynnol yn y gwledydd a'r rhanbarthau.[126] Er enghraifft, mae partneriaeth y BBC â Northern Ireland Screen, sydd bellach yn ei seithfed flwyddyn, wedi arwain at lawer o lwyddiannau, gan gynnwys y gyfres ddiweddar o *Line of Duty.* Rhwng yr adnewyddiad diwethaf o'r bartneriaeth ym mis Mawrth 2017 a mis Mawrth 2021, buddsoddodd y BBC £70 miliwn mewn cynhyrchu rhwydwaith o Ogledd Iwerddon, fel rhan o'r bartneriaeth, ochr yn ochr ag ychydig dan £10 miliwn o Northern Ireland Screen, gan arwain at £55 miliwn ychwanegol o gyllid trydydd parti.[127]

## Cynnwys sydd ar gael yn gyffredinol

4.33 Roedd llawer o randdeiliaid yn cytuno ei bod yn bwysig bod cynulleidfaoedd yn gallu cael gafael ar gyfryngau gwasanaeth cyhoeddus yn hawdd.[128]

[123] Deloitte. 2010. Effaith Economaidd y BBC: 2008/09. t.73

[124] Dechreuodd sylfaenydd Plimsoll, Grant Mansfield, ei yrfa yn y BBC (Plimsoll). Cafodd Silverback ei sefydlu gan Alastair Fothergill, Keith Scholey, Jane Hamlin, a Huw Cordey, pob un ohonyn nhw wedi cael profiad blaenorol yn Uned Hanes Naturiol y BBC (Silverback). Mae gan y Tîm yn Humble Bee Films hefyd hanes o weithio gydag Uned Hanes Naturiol y BBC (Humble Bee Films).

[125] Ofcom/darlledwyr.

[126] Adroddiad Oliver & Ohlbaum ar gyfer Pact, 2020. Arolwg Cynhyrchu Teledu'r DU: Cyfrifiad Ariannol 2020 – Atodiad Gwledydd a Rhanbarthau, sleid 7.

[127] BBC MediaCentre, 24 Mehefin 2021. BBC a Northern Ireland Screen yn adnewyddu cytundeb partneriaeth. Yn y cynllun BBC ar draws y DU , mae'r BBC wedi ymrwymo i adnewyddu ei bartneriaethau gyda Northern Ireland Screen a Creative Scotland, lansio partneriaeth newydd gyda Cymru Greadigol a chreu partneriaethau newydd ar lefel leol yn Lloegr (yn enwedig yng Ngogledd a Chanolbarth Lloegr).

[128] Ymateb VLV i'r ymgynghoriad, t.4, Ymateb Screen Scotland i'r ymgynghoriad, t.2; Pwyllgor Cynghori Ofcom ar gyfer Cymru, t.14; Ymateb Create Central i'r ymgynghoriad, t.2. Ymateb RNID i'r ymgynghoriad, t.1; Ymateb Panel Defnyddwyr Gwasanaethau Cyfathrebu i'r ymgynghoriad, t.3; Ymateb yr Athro S.Harvey i'r ymgynghoriad, t.21

> "Mae mynediad i bawb yn hanfodol os yw manteision darlledu gwasanaeth cyhoeddus am gael eu cynnal."[129] **Llais y Gwrandäwr a'r Gwyliwr**
>
> "Dylai [y fframwaith] [...] sicrhau bod y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn parhau i fod ar gael yn gyffredinol, yn rhad ac am ddim, mewn ffyrdd sy'n hwylus i wylwyr, hyd yn oed wrth i'r gwasanaethau sy'n cael eu defnyddio i gyflawni amcanion gwasanaeth cyhoeddus gael eu hehangu."[130] **Sky**

4.34 Fel sy'n cael ei drafod yn **Adran 6**, rydyn ni'n credu bod yn rhaid i'r ddarpariaeth cynnwys cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus ar-lein ddod yn elfen allweddol o'r system cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus. Fodd bynnag, bydd yn parhau i fod yn hanfodol bod grwpiau agored i niwed, yn ogystal â'r rheini nad oes ganddyn nhw fynediad i'r rhyngrwyd, yn gallu parhau i fwynhau amrywiaeth eang o raglenni drwy wasanaethau teledu sy'n cael eu darlledu. Dywedodd y cynulleidfaoedd sy'n dibynnu fwyaf ar hyn wrthym ei fod yn rhan hanfodol o'u bywydau, cyn bwysiced o ran darparu teimlad o gwmnïaeth ag y mae am yr wybodaeth sy'n cael ei chynnig.[131]

4.35 Rhaid i bob cynulleidfa allu cael mynediad at gynnwys cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus. Mae pob sianel deledu sy'n cael ei darlledu yn rhwym wrth ofynion hygyrchedd i sicrhau bod pobl anabl – yn enwedig y rheini sydd â nam ar eu golwg a'u clyw – yn gallu gwylio rhaglenni cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus.[132] Fodd bynnag, nid oes gofynion tebyg ar gyfer gwasanaethau ar-alw (gan gynnwys gwasanaethau'r cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus eu hunain ac SVoDs). Ar hyn o bryd rydyn ni'n gweithio gyda'r Llywodraeth i gyflwyno gofynion ar gyfer gwasanaethau rhaglenni ar-alw, gan gynnwys mewn perthynas ag ansawdd a defnyddioldeb gwasanaethau mynediad.[133]

---

[129] Ymateb VLV i'r ymgynghoriad, t.8.
[130] Ymateb Sky i'r ymgynghoriad t.10.
[131] Adroddiad Jigsaw Research ar gyfer Ofcom, 2020. Effaith cyfyngiadau symud ar berthynas cynulleidfaoedd â darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus, t.11.
[132] Mae darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus (ac eithrio Channel 5) yn rhwym wrth dargedau hygyrchedd uwch na darlledwyr eraill o ran cyfran y cynnwys sy'n gofyn am isdeitlo a disgrifiadau sain. Adrannau 303 a 307 y Ddeddf; atodlen 3, para. 9 ac atodlen 4, para 5(3) o Gytundeb Fframwaith y BBC. Cod Ofcom ar Wasanaethau Mynediad Teledu (5 Chwefror 2021) a dogfen Ofcom sy'n dwyn y teitl Sianeli teledu y mae'n ofynnol iddynt ddarparu gwasanaethau mynediad yn 2021 (8 Gorffennaf 2020)
[133] Gweler paragraffau 3.11-3.19 ein datganiad cyntaf ar hygyrchedd gwasanaethau rhaglenni ar-alw sydd wedi cael ei ddilyn gan argymhellion pellach i'r llywodraeth Datganiad: Gwneud gwasanaethau ar-alw yn hygyrch - Ofcom.

**Argymhellion i'r Llywodraeth:**

- Dylid cynnwys set ddiwygiedig o amcanion cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus mewn deddfwriaeth i gefnogi'r broses o bontio o ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus i gyfryngau gwasanaeth cyhoeddus.

Dylai amcanion craidd y system cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus fod i ddarparu cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus sy'n:

- darparu gwerth cymdeithasol, gan gynnwys newyddion cenedlaethol a rhanbarthol dibynadwy a chywir o ansawdd uchel ac amrywiaeth eang o raglenni difyr a llawn gwybodaeth wedi'u lleoli yn y DU;
- dod â phobl at ei gilydd i rannu profiadau;
- adlewyrchu amrywiaeth y DU;
- cefnogi economi greadigol y DU, gan sicrhau manteision economaidd ar draws y gwledydd a'r rhanbarthau;
- ar gael yn gyffredinol, ac yn cael ei ddarparu ar-lein yn ogystal â drwy deledu sy'n cael ei ddarlledu.

# 5. Moderneiddio deddfwriaeth i ddarparu cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus

**Yn yr adran hon, rydyn ni'n:**

- Nodi sut dylid strwythuro fframwaith rheoleiddio newydd i gefnogi'r broses o bontio o ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus i gyfryngau gwasanaeth cyhoeddus.

## Strwythur fframwaith rheoleiddio newydd

5.1 Rydyn ni'n cynnig y dylai deddfwriaeth yn y dyfodol gyflawni'r amcanion ar gyfer cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus a nodir gennym yn **Adran 4**. Mae'r amcanion hyn, sydd â'r bwriad o ddisgrifio'r hyn y dylai'r system cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus drwyddi draw anelu at ei gyflawni, yn eang. Er mwyn sicrhau bod cynulleidfaoedd yn cael gwasanaeth da, mae angen i'r amcanion hyn gael eu hategu gan fframwaith rheoleiddio wedi'i foderneiddio sy'n dal darparwyr i gyfrif.

5.2 Mae'r fframwaith presennol yn canolbwyntio ar sianeli teledu darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus, gyda dim ond BBC iPlayer ac All 4 o blith gwasanaethau ar-alw darparwyr cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus yn cyfrannu'n uniongyrchol at ddarparu gwasanaeth cyhoeddus.[134] Mae'r drefn drwyddedu bresennol ar gyfer darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus masnachol yn nodi gofynion teledu sy'n cael ei ddarlledu yn unig. Roedd yr ymatebwyr o'r farn bod trosglwyddo i gyfryngau gwasanaeth cyhoeddus, sy'n cynnwys darparu dros sianeli teledu ac ar-lein, yn hanfodol erbyn hyn er mwyn sicrhau bod modd cyflawni'r amcanion cyffredinol.

[134] Mae gwasanaethau cyhoeddus ar-lein ac ar-alw y BBC yn y DU yn cyfrannu at gyflawni ei genhadaeth a'i ddibenion yn ôl y Siarter Frenhinol, ac mae gwasanaethau ar-lein ac ar-alw Corfforaeth Channel 4 yn cyfrannu at gyflawni ei chylch gwaith statudol ar gyfer cynnwys cyfryngau (gweler y diffiniad o "Gwasanaethau Cyhoeddus y DU" ym mhara. 2(4), pt 1, atodlen 1 o Gytundeb Fframwaith y BBC ac a. 198A(6) y Ddeddf).

> "Mae angen fframwaith newydd i gyd-fynd â strwythurau darlledu newydd a sicrhau bod darlledwyr yn gallu parhau i ddarparu ar gyfer pobl Cymru. Rydyn ni'n cytuno ag Ofcom bod yn rhaid i'r fframwaith hwn gefnogi newid effeithiol o ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus i gyfryngau gwasanaeth cyhoeddus."[135] **Llywodraeth Cymru**
>
> "Rwy'n cytuno ag Ofcom bod angen fframwaith rheoleiddio newydd ar frys i gefnogi'r gwaith o drawsnewid darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn ddigidol, i gyfrannu at ei gynaliadwyedd a'i gadernid, ac i sicrhau ei fod yn addas ar gyfer y dyfodol."[136] **Dr Maria Michalis, Prifysgol Westminster**

5.3 Fel sy'n wir heddiw, efallai y bydd y Llywodraeth yn dewis nodi mewn deddfwriaeth sut mae'n disgwyl i amcanion y cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus gael eu cyflawni.[137] Er enghraifft, er mwyn sicrhau bod amrywiaeth eang o raglenni difyr a llawn gwybodaeth yn cael eu darparu yn y DU, gallai deddfwriaeth nodi genres a ddylai gyfrannu at wneud hynny, fel rhaglenni dogfen, rhaglenni plant a chomedi gwreiddiol. Byddai wedyn yn ddyletswydd ar Ofcom i osod rhwymedigaethau priodol ar bob darparwr cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus i ddarparu'r cynnwys hwn.

5.4 Rydyn ni'n rhagweld y byddai rolau darparwyr cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus unigol yn y system, fel nawr, yn cael eu pennu gan gylchoedd gwaith unigol. Fodd bynnag, er mwyn sicrhau bod modd parhau i gyflawni amcanion yn effeithiol, credwn ei bod yn bwysig bod deddfwriaeth yn cynnwys mecanweithiau sy'n caniatáu i'r cylchoedd gwaith hynny, pwy sy'n eu cyflawni a sut cânt eu darparu gael eu haddasu dros amser.[138] Gallai'r dull hwn ganiatáu i ddarparwyr atodol gael eu cyflwyno i'r fframwaith os bydd angen. Byddai angen iddo hefyd sicrhau ei fod yn gydnaws â'r Genhadaeth a'r Dibenion Cyhoeddus sydd wedi'u nodi yn Siarter a Chytundeb y BBC.[139]

5.5 Cyfrifoldeb Ofcom wedyn fyddai gweithredu'r fframwaith deddfwriaethol, gan nodi beth ddylai darparwyr unigol ei wneud, sut dylen nhw ei wneud a sut byddan nhw'n cael eu dal yn atebol. Byddai hyn yn cynnwys gosod rhwymedigaethau penodol, darparu canllawiau, monitro cydymffurfiad, a chymryd camau gorfodi lle bo angen. Rydyn ni'n manylu mwy ar hyn yn **Adrannau 6 i 8.** Mae'n debyg y bydd angen gwneud rhagor o newidiadau i'r fframwaith rheoleiddio yn ystod y blynyddoedd i ddod wrth i gynulleidfaoedd wylio mwy a mwy o gynnwys ar-lein.

5.6 Ar hyn o bryd, mae'n rhaid i Ofcom gynnal adolygiad o'r system darlledu gwasanaeth cyhoeddus bob pum mlynedd. Rydyn ni o'r farn y bydd yr oruchwyliaeth y mae hyn yn ei

---

[135] Ymateb Llywodraeth Cymru i'r ymgynghoriad, t.1.
[136] Ymateb Michalis, Dr. M i'r ymgynghoriad, t.3.
[137] A.264(6) y Ddeddf.
[138] Mae'r Llywodraeth wedi cyhoeddi'n ddiweddar ei bwriad i ymgynghori ynghylch y posibilrwydd o breifateiddio Channel 4. Efallai y bydd angen adlewyrchu unrhyw newid yn rôl Channel 4 yn ei gylch gwaith deddfwriaethol a nodir ar hyn o bryd yn a.265(3) y Ddeddf Cyfathrebiadau.
[139] Ar gyfer y BBC, byddem yn disgwyl y byddai ei genhadaeth a'i ddibenion cyhoeddus, fel y maen nhw ar hyn o bryd, yn parhau i gael eu nodi yn y Siarter a'r Cytundeb. Edrychwch ar A5.14-A5-22 Atodiad 5 y Fframwaith Rheoleiddio Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus.Byddai angen i'r Llywodraeth hefyd edrych ar sut byddai'r newidiadau a gynigir yn y datganiad hwn yn effeithio ar agweddau eraill y Siarter a'r Cytundeb

darparu yn parhau i fod yn angenrheidiol wrth i ddeddfwriaeth newydd gefnogi'r broses o drosglwyddo i system cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus wedi'i diweddaru. Rydyn ni'n trafod hyn ymhellach yn **Adran 8**.

5.7 Mae gan ein hargymhellion yn y maes hwn hefyd oblygiadau i'n gwaith ar safonau a diogelu cynulleidfaoedd. Ar hyn o bryd, mae'n rhaid i wasanaethau teledu a radio sy'n cael eu darlledu gydymffurfio â'r Cod Darlledu.[140] Mae'r Cod hefyd yn berthnasol i BBC iPlayer ond fel arall mae'r rheolau ar gyfer gwasanaethau ar-alw eraill yn llai cynhwysfawr na'r rheini yn y Cod Darlledu ac maen nhw'n canolbwyntio'n bennaf ar ddiogelu plant rhag cynnwys a allai fod yn niweidiol neu'n anaddas.[141] Yn ddiweddar, fe wnaeth y Llywodraeth gyhoeddi y bydd yn ymgynghori yn yr haf ar reoleiddio gwasanaethau ar-alw, gan gynnwys a ddylen nhw gael eu rheoleiddio yn y DU i'r un lefel â theledu sy'n cael ei ddarlledu.

### Argymhellion i'r Llywodraeth

- Dylai fframwaith deddfwriaethol newydd sicrhau bod system cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus newydd yn cwmpasu teledu ar-lein yn ogystal â theledu sy'n cael ei ddarlledu.
- Dylai'r ddeddfwriaeth hon fynnu bod Ofcom yn gosod rhwymedigaethau i sicrhau amcanion cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus. Bydd angen diweddaru'r rhwymedigaethau hyn yn unol â newidiadau i'r gynulleidfa a'r sector.

[140] A.319, a.320 ac a.325(1) y Ddeddf [C3,C4,C5]; para 12, atodlen 12 y Ddeddf [S4C]; para. 3, atodlen 3 o Fframwaith y BBC.
[141] A.368E y Ddeddf.

# 6. Sicrhau bod cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus ar gael yn eang ac yn amlwg

**Yn yr adran hon, rydyn ni'n:**

- Nodi'r angen brys am ddeddfwriaeth wedi'i diweddaru i sicrhau bod cynnwys cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus ar gael yn eang ac yn amlwg i gynulleidfaoedd ar deledu sy'n cael ei ddarlledu ac ar-lein.
- Trafod sut gallai canllawiau a rheoliadau wedi'u diweddaru helpu i fynd i'r afael â'r risgiau o ddarparwyr cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus a llwyfannau teledu yn methu â chytuno ar delerau, a allai arwain at gynulleidfaoedd yn colli mynediad at wasanaethau cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus.
- Amlinellu sut mae ein cynigion yn cyd-fynd â datblygiadau ehangach o ran rheoleiddio marchnadoedd digidol ac ar-lein.

**Termau allweddol yn yr adran hon**

- **Argaeledd** yn golygu bod gan gynulleidfaoedd fynediad at gynnwys cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus am ddim yn y pwynt darparu drwy lwyfan teledu sy'n cael ei ddefnyddio'n gyffredin, fel y rheini sy'n cael eu cynnig gan Freeview, Sky neu Amazon Fire.
- **Amlygrwydd** yn golygu rhoi safle breintiedig i gynnwys cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus mewn cyfeirydd teledu a/neu o fewn rhyngwyneb defnyddiwr llwyfan teledu sydd wedi'i gysylltu, fel ei bod yn arbennig o hawdd i gynulleidfaoedd ddod o hyd iddo a'i wylio.

6.1 Yn 2019 fe wnaethom argymhellion ynghylch amlygrwydd i'r Llywodraeth. Mae'r adran hon a'r Atodiad 1 cysylltiedig yn adeiladu ar hyn i gynnig rheolau newydd i sicrhau bod cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus ar gael ac yn amlwg ar amrywiaeth eang o lwyfannau teledu poblogaidd.

## Mae'r trafodaethau rhwng darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus a llwyfannau teledu yn gymhleth

6.2 Ar hyn o bryd, mae rheoleiddio'n gwarantu bod sianeli teledu gwasanaeth cyhoeddus ar gael yn eang a'u bod yn cael amlygrwydd priodol mewn cyfeiryddion teledu.[142] Nid oes rheolau i sicrhau argaeledd ac amlygrwydd cynnwys cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus ar-lein.

6.3 Mae'n rhaid i'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus negodi gyda llwyfannau teledu i ddosbarthu eu cynnwys ar-alw. Mae'r llwyfannau hyn yn cynnwys gweithredwyr teledu drwy dalu fel Sky a llwyfannau mynediad am ddim fel YouView, gwneuthurwyr teledu fel

[142] Yn y cyd-destun hwn, mae 'cyfeiryddion teledu' yn Gyfeiryddion Rhaglenni Electronig (EPGs). Mae crynodeb o'r rheolau argaeledd ac amlygrwydd presennol a sut maen nhw'n berthnasol i Gyfeiryddion Rhaglenni Electronig ar gael yn Atodiad 5.

Samsung a Panasonic, yn ogystal â darparwyr llwyfannau teledu byd-eang fel Amazon a Google sydd bellach yn cael eu defnyddio'n eang yn y DU (drwy ddyfeisiau fel Amazon Fire TVs neu ffyn ffrydio fel Google Chromecast).

6.4 Gall darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus a llwyfannau teledu ddod ar draws amrywiaeth o faterion mewn trafodaethau, er bod rhanddeiliaid wedi dweud wrthym mai amlygrwydd yn aml yw'r un mwyaf dadleuol.

> "[...] ym mhrofiad Channel 4, mae eisoes yn wir bod rhai gwneuthurwyr setiau teledu clyfar, blychau pen-set a ffyn ffrydio yn barod i gerdded i ffwrdd o fargeinion yn hytrach na rhoi amlygrwydd i Channel 4."[143] **Channel 4**
>
> "Mae hefyd yn bwysig bod [...] cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus yn gallu cadw a chael mynediad at ein data cynulleidfa ar lefel ddigon manwl. Heb hyn, ni allwn wella ein perfformiad a deall ein cynulleidfaoedd, a rhannu arferion gorau a gwybodaeth ymysg darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus. [...] Bydd mynediad at ddata yn hollbwysig yn y dyfodol i ddiogelu'r ecosystem darlledu gwasanaeth cyhoeddus (neu gyfryngau gwasanaeth cyhoeddus).[144] **BBC**

6.5 Mae materion eraill yn y trafodaethau yn cynnwys sut mae cynnwys yn cael ei briodoli i ddarlledwyr, er mwyn i gynulleidfaoedd wybod pwy sydd wedi gwneud y rhaglenni; a mynediad darlledwyr at ddata cynulleidfaoedd, sy'n eu helpu i ddeall pwy a sut mae pobl yn gwylio eu cynnwys. Yn achos gwasanaethau ar-alw darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus masnachol, gall pwy sy'n cadw rheolaeth dros hysbysebion – gan gynnwys y gallu i osgoi neu bersonoli hysbysebion – hefyd fod yn ddadleuol.

6.6 Yn eu hymatebion i'r ymgynghoriad, dadleuodd y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus eu bod yn ei chael yn fwyfwy anodd negodi telerau allweddol. Roedden nhw'n dweud mai'r rheswm am hyn yn rhannol oedd y gystadleuaeth gynyddol gan wasanaethau ffrydio fel Disney+, sydd, o ganlyniad i'w cyrhaeddiad a'u graddfa fyd-eang, yn gallu trafod amlygrwydd ar lwyfannau byd-eang.[145]

> "Heb ymyriad rheoleiddiol, mae risg sylweddol y bydd cynnwys gwerth cyhoeddus yn anoddach i gynulleidfaoedd ddod o hyd iddo, nid oherwydd nad yw'r gwasanaethau darlledu gwasanaeth cyhoeddus hynny'n cael eu gwerthfawrogi ac yn boblogaidd ond dim ond oherwydd bod chwaraewyr byd-eang yn gallu prynu amlygrwydd ar lwyfannau sydd ddim yn cael eu rheoleiddio ar hyn o bryd."[146] **ViacomCBS**

6.7 Yn y cyfamser, dywedodd gwneuthurwyr a darparwyr llwyfannau wrthym fod gan y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus sefyllfa negodi gref oherwydd bod cynulleidfaoedd yn

---

[143] Ymateb Channel 4 i'r ymgynghoriad, t.25.
[144] Ymateb y BBC i'r ymgynghoriad, t.15.
[145] Ymateb y BBC i'r ymgynghoriad, t.19; Ymateb Channel 4 i'r ymgynghoriad, t.25; Ymateb ITV i'r ymgynghoriad, Atodiad 1, t.42-43.
[146] Ymateb ViacomCBS i'r ymgynghoriad, t.6.

disgwyl cael gafael ar gynnwys gwasanaeth cyhoeddus ar-alw. Mynegodd rhai ymatebwyr bryderon hefyd fod darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn mynnu telerau sy'n dechnegol gymhleth ac yn feichus i lwyfannau eu cyflawni.[147]

> "Mae'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn honni ei bod yn fwyfwy anodd iddyn nhw gael eu cario ar "pob llwyfan dosbarthu cynnwys mawr" ond o'n safbwynt ni rydyn ni'n credu bod yr holl rwystrau sy'n cael eu codi yn cael eu gwneud gan y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus eu hunain gyda'u Telerau ac Amodau ychwanegol a diangen eu hunain."[148] **LG**

## Mae angen rheoleiddio cymesur newydd i ddiogelu buddiannau cynulleidfaoedd

6.8 Pan fydd trafodaethau masnachol yn methu, mae perygl na fydd gwasanaethau ar-alw darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus (er enghraifft ITV Hub neu My5) ar gael ar y llwyfannau yr effeithir arnyn nhw nes ceir datrysiad masnachol. Roedd nifer o ymatebion i'n hymgynghoriad yn cytuno bod angen rhyw fath o ymyriad rheoleiddiol i warantu argaeledd cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus ar-alw ar amrywiaeth eang o lwyfannau.[149] Fodd bynnag, mynegodd ymatebwyr amrywiaeth o safbwyntiau am nodau a dyluniad unrhyw reoleiddio o'r fath.

> "Mae'n rhaid i bob llwyfan gael y rhyddid i arloesi, dylunio a datblygu'r rhyngwynebau defnyddwyr gorau a phrofiadau defnyddwyr ar gyfer eu cwsmeriaid er mwyn bodloni eu harferion a'r galw sy'n esblygu am gynnwys a gwasanaethau heb reolaeth gyfyngol."[150] **techUK**

6.9 Roedd y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn dadlau bod angen brys am reolau amlygrwydd ac argaeledd newydd.[151] Roedd y rhan fwyaf o ymatebion gan ddarparwyr llwyfannau yn cydnabod y gallai fod manteision o fynnu bod darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn cynnig eu gwasanaethau ar-alw i lwyfannau.[152] Fodd bynnag, roedd nifer yn dadlau nad oes angen rheolau sy'n mynnu'n benodol bod llwyfannau'n gwneud cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus yn amlwg.[153]

---

[147] Ymateb BT i'r ymgynghoriad, t.8; Ymateb Google a YouTube i'r ymgynghoriad, t.7.
[148] Ymateb LG i'r ymgynghoriad, t.7.
[149] Ymateb Sky i'r ymgynghoriad, t.12-13; Ymateb LG i'r ymgynghoriad, t.2-3; Ymateb STV i'r ymgynghoriad, t.21; Ymateb y BBC i'r ymgynghoriad, t.19-20; Ymateb yr Athro C Johnson i'r ymgynghoriad, t.7.
[150] Ymateb techUK i'r ymgynghoriad, t.5.
[151] Ymateb Channel 4 i'r ymgynghoriad, t.25; Ymateb y BBC i'r ymgynghoriad, t.5; Ymateb ITV i'r ymgynghoriad, t.10.
[152] Ymateb Sky i'r ymgynghoriad t.23-24; Ymateb techUK i'r ymgynghoriad t.7-8; Ymateb BT i'r ymgynghoriad t.6.
[153] Ymateb Roku i'r ymgynghoriad, t.3; ymateb techUK i'r ymgynghoriad t.2.

> "Mae *amlygrwydd* yn sgil-gynnyrch rheoleiddio penodol teledu sy'n cael ei ddarlledu'n llinol o'r 20fed ganrif nad yw'n berthnasol fawr ddim neu o gwbl yn y byd ffrydio... mae llwyfan Roku yn darparu lefel uchel o ffurfweddu, sy'n caniatáu i ddefnyddwyr newid lleoliad apiau o fewn y rhyngwyneb defnyddiwr yn rhwydd, gan olygu nad yw amlygrwydd yn fater dadleuol o gwbl mewn gwirionedd."[154] **Roku**

6.10 Roedd ymatebwyr yn cytuno'n gyffredinol y dylid dylunio unrhyw reolau newydd i leihau i'r eithaf yr effeithiau niweidiol posibl ar ryddid masnachol llwyfannau neu allu darparwyr cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus a llwyfannau i arloesi ac ymateb i ddewis defnyddwyr.[155] Rydyn ni'n cydnabod y gallai ymyriad gor-gyfarwyddol niweidio buddsoddi ac arloesi.

> "Wrth ystyried dyluniad trefn 'rhaid cynnig' yn y dyfodol ar gyfer Cynnwys Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus ar-alw, dylai fod yn flaenoriaeth i lunwyr polisi sicrhau bod cynnwys eu gwasanaeth cyhoeddus ar gael yn eang mewn ffyrdd sy'n gyfleus i wylwyr ac sy'n arwain at brofiad da i wylwyr."[156] **Sky**

## Ein hargymhellion ar gyfer rheolau argaeledd ac amlygrwydd newydd

6.11 Ein nod wrth ddatblygu argymhellion yw sicrhau bod cynulleidfaoedd y DU yn gallu parhau i gael gafael ar deledu a ddarlledir a chynnwys cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus ar-alw mewn safleoedd amlwg ar lwyfannau teledu sy'n cael eu defnyddio'n aml. Bydd hyn yn helpu i ategu cynaliadwyedd masnachol cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus. Mae hyn yn adeiladu ar ein hargymhellion ynghylch amlygrwydd cyhoeddedig; mae rhagor o fanylion am ein hamcanion a'n hargymhellion wedi'u nodi yn Atodiad 1.

### Dylai deddfwriaeth newydd nodi pa wasanaethau sydd o fewn y cwmpas

6.12 Rydyn ni'n credu y dylai'r gwasanaethau canlynol fod o fewn cwmpas y rheolau newydd i ddechrau:

f) gwasanaethau ar-alw cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus, boed ar ffurf ap neu, mewn rhai achosion, casgliad o gynnwys cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus sy'n cael ei gynnal yn uniongyrchol ar lwyfan teledu neu ar ap darparwr cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus arall (fel cynnwys S4C sy'n cael ei gynnal ar BBC iPlayer).

g) Llwyfannau teledu sy'n cael eu defnyddio gan nifer sylweddol o bobl fel eu prif ffordd o lywio o amgylch a chael gafael ar wasanaethau ar-alw gan ddarparwyr trydydd parti. Byddai hyn yn cynnwys gwasanaethau teledu drwy dalu i ddechrau, yn ogystal â setiau teledu clyfar, ffyn ffrydio a rhai consolau gemau.

---

[154] Ymateb Roku i'r ymgynghoriad, t.3.
[155] Ymateb Roku i'r ymgynghoriad, t.2-3; Ymateb Google a YouTube i'r ymgynghoriad, t.5-7; Ymateb y BBC i'r ymgynghoriad, t.20-21.
[156] Ymateb Sky i'r ymgynghoriad, t.13.

6.13 Mae'n bosibl y gallai ystod ehangach o lwyfannau neu set wahanol o ddarparwyr cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus ddod o fewn y cwmpas yn y dyfodol. Mae'n hanfodol bod deddfwriaeth newydd yn galluogi i'r drefn gael ei haddasu fel y gall barhau i gwrdd ag amcanion dros amser, yn unol â newidiadau yn ymddygiad cynulleidfaoedd a datblygiadau technolegol.

6.14 Nid ydym ni'n credu y byddai llwyfannau rhannu fideos (VSPs) fel YouTube, na gwasanaethau Fideo Ar-alw Drwy Danysgrifio (SVoD) fel Netflix, yn dod o fewn cwmpas cychwynnol y rheolau. Mae VSPs yn cael eu defnyddio'n bennaf ar gyfer cynnwys ffurf-fer sy'n cael ei greu gan ddefnyddwyr, ac nid yw mynediad darparwyr cynnwys at y llwyfan wedi'i gyfyngu. Mae gwasanaethau SVoD yn comisiynu neu'n caffael yr holl gynnwys maen nhw'n ei ddangos; nid yw'r gwasanaethau hyn yn cynnwys chwaraewyr trydydd parti, fel ITV Hub neu My5.

6.15 Nid ydym chwaith wedi ystyried mynediad at gynnwys sain gan fod ein hadolygiad yn canolbwyntio ar gynnwys teledu. Fodd bynnag, tynnodd ymatebwyr fel Audio UK sylw at bwysigrwydd materion fel amlygrwydd, mynediad at ddata cynulleidfaoedd a phriodoli cynnwys ar ddyfeisiau sy'n cael eu hysgogi gan lais.[157] Rydyn ni'n cydnabod y gall twf mewn dyfeisiau a gwasanaethau sain ar-lein, fel seinyddion clyfar, gyflwyno heriau rheoleiddio tebyg i'r rheini mewn cynnwys teledu. Byddwn yn ystyried y goblygiadau ar gyfer rheoleiddio sain pan fydd adolygiad yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon yn cael ei gyhoeddi.

## Dylai darparwyr cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus gael rhwymedigaethau 'rhaid cynnig' newydd

6.16 Rydyn ni'n cynnig y dylai deddfwriaeth sefydlu gofynion 'rhaid cynnig' ar gyfer y darparwyr cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus sy'n cael eu rheoleiddio, yn unol ag amcanion statudol. Byddai'n rhaid i bob darparwr cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus gynnig i'r llwyfannau sy'n cael eu rheoleiddio yr holl gynnwys mae'n dibynnu arno i gyflawni ei rwymedigaethau cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus.

6.17 Gall y rhwymedigaethau hyn amrywio yn ôl darparwr a gallan nhw gynnwys gofynion ar sut mae cynnwys yn cael ei gyflwyno i sicrhau bod cynulleidfaoedd yn gallu darganfod a dod o hyd i amrywiaeth o gynnwys cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus yn hawdd. Byddai argaeledd ac amlygrwydd unrhyw gynnwys neu wasanaethau ychwanegol nad ydyn nhw'n gyfryngau gwasanaeth cyhoeddus yn dal yn fater i'w negodi'n fasnachol gyda llwyfannau ac ni fyddai'n rhan o'r drefn reoleiddio newydd.

## Dylai fod gan ddarparwyr llwyfannau teledu wedi'u rheoleiddio ofynion argaeledd

6.18 Dylai'r gofynion ar ddarparwyr cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus gyfateb â'r gofynion argaeledd ar gyfer pob llwyfan sy'n cael ei reoleiddio. Byddai'n rhaid i lwyfannau sicrhau bod cynnwys y cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus ar gael yn unol â chyfres newydd o ofynion statudol. Dylai'r rhain gynnwys gofyniad i roi amlygrwydd priodol i gynnwys

[157] Ymateb AudioUK i'r ymgynghoriad, t. 4.

cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus ac i delerau fod yn gyson â darparu cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus mewn ffordd gynaliadwy.

6.19 Er mwyn bod yn effeithiol, rydyn ni hefyd yn argymell y dylai pwerau gorfodi ar gyfer Ofcom ategu'r gofynion argaeledd a 'rhaid cynnig' newydd. Byddai'r rhain yn ein galluogi i gasglu tystiolaeth ar gyfer monitro cydymffurfiad, asesu achosion o dorri amodau a chymryd camau unioni (gan gynnwys dirwyon) lle bo angen. Rydyn ni hefyd yn credu bod rôl i Ofcom o ran darparu arweiniad, a disgrifir hyn ymhellach dan ein hargymhellion ar gyfer camau datrys anghydfod isod.

## Dylai amlygrwydd fod yn rhan o'r drefn argaeledd ar-alw newydd

6.20 Gan fod amlygrwydd yn cael ei drafod ar yr un pryd â thelerau cludo eraill, rydyn ni'n credu y dylai fod yn ganolog i'r drefn argaeledd ar-alw newydd. Mae amlygrwydd yn bwysig oherwydd mae'n helpu i hyrwyddo cynnwys cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus i gynulleidfaoedd fel eu bod yn gallu dod o hyd iddo'n hawdd a chael y budd mwyaf o'i wylio. Rydyn ni hefyd yn cydnabod pwysigrwydd dewis i wylwyr, a bod cynulleidfaoedd hefyd eisiau gallu dod o hyd i gynnwys arall yn rhwydd, yn ogystal â chyfryngau gwasanaeth cyhoeddus. Rydyn ni'n credu y gall rheoleiddio bwyso a mesur y buddiannau hyn i benderfynu beth yw 'amlygrwydd priodol' ar amrywiaeth o lwyfannau, gan gynnwys unrhyw ystyriaethau cenedlaethol penodol fel amlygrwydd cynnwys ar-alw STV yn yr Alban.

## Mae sicrhau amlygrwydd ac argaeledd parhaus cynnwys teledu sy'n cael ei ddarlledu hefyd yn hanfodol

6.21 Fel yr amlinellwyd gennym yn ein hargymhellion ar amlygrwydd yn 2019, byddem yn disgwyl i lwyfannau sy'n cael eu rheoleiddio ddiogelu pa mor hawdd yw dod o hyd i deledu sy'n cael ei ddarlledu er mwyn sicrhau bod cynulleidfaoedd yn gallu parhau i ddod o hyd i hynny.

6.22 Gellid sefydlu rheolau newydd i sicrhau bod cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus ar gael ar-alw ochr yn ochr â'r rheoliadau presennol sydd wedi helpu i sicrhau bod sianeli gwasanaeth cyhoeddus teledu sy'n cael ei ddarlledu ar gael am bron i ddau ddegawd.[158] Fodd bynnag, er mwyn symleiddio rheoleiddio ac ystyried newidiadau mewn technoleg, efallai y byddai'n well sefydlu un drefn newydd sy'n cefnogi amlygrwydd ac argaeledd cynnwys cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus ar-alw a theledu a ddarlledir.

6.23 Rhoddodd yr ymatebwyr i'n hymgynghoriad safbwyntiau cymysg ar gyfer y cwestiwn hwn. Roedd y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn amlinellu y dylai trefn newydd sicrhau mynediad at eu sianeli a'u gwasanaethau ar-alw hwy ar yr holl brif lwyfannau teledu.[159]

---

[158] I gael rhagor o wybodaeth, ewch i Atodiad 5, paragraffau A5.33-A5.35.
[159] Ymateb ITV i'r ymgynghoriad, Atodiad 1, t.1-6.; edrychwch hefyd ar y ddogfen Cyflwyniad ar y Cyd Darlledwyr Gwasanaeth Cyhoeddus ar amlygrwydd, cynhwysiant a gwerth teg (a gyflwynwyd cyn yr ymgynghoriad), t.5. I gael barn wahanol, ewch i ymateb Sky i'r ymgynghoriad, t.17.

> "Mae'r [rheolau rhaid cynnig / rhaid cario] cyfredol yn darparu dull diogelu pwysig i sicrhau bod gwylwyr yn gallu cael gafael ar y prif sianeli gwasanaeth cyhoeddus am ddim ar y prif lwyfannau yn y DU ac felly dylid eu cynnal."[160] **Sky**

6.24 Byddwn yn ymgysylltu ymhellach â rhanddeiliaid a'r Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon i ddeall goblygiadau'r naill opsiwn a'r llall i sicrhau bod rheoleiddio'n parhau i gefnogi amlygrwydd ac argaeledd cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus yn effeithiol ar deledu sy'n cael ei ddarlledu a ffurfiau ar-alw.

## Dylai deddfwriaeth newydd roi pwerau gorfodi i Ofcom

6.25 Dywedodd nifer o randdeiliaid, o ystyried cymhellion gwahanol lwyfannau a darparwyr cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus, y gallai fod rôl i Ofcom ymyrryd pan nad ydyn nhw'n gallu cytuno ar delerau.[161]

6.26 Byddai canllawiau'n chwarae rhan werthfawr o ran cymell partïon i ddod i gytundebau amserol er budd cynulleidfaoedd. Gellid eu diwygio pan fo angen i sicrhau eu bod yn parhau'n effeithiol petai'r ffactorau a drafodwyd rhwng partïon yn newid dros amser. Yn ogystal â defnyddio ein canllawiau fel sail ar gyfer datrys anghydfodau, byddem hefyd yn ystyried agweddau perthnasol arnyn nhw wrth ystyried unrhyw gamau gorfodi posibl.

6.27 Byddai'r canllawiau'n gosod disgwyliadau clir ynghylch pa delerau fyddai'n cael eu hystyried yn dderbyniol fel arfer, ac yn amlinellu'r amgylchiadau lle gallai fod pryderon gennym. Er enghraifft, os oedd llwyfannau angen cyfran o hysbysebion ar-lein darparwr cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus fel amod ar gyfer cyflwyno cynnig cynnwys cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus, gallai hyn o bosibl danseilio gallu darparwr cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus i ariannu cynnwys cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus, a thrwy hynny gyflawni canlyniadau gwael ar gyfer cynulleidfaoedd. Ar y llaw arall, gallai canllawiau hefyd helpu i sicrhau nad yw telerau argaeledd cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus yn cael effaith niweidiol anghymesur ar allu llwyfannau i arloesi a bodloni disgwyliadau defnyddwyr.

6.28 Er mwyn lliniaru niwed i'r gynulleidfa wrth asesu anghydfod, rydyn ni'n argymell:

- y dylid cael terfyn amser caeth ar gyfer datrys anghydfodau; a
- dylai Ofcom allu mynnu bod unrhyw wasanaethau cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus perthnasol ar gael yn unol â chyfres o delerau dros dro nes bydd yr anghydfod wedi'i ddatrys

6.29 Rydyn ni o'r farn y byddai proses datrys anghydfod yn fwy effeithlon a chymesur na'r cynnig amgen a wnaed gan nifer o ymatebwyr, gan gynnwys Sky, LG a'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus. Roedd yr ymatebwyr hyn yn dadlau y dylai Ofcom sefydlu set safonol o delerau cytundebol, a fyddai'n berthnasol yn awtomatig petai trafodaethau masnachol yn chwalu.

---

[160] Ymateb Sky i'r ymgynghoriad, t.17.
[161] Ymateb techUK i'r ymgynghoriad, t.4; Ymateb Channel 4 i'r ymgynghoriad, t.27; Ymateb ITV i'r ymgynghoriad, Atodiad 1, t.6-7.

6.30 Ar ôl asesu'r ymatebion, rydyn ni o'r farn na fyddai telerau contract sefydlog yn adlewyrchu cymhlethdodau gwahanol drafodaethau yn ddigonol ac y gallen nhw lesteirio arloesedd, er enghraifft datblygiadau posibl yn y dyfodol yng nghyswllt rhyngwynebau defnyddwyr. Yn ogystal, rydyn ni'n ystyried bod y broses o ddiffinio 'cynnig' ar wahân ar gyfer yr holl gyfryngau gwasanaeth cyhoeddus, gan gynnwys yr oruchwyliaeth reoleiddiol angenrheidiol, yn debygol o fod yn gymhleth ac y bydd angen llawer o adnoddau.

## Mae dulliau rheoleiddio newydd o ran amlygrwydd ac argaeledd cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus yn wahanol ond yn gyson â thrafodaethau ehangach am reoleiddio ar-lein

6.31 Mae'r adolygiad hwn wedi canolbwyntio ar argymhellion ar gyfer system cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus yn y dyfodol. Roedd rhai ymatebwyr yn dadlau y dylid cael mwy o reoleiddio ar lwyfannau ar-lein byd-eang, gan fod ganddyn nhw fanteision mawr dros ddarparwyr cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus.[162] Mae'r prif dueddiadau yn y sector cyfryngau byd-eang a drafodir yn **Adran 3** hefyd yn arwain at oblygiadau o ran sut mae cystadleuaeth yn gweithredu'n fwy eang, gan gynnwys wrth chwilio a hysbysebu ar-lein.

6.32 Awgrymodd ITV y dylai unrhyw reoliad hysbysebu newydd ar fwydydd sy'n cynnwys llawer o fraster, halen a siwgr fod yr un mor berthnasol i gynnwys sy'n cael ei ddarlledu a chynnwys ar-lein.[163] Argymhellodd Channel 4[164] y dylai'r berthynas rhwng llwyfannau ar-lein a darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus fod yn un o'r materion sy'n cael sylw yn y 'cod ymddygiad' a argymhellwyd gan y Tasglu Marchnadoedd Digidol.[165] Awgrymodd y BFI y dylid cyflwyno rheoliadau sy'n ymestyn y cyfraniad at yr archif teledu genedlaethol i ddarparwyr teledu cebl ac SVoDs.[166]

> "Mae system darlledu gwasanaeth cyhoeddus y DU yn cael ei hystyried yn un o'r goreuon yn y byd, yn darparu cyflenwad lluosog o gynnwys o ansawdd uchel sy'n benodol i'r DU ac sydd ar gael i bawb. Mae'r ffaith bod y farchnad yn cael ei rhannu a bod mwy o gystadleuaeth, yn arbennig gan wasanaethau drwy fand eang (OTT), yn difetha hyn. Mae'n hanfodol nad yw'r system darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn y DU yn cael methu o ganlyniad i rymoedd yn y farchnad nad ydyn nhw'n cael eu rheoleiddio ac sy'n seiliedig ar fudd defnyddwyr a budd masnachol yn unig."[167] **Llais y Gwrandäwr a'r Gwyliwr**

[162] Ymateb yr Athro C Johnson i'r ymgynghoriad; Ymateb Dienw 1 i'r ymgynghoriad, t.2; ymateb Harvey, P i'r ymgynghoriad, t.1.
[163] Ymateb ITV i'r ymgynghoriad, t.2.
[164] Ymateb Channel 4 i'r ymgynghoriad, t.36.
[165] CMA yn rhoi cyngor i'r llywodraeth ar drefn reoleiddio newydd ar gyfer cwmnïau technoleg mawr - GOV.UK (www.gov.uk).
[166] Ymateb y BFI i'r ymgynghoriad, t.7.
[167] Ymateb VLV i'r ymgynghoriad, t.2.

> "mae angen i'r trafodaethau am reoleiddio cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus ddigwydd ochr yn ochr â dadleuon am reoleiddio llwyfannau byd-eang, ac mewn cysylltiad â nhw. Yn enwedig mewn perthynas â rheolau masnachu teg a data."[168] **Yr Athro Catherine Johnson**

6.33 Mae'r materion hyn i gyd yn berthnasol i raglen waith barhaus Ofcom, ac i bwysigrwydd cynyddol cydweithredu rheoleiddiol. Mae hyn yn chwarae rhan fwyfwy sylweddol o ran gallu ymddiried mewn technoleg ddigidol a sicrhau bod llwyfannau digidol yn cystadlu ac yn arloesi er mwyn dod â manteision i'r bobl sy'n eu defnyddio. Y llynedd, fe wnaethom sefydlu'r Fforwm Cydweithredu ar gyfer Rheoleiddio Digidol (DRCF) gyda Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth a'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd (CMA).[169] Rydyn ni hefyd yn gweithio gyda'r Llywodraeth ac Uned Marchnadoedd Digidol newydd y DU a sefydlwyd yn yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd, wrth i'r Llywodraeth ddatblygu trefn newydd o blaid cystadleuaeth ar gyfer marchnadoedd digidol.

6.34 Drwy adeiladu ar arbenigedd ein sector a gweithio'n effeithiol gyda'n gilydd, byddwn yn gallu ymateb yn well i raddfa a natur fyd-eang llwyfannau digidol mawr a pha mor gyflym maen nhw'n arloesi. Bydd hyn yn cefnogi dulliau rheoleiddio mwy cydlynol a chydlynus.

**Argymhellion i'r Llywodraeth**

Mae angen deddfwriaeth newydd i ddiweddaru rheolau i gynnwys llwyfannau digidol er mwyn:

- bod yn rhaid i ddarparwyr cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus gynnig eu gwasanaethau ar-alw i lwyfannau teledu poblogaidd;
- bod yn rhaid i lwyfannau gynnwys a rhoi amlygrwydd priodol i gynnwys cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus a negodi â darparwyr cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus;
- bod proses gorfodi a datrys anghydfod effeithiol ar waith.

---

[168] Ymateb yr Athro C Johnson i'r ymgynghoriad, t.5.
[169] Ers hynny, mae'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol hefyd wedi ymuno â'r Fforwm. Mae rhagor o fanylion am y fforwm a'i gynllun gwaith ar gael yma.

# 7. Datblygu cynnwys cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus

**Yn yr adran hon, rydyn ni'n:**

- Tynnu sylw at lwyddiant cynhyrchu yn y DU a'r rôl hollbwysig y mae darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus a'r fframwaith rheoleiddio wedi'i chwarae i sicrhau bod y sector amrywiol hwn yn parhau i ffynnu a llwyddo.
- Esbonio pam rydyn ni'n credu y dylid diwygio deddfwriaeth er mwyn i'r un gofynion fod yn berthnasol i bob cynnwys cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus, p'un a yw'n cael ei gomisiynu ar gyfer gwasanaethau ar-lein neu deledu sy'n cael ei ddarlledu.
- Archwilio'r achos dros ddiweddaru'r canllawiau comisiynu ar gyfer darparwyr cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus ac opsiynau ar gyfer newidiadau i'r cwota cynhyrchu annibynnol.

7.1 Mae'r sector cynhyrchu teledu yn y DU yn rhan amrywiol a chystadleuol o'n heconomi greadigol, yn llwyddiannus ar lefel ryngwladol ac yn adlewyrchu'r DU yn gadarnhaol ledled y byd. Mae darlledwyr a chynhyrchwyr wedi dweud wrthyn ni am y rôl hanfodol y mae darlledu gwasanaeth cyhoeddus a'r fframwaith rheoleiddio wedi'i chwarae yn llwyddiant a thwf y sector. Ein nod yw sicrhau bod y sector yn parhau i ffynnu a darparu ar gyfer cynulleidfaoedd.

7.2 Ym mis Chwefror eleni, fe wnaethom gyhoeddi cais am dystiolaeth i ddeall effeithiolrwydd parhaus rheoleiddio ar gomisiynu rhaglenni gan ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus. Yn yr adran hon rydyn ni'n nodi ein casgliadau, gan ystyried yr ymatebion a gawsom a'r trafodaethau gydag amrywiaeth eang o randdeiliaid ledled y DU y buom yn eu cyfarfod fel rhan o'r adolygiad hwn. Mae atodiad manylach am ein canfyddiadau i'w weld yn Atodiad 2.

7.3 Y tro diwethaf i ni adolygu'r berthynas rhwng darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus a'r sector cynhyrchu annibynnol yn y DU oedd yn 2015.[170] Fe wnaethom ddweud bryd hynny fod rheoleiddio wedi helpu i sicrhau sector bywiog ac agored, ond nodwyd dau faes pryder posibl. Dywedasom ei bod yn bosibl y gallai cyfuno yn y sector cynhyrchu annibynnol yn y dyfodol danseilio gallu busnesau bach a chanolig i gystadlu yn erbyn cynhyrchwyr mwy a oedd hefyd yn cael eu gwarchod gan y drefn reoleiddio. Fe wnaethom hefyd nodi risg y byddai cytundebau masnachol ynghylch defnyddio hawliau ar-alw yn dod yn fwy anodd wrth i ddarlledwyr geisio'n gynyddol i gael mynediad at yr hawliau hynny ar gyfer eu gwasanaethau eu hunain.

7.4 Yn ein cais am dystiolaeth, fe wnaethom ofyn a oedd agweddau ar y fframwaith presennol, gan gynnwys Canllawiau Ofcom i ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus ynghylch comisiynu gan gynhyrchwyr annibynnol cymwys a chwmpas cwotâu cysylltiedig, yn dal yn effeithiol.

[170] Ofcom, *Adolygiad o weithrediad y sector cynhyrchu teledu*, 2015.

7.5 Cawsom 18 o ymatebion uniongyrchol, gyda llawer o rai eraill yn codi pwyntiau yn eu hymatebion i'r ymgynghoriad. Roedd hi'n amlwg bod dau brif faes diddordeb – ein canllaw ar gomisiynu cynyrchiadau annibynnol a'r cwota cynhyrchu annibynnol.

## Canllawiau Ofcom ar Gomisiynu Cynyrchiadau Annibynnol

7.6 Mae'r Ddeddf Cyfathrebiadau yn cynnwys set o ofynion ynghylch comisiynu rhaglenni gan ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus gan gynhyrchwyr annibynnol.[171] Mae'r rhain yn cynnwys, er enghraifft, disgwyliad y bydd trefniadau comisiynu yn glir ynghylch yr hawliau y mae darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn eu prynu ac am ba gyfnod maen nhw'n gwneud hynny. Mae'n rhaid i ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus gyflwyno Codau Ymarfer i Ofcom sy'n egluro sut byddan nhw'n cydymffurfio â'r gofynion hyn. Mae Ofcom yn darparu canllawiau cyffredinol i ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus ynghylch sut mae gwneud hynny.

7.7 Bwriedir i'r Codau fod ar gael i gynhyrchwyr wrth negodi cytundebau. Yn ymarferol, mae'r prif ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn gyffredinol wedi cytuno ar set o delerau safonol (sy'n cael eu galw'n Delerau Masnach) gyda Pact, y gymdeithas fasnach fwyaf ar gyfer y sector cynhyrchu. Maen nhw wedyn wedi cyflwyno Codau diwygiedig i Ofcom sy'n adlewyrchu'r cytundebau unigol sydd wedi'u llunio â Pact.

7.8 Roedd ein cais am dystiolaeth yn gofyn, o ystyried newidiadau i arferion gwylio cynulleidfaoedd a'r datblygiadau ehangach yn y farchnad, a oedd unrhyw agweddau ar Ganllawiau Ofcom y dylem geisio eu diweddaru.

### Barn rhanddeiliaid

7.9 Roedd bron pob un o'r ymatebwyr yn cytuno bod fframwaith sy'n seiliedig ar ganllawiau, sy'n rhoi eglurder i gynhyrchwyr ynghylch yr hawliau a'r hyd dros y rhaglenni a wnaethon nhw, yn dal yn briodol. Fodd bynnag, roedd safbwyntiau gwahanol ynghylch a yw'r Canllawiau'n dal yn effeithiol, o ystyried amodau newidiol y farchnad.

7.10 Roedd Pact yn dadlau bod y rheoliadau wedi bod yn ddigon hyblyg i ganiatáu i fargeinion rhwng darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus a chynhyrchwyr annibynnol ddatblygu dros amser, gan gyfeirio at gytundebau yr oedd wedi'u gwneud gyda Channel 4 a'r BBC yn ystod y ddwy flynedd diwethaf.[172] Holodd Pact a fyddai unrhyw newid yn tarfu ar y cydbwysedd presennol yn y berthynas rhwng cynhyrchwyr a chomisiynwyr ac, ynghyd â TAC,[173] dadleuodd y gallai unrhyw newid gael effaith negyddol ar adferiad ar ôl y pandemig.[174] Roedd Screen Scotland yn credu y byddai dulliau eraill yn fwy priodol i sicrhau bod darparwyr cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus yn parhau i fod yn gystadleuol.

[171] Edrychwch ar baragraffau A5.25-A5.30 yn Fframwaith Rheoleiddio Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus - Atodiad 5.
[172] Ymateb Pact i'r cais am dystiolaeth, t.11.
[173] Mae Teledwyr Annibynnol Cymru (TAC) yn cynrychioli cynhyrchwyr annibynnol yng Nghymru.
[174] Ymateb TAC i'r cais am dystiolaeth, t.2; Ymateb Pact i'r cais am dystiolaeth, t.20

> "Mae'r Codau Ymarfer y mae darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn eu defnyddio i negodi gyda chwmnïau annibynnol yn ddigon hyblyg ac ar lefel ddigon uchel i ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus a chwmnïau annibynnol negodi addasu yn unol â phatrymau defnydd cynulleidfaoedd a newidiadau mewn technoleg."[175] **Pact**
>
> Dylai darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus ystyried y canlynol i sicrhau eu bod yn parhau'n gystadleuol: "(a) bod yn fwy ymatebol a chefnogol i'r cwmnïau hynny sy'n dyfeisio, datblygu a chreu'r cynnwys sydd ei angen arnyn nhw yn yr amserlenni/carwselau i ennill cynulleidfaoedd yn ôl; a (b) comisiynu cynnwys mewn ffordd mor ddidrafferth â phosibl – gweithio gyda chwmnïau annibynnol, bod yn ymatebol, yn gydweithredol ac yn gefnogol."[176] **Screen Scotland**

7.11 I'r gwrthwyneb, galwodd pob un o'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus am i gwmpas yr hawliau yn y prif drwyddedau a negodwyd ganddyn nhw gyda chynhyrchwyr gael ei foderneiddio, gan nodi bod disgwyliadau a dewisiadau cynulleidfaoedd wedi newid yn sylfaenol i'r sefyllfa yn 2003 pan ddaeth y ddeddfwriaeth bresennol i rym. Er enghraifft, dywedodd ITV fod y drefn bresennol wedi cael effaith artiffisial ar ei strategaeth gomisiynu, gan ei arwain i flaenoriaethu rhaglenni ar gyfer slotiau ar ei brif sianel deledu a ddarlledir pan fyddai dewisiadau amgen mwy diddorol wedi bod ar gael fel arall.[177] Yn yr un modd, roedd Channel 4 yn credu eu bod dan anfantais fasnachol o gymharu â chwaraewyr eraill yn y farchnad.

> "Yn groes i hynny, mae'r SVoDs, nad ydyn nhw'n ddarostyngedig i'r rheoliadau, yn gallu sicrhau cyfnodau trwydded llawer hwy ar gyfer cynnwys fel mater o drefn. Mae'r anghydbwysedd hwn yn amlwg iawn yn achos cyd-gynyrchiadau lle gall darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus a SVoDs ddarparu'r un lefelau o gyllid ond eu bod yn cael pecyn hawliau sy'n wahanol iawn o ganlyniad i'r fframwaith presennol."[178] **Channel 4**
>
> "Yn benodol, byddem yn argymell bod Ofcom yn diweddaru ei ganllawiau o 2007 i ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus er mwyn i'r prif hawliau a gytunir rhwng y darlledwr a'r cynhyrchydd annibynnol: adlewyrchu disgwyliadau gwylwyr yn well, gan alluogi cynulleidfaoedd i reoli'r cyfoeth o ddewis maen nhw nawr yn ei wynebu ar draws amrywiaeth enfawr o lwyfannau a darparwyr [...]."[179] **ViacomCBS**

## Ymateb Ofcom

7.12 Un o'r themâu craidd rydyn ni wedi'u harchwilio yn yr adolygiad hwn yw nad yw amserlenni teledu, ar gyfer nifer cynyddol o wylwyr, yn pennu beth maen nhw'n ei wylio mwyach, na phryd maen nhw'n gwneud hynny. Wrth i lefelau gwylio ar-lein gynyddu, mae

---

[175] Ymateb Pact i'r cais am dystiolaeth, t.11.
[176] Ymateb Screen Scotland i'r cais am dystiolaeth, t.2.
[177] Ymateb ITV i'r cais am dystiolaeth, t.4.
[178] Ymateb Channel 4 i'r ymgynghoriad, t.44.
[179] Ymateb ViacomCBS i'r cais am dystiolaeth, t.2.

chwaraewyr ar-alw y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus eu hunain yn dod yn rhan bwysicach byth o'u cynnig i gynulleidfaoedd. Yn 2020/21, gwnaeth gwylwyr 6.1 biliwn o geisiadau i ffrydio rhaglenni ar BBC iPlayer, cynnydd o 28% o un flwyddyn i'r llall.[180] Mae llawer o raglenni bellach yn denu gwylwyr sylweddol ymhell ar ôl iddyn nhw gael eu darlledu am y tro cyntaf ar deledu sy'n cael ei ddarlledu. Er enghraifft, mae cynnwys archifol gan gynnwys *The Inbetweeners, Scrubs* a *Friday Night Dinner* wedi bod yn gyfrifol am lawer o'r twf yn lefelau gwylio All 4.[181] 1.1

7.13 Rydyn ni'n cydnabod y bydd angen i ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus ddefnyddio gwahanol lwyfannau i gyrraedd pob cynulleidfa, gan gynnwys dangos rhaglenni ar-lein yn unig. Mae perygl y gallai cynnal dull darlledu sy'n canolbwyntio ar deledu arwain at lesteirio arloesedd. Rydyn ni'n argymell bod y Llywodraeth yn moderneiddio deddfwriaeth i sicrhau bod yr un gofynion yn berthnasol i holl gynnwys cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus, ni waeth a yw wedi cael ei gomisiynu ar gyfer teledu a ddarlledir neu ar-lein. Rydyn ni'n credu y byddai hyn yn helpu i sicrhau bod gofynion Cod Ymarfer cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus yn adlewyrchu disgwyliadau gwylwyr. Byddwn yn barod i ddiweddaru ein canllawiau comisiynu ar ôl i'r ddeddfwriaeth gael ei newid.

7.14 Dywedodd rhanddeiliaid wrthym ni fod yr union becynnau hawliau y mae gwahanol ddarparwyr cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus eu heisiau yn amrywio yn ôl eu strategaethau unigol. Fodd bynnag, mae hyd yr amser maen nhw'n gallu ffrydio cynnwys wedi dod yn fwyfwy pwysig. Canfu ymchwil EY duedd debyg ymysg darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus tramor, a oedd yn "pwysleisio'r pwysigrwydd... o gael yr hawliau i sicrhau bod cynnwys ar gael ar eu gwasanaethau ar-alw am gyfnod hirach mewn ymateb i ymddygiad cynyddol o 'wylio nifer o benodau un ar ôl y llall' a gwylio setiau bocs ymysg cynulleidfaoedd."[182]

7.15 Wrth i'r farchnad newid, mae angen diweddaru'r telerau contract rhwng darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus a chynhyrchwyr annibynnol i ddarparu ar gyfer cynulleidfaoedd. Er bod darlledwyr a chynhyrchwyr wedi cytuno ar newidiadau o bryd i'w gilydd, rydyn ni'n bryderus nad yw trafodaethau wedi symud yn ddigon cyflym mewn rhai achosion.

7.16 Mae'n bwysig bod cynhyrchwyr a darparwyr cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus yn dod i gytundebau amserol i sicrhau bod anghenion cynulleidfaoedd yn cael eu diwallu. Os na ellir dod i gytundeb, gall darparwyr cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus ofyn am gymeradwyaeth gan Ofcom i wneud newidiadau i'w Codau. Bydd Ofcom yn cymeradwyo newidiadau addas ac yn diweddaru ein canllawiau os bydd angen.

---

[180] BBC, 2021. Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Grŵp y BBC 2020/21, t.9.

[181] Channel 4, 2020. Adroddiad a Datganiadau Ariannol Corfforaeth Channel Four Television 2020, t.71.
[182] Adroddiad EY i Ofcom, 2020. Safbwyntiau rhyngwladol ar ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus, t.12.

## Cwota cynyrchiadau annibynnol

7.17 Bob blwyddyn, mae sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn gorfod ymrwymo i gomisiynu o leiaf 25% o'u rhaglenni cymwys o blith "amrywiaeth o gynyrchiadau annibynnol."[183]

7.18 Roedd ein cais am dystiolaeth yn gofyn a ddylem argymell newidiadau naill ai i lefel y cwota cynyrchiadau annibynnol neu i'r diffiniadau o 'raglenni cymwys' neu 'gynyrchiadau annibynnol' a nodir mewn deddfwriaeth.[184]

### Barn rhanddeiliaid am y cwota

7.19 Nid oedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr i'n hymgynghoriad, gan gynnwys Pact a'r rhan fwyaf o'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus, yn cynnig newidiadau i lefel na chwmpas y cwota cynyrchiadau annibynnol.[185]

> "Mae'r diffiniad presennol o gynhyrchiad annibynnol yn glir, yn annog buddsoddiad yn y sector ac yn mynd i'r afael ag integreiddio fertigol."[186] **Pact**
>
> "Nid ydym yn credu bod angen gwneud newidiadau i'r diffiniadau hyn i alluogi'r BBC i barhau i gefnogi talent Prydeinig a chefnogi economi greadigol amrywiol."[187] **BBC**

7.20 Fodd bynnag, fe wnaeth rhanddeiliaid eraill awgrymu gwelliannau. Cynigiodd ViacomCBS, Voice of the Listener and Viewer, Screen Scotland a'r Media Reform Coalition i gyd y dylid diwygio'r diffiniad o gynhyrchu annibynnol i ganolbwyntio ar gynhyrchwyr llai.[188]

> "Os mai prif amcan ymyriadau rheoleiddio ar y sector cynhyrchu yw rhwystro darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus rhag defnyddio'r farchnad yn erbyn cwmnïau cynhyrchu llai, yna mae angen ymyriad o'r fath."[189] **ViacomCBS**

7.21 Roedd ITN ac STV, y ddau gynhyrchydd nad ydyn nhw'n gymwys o dan y drefn bresennol, yn awgrymu y dylid diwygio'r gwahaniaeth rhwng cynhyrchwyr annibynnol cymwys a chynhyrchwyr annibynnol nad ydyn nhw'n gymwys er mwyn cael gwared ar yr anfanteision maen nhw'n eu hwynebu, o'u cymharu â chynhyrchwyr annibynnol cymwys.[190] Roedd eraill

---

[183] A. 277 y Ddeddf. Mae darpariaethau cyfatebol hefyd yn berthnasol i'r BBC ac S4C.
[184] Mae'r diffiniad 'cynhyrchwyr annibynnol' yn golygu cynhyrchwyr nad ydyn nhw'n cael eu cyflogi gan ddarlledwr; heb gyfranddaliad sy'n fwy na 25% mewn darlledwr; ac nad ydyn nhw'n gorff corfforaethol lle mae gan unrhyw ddarlledwr gyfranddaliad sy'n fwy na 25% (neu lle mae gan ddau neu ragor o ddarlledwyr gyfranddaliad cyfun sy'n fwy na 50%). Mae 'rhaglenni cymwys' yn cyfeirio at yr oriau rhaglennu hynny y gellir eu defnyddio i gyfrif tuag at gwotâu cynhyrchu. Mae diffiniad rhaglenni cymwys yn gymharol eang er mwyn cynnwys gymaint o raglenni gwreiddiol â phosibl (gan eithrio, er enghraifft, rhaglenni sy'n cael eu prynu, ailddarllediadau a newyddion). Pennir y diffiniadau hyn gan yr Ysgrifennydd Gwladol drwy orchymyn (S.I. 1408/91, fel y'i diwygiwyd yn ddiweddarach).
[185] Ymateb Channel 4 i'r ymgynghoriad, t.46.
[186] Ymateb Pact i'r cais am dystiolaeth, t.25.
[187] Ymateb y BBC i'r cais am dystiolaeth, t.5.
[188] Ymateb VLV i'r cais am dystiolaeth, t.5-6; Ymateb Screen Scotland i'r cais am dystiolaeth, t.4-5; Ymateb Media Reform Coalition i'r cais am dystiolaeth, t.6.
[189] Ymateb ViacomCBS i'r cais am dystiolaeth, t.5.
[190] Ymateb STV i'r cais am dystiolaeth, t.5; Ymateb ITN i'r cais am dystiolaeth, t.2.

yn cynnig elfen ddaearyddol i'r cwota. Er enghraifft, galwodd yr Indie Club am ddiffiniad newydd ar gyfer cynhyrchwyr annibynnol cymwys i gynnwys cwmnïau sy'n eiddo i ddarlledwyr sy'n creu swyddi yn y Gwledydd a'r Rhanbarthau.[191]

> "Mae ar y gwledydd a'r rhanbarthau angen cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus a chwmnïau cynhyrchu annibynnol mawr i fod wrth galon canolfannau cynhyrchu ledled y DU, i adeiladu canolfannau talent lleol ar gyfer gwneuthurwyr rhaglenni, creu cyfleoedd hyfforddi ac annog cwmnïau eraill i fuddsoddi. [...] dylai rhaglenni [cymwys o dan ddiffiniad newydd] fodloni tri maen prawf newydd Ofcom o ran yr hyn sy'n diffinio cynhyrchiad y tu allan i Lundain."[192] **Indie Club**

## Ymateb Ofcom

7.22 Rydyn ni'n cydnabod bod rhai gwendidau yn y gofynion presennol. Ar hyn o bryd, mae'r cwota yn berthnasol i gynhyrchwyr annibynnol bach a mawr, ac felly nid yw'n cynnig cymorth wedi'i dargedu i fusnesau bach a chanolig, gan fod cynhyrchwyr rhyngwladol hefyd yn gymwys. Hefyd, oherwydd bod cymhwysedd yn cael ei bennu gan statws 'cymwys' cynhyrchydd annibynnol, mae cydymffurfio ar gyfer darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn sensitif i newidiadau yn strwythur perchnogaeth eu cyflenwyr.

7.23 Mae ein dadansoddiad yn awgrymu y gallai fod yn bosibl cyflwyno mesurau wedi'u targedu'n well i gyflawni nodau penodol, er enghraifft, canolbwyntio cymorth ar fusnesau bach a chanolig ledled y DU i annog amrywiaeth greadigol. Fodd bynnag, rydyn ni'n credu bod risgiau y gallai newidiadau i'r diffiniad o gwota arwain at ragor o gostau cydymffurfio a monitro, neu annog osgoi cwota diwygiedig a chynyddu'r risg o chwarae gemau.

7.24 Fel arall, gellid cyflawni llawer o amcanion y cwota – fel hyrwyddo amrywiaeth ddiwylliannol, meithrin talent newydd a mynd i'r afael ag integreiddio fertigol – drwy gyflwyno mesurau fel gofynion comisiynu allanol ar ddarparwyr cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus unigol. O dan y model hwn, byddai'r gofynion yn canolbwyntio ar sicrhau eu bod yn comisiynu gan gynhyrchwyr nad oedd ganddyn nhw gysylltiad uniongyrchol â nhw. Fodd bynnag, byddai'r effeithiau posibl yn wahanol iawn ar ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus unigol, a gallai hyn effeithio fwyaf ar ITV.

7.25 Yn ein hadolygiad diwethaf yn 2015, dywedasom fod rheoleiddio wedi bod yn hollbwysig o ran cymell cynhyrchwyr bach i ymuno â'r farchnad, ysgogi talent i ddod i'r sector (gan gynnwys mewn genres mewn perygl) ac annog twf. Er nad oedd y cwota yn gofyn yn benodol am ddefnyddio cynhyrchwyr bach a chanolig eu maint, fe wnaethom ddweud bod y ffaith bod rhai o'r cwmnïau annibynnol mwyaf yn eiddo i ddarlledwyr, ac felly nad oedden nhw'n gymwys, yn helpu i gydbwyso effeithiau integreiddio fertigol.[193]

---

[191] Ymateb Campaign for Regional Broadcasting Midlands i'r cais am dystiolaeth, t.3.
[192] Ymateb Indie Club i'r cais am dystiolaeth, t.2.
[193] Yn y DU, mae adrannau 382 a 465 Deddf Cwmnïau 2006 yn diffinio BBaCh fel cwmni sydd â throsiant o ddim mwy na £25.9m, cyfanswm mantolen o ddim mwy na £12.9m, a dim mwy na 250 o weithwyr.

7.26 Ers yr adolygiad hwnnw, mae tystiolaeth yn awgrymu y bu llif cyson o newydd-ddyfodiaid i'r sector cynhyrchu annibynnol. Mae dadansoddiad Oliver ac Ohlbaum ar gyfer Pact yn awgrymu bod lefel gyffredinol y busnesau bach a chanolig sy'n ymuno â'r farchnad ac yn gadael y farchnad wedi aros yn gytbwys rhwng 2015 a 2019.[194] Mae'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus hefyd wedi parhau i weithio gyda mwy o gynhyrchwyr ac wedi comisiynu mwy o oriau o gynnwys o'r DU nag unrhyw gomisiynwyr eraill.[195] Mae Cyfrifiad blynyddol diweddaraf Pact yn amcangyfrif bod cynhyrchwyr llai (h.y. y rheini sydd â throsiant o lai na £25m) yn cyfrif am ychydig dros draean (36%) o refeniw cynhyrchwyr.

7.27 Rydyn ni'n ymwybodol bod y cwota ar ei ffurf bresennol wedi bod yn hollbwysig o ran cefnogi datblygiad tymor hir y sector cynhyrchu annibynnol. Mae ein hadolygiad yn dangos ei fod yn parhau i gadw cefnogaeth rhanddeiliaid o bob rhan o'r diwydiant. Nid oes gennym unrhyw dystiolaeth i awgrymu bod y cwota yn cael effaith niweidiol ar y sector cynhyrchu. Bydd mesurau fel y cwota yn parhau i fod yn bwysig yn y dyfodol os yw rheoleiddio i chwarae ei ran i gymell cynhyrchwyr, annog doniau creadigol i ymuno â'r diwydiant a hybu twf.

7.28 Fodd bynnag, wrth i'r farchnad barhau i ddatblygu, mae'r angen am ddull rheoleiddio sy'n gallu addasu yn debygol o gynyddu. Ar hyn o bryd, mae'r cwota cynhyrchu annibynnol wedi'i bennu mewn deddfwriaeth sy'n golygu bod angen newid deddfwriaethol er mwyn diwygio. Yn **Adran 5** , fe wnaethom egluro pam ein bod o'r farn y dylid diweddaru deddfwriaeth i ystyried pwysigrwydd cynyddol darparu cynnwys ar-lein. Yn achos y cwota, dylai hyn hefyd roi'r cyfrifoldeb i Ofcom ddiweddaru ei rwymedigaethau pan fo angen i sicrhau bod amcanion polisi, fel hyrwyddo creadigrwydd ac ysgogi twf busnesau bach a chanolig, yn parhau i gael eu cyflawni. Bydd yn bwysig darparu sicrwydd i'r farchnad, ond hefyd sicrhau nad yw rheoleiddio'n atal newidiadau sydd er budd gwylwyr.

### Argymhellion i'r Llywodraeth

Mae angen deddfwriaeth newydd i ddiweddaru'r rheolau ar gyfer cynhyrchu cynnwys cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus, er mwyn:

- i ofynion cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus ar gyfer comisiynu gan gynhyrchwyr annibynnol fod yn berthnasol i deledu a ddarlledir a gwasanaethau ar-lein;
- bod hyblygrwydd i newid y rheolau yn unol â thueddiadau'r farchnad ac amcanion polisi.

[194] Adroddiad Oliver & Ohlbaum ar gyfer Pact, 2021. Ar wahân, mae Pact wedi dweud wrthym fod ganddo 583 o aelodau ym mis Mai 2021.
[195] Ofcom. 2020. Ymgynghoriad Sgrin Fach: Trafodaeth Fawr – Atodiad 7, paragraffau A7.38-A7.39.

# 8. Darparu cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus ar gyfer cynulleidfaoedd y DU

**Yn yr adran hon, rydyn ni'n:**

- Trafod yr angen am ofynion cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus wedi'u moderneiddio sy'n galluogi darparwyr cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus i gyflawni rhwymedigaethau ar draws eu gwasanaethau ar-lein a theledu a ddarlledir.
- Nodi'r angen am ddull tryloyw o gynllunio cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus ac adrodd ar berfformiad i sicrhau bod darparwyr cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus yn cael eu dal yn atebol am gyflawni eu rhwymedigaethau.

8.1 Ym mis Rhagfyr, fe wnaethom ddweud y dylai'r gofynion diweddaraf ar gyfer cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus fod yn 'niwtral o ran gwasanaeth', gan roi rhywfaint o hyblygrwydd i ddarparwyr benderfynu sut mae cyflawni eu hamcanion cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus.[196] Roedden ni wedi dweud y byddai hyn yn helpu i sicrhau bod cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus yn dal i ganolbwyntio ar gynulleidfaoedd ni waeth pa lwyfan roedden nhw'n ei ddefnyddio i wylio rhaglenni. Fe wnaethom dynnu sylw at bwysigrwydd ategu'r dull hwn gyda fframwaith atebolrwydd a pherfformiad clir.

8.2 Yn **Adran 5** rydyn ni'n nodi sut gellid strwythuro fframwaith rheoleiddio newydd i gefnogi'r broses o bontio o ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus i gyfryngau gwasanaeth cyhoeddus. Yn yr adran hon rydyn ni'n egluro sut bydden ni'n ceisio defnyddio'r fframwaith hwnnw i sicrhau bod amcanion cynnwys yn cael eu cyflawni ar draws teledu a ddarlledir a gwasanaethau ar-lein.

## Darparu cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus ar gyfer cynulleidfaoedd ar draws gwahanol lwyfannau

8.3 Rydyn ni'n credu y dylid moderneiddio system cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus effeithiol i gyflawni'r set ddiwygiedig o amcanion craidd sy'n cael eu trafod yn **Adran 4**. Bydd darparwyr cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus wedyn yn gofyn am rwymedigaethau clir a thryloyw i adlewyrchu'r rhain, gyda rhywfaint o gyfle i benderfynu beth yw'r ffordd orau o'u cyflawni ar draws eu portffolio o wasanaethau ar-lein a theledu a ddarlledir. Yn ein hymgynghoriad roedden ni'n cynnig symud o system sy'n canolbwyntio ar rwymedigaethau cwota ar sianeli teledu i gymysgedd o rwymedigaethau meintiol ac ansoddol i'w cyflawni ar draws teledu a ddarlledir ac ar-lein.

8.4 Roedd nifer o randdeiliaid yn cytuno â'r egwyddor o ddull mwy hyblyg o ddarparu ar draws llwyfannau. Nododd nifer fod cwotâu traddodiadol yn gallu bod yn gyfyngol, gan ganolbwyntio'n aml ar fesurau fel nifer yr oriau sy'n cael eu darlledu, ni waeth a yw'r rhain

[196] Rydyn ni'n cyfeirio at wasanaeth niwtral fel gwasanaeth sy'n cael ei ddarparu drwy deledu a ddarlledir neu ar-lein.

yn effeithiol o ran diwallu anghenion cynulleidfaoedd. I'r gwrthwyneb, mae gan ofynion ansoddol (er enghraifft, sy'n canolbwyntio ar fesurau fel ansawdd ac effaith rhaglenni) y potensial i annog darparwyr cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus i arloesi, er mwyn sicrhau eu bod yn bodloni disgwyliadau cynulleidfaoedd gwahanol sut bynnag maen nhw'n dewis cael gafael ar gynnwys.

> "gallai dull darparu mwy hyblyg helpu i sicrhau canlyniadau cadarnhaol drwy gynyddu ymgysylltiad pobl ifanc â darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus. Nid yw cwotâu bob amser yn ysgogi ansawdd a chreadigrwydd. Felly, gallai annog a rhoi mwy o ryddid i'r darlledwyr ddatblygu a gweithredu strategaethau cyflawni sy'n adlewyrchu sut mae pobl ifanc yn canfod ac yn defnyddio cynnwys darlledu/cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus fod yn ffordd effeithiol o wella cyrhaeddiad i'r cynulleidfaoedd hynny." [197] **Llywodraeth yr Alban**
>
> "dylai fframwaith atebolrwydd clir gynnwys cwotâu ansoddol a meintiol sy'n seiliedig ar gynnwys, yn hytrach na chanolbwyntio ar ble mae cynnwys yn cael ei roi yn unig." [198] **Three Stones Media**
>
> "[...] mae'n bosibl y bydd ffocws cul ar fesurau meintiol yn cuddio cyfleoedd ehangach i sicrhau canlyniadau cadarnhaol i Gymru drwy ddarparu darlledu gwasanaeth cyhoeddus. Efallai fod gwerth mewn canolbwyntio ar fetrigau sy'n cyfleu dimensiynau mwy ansoddol, fel ansawdd cynnwys, portread a pherthnasedd." [199] **Llywodraeth Cymru**

8.5 Fodd bynnag, nododd rhai ymatebwyr risgiau mewn dull ansoddol yn bennaf, gan ddadlau y gallai hyn olygu bod mesur perfformiad ac asesu cydymffurfiaeth yn effeithiol yn fwy heriol. Un pryder a gododd dro ar ôl tro oedd y gallai llai o ofynion cyfarwyddol arwain at ostyngiad yn y ddarpariaeth o genres penodol, er enghraifft, rhaglenni crefyddol a rhaglenni plant sydd â gwerth masnachol is. [200]

[197] Ymateb Llywodraeth yr Alban i'r ymgynghoriad, t.4.
[198] Ymateb Three Stones Media i'r ymgynghoriad, t.1.
[199] Ymateb Llywodraeth Cymru i'r ymgynghoriad, t.5.
[200] Ymateb Sandford St Martin Trust i'r ymgynghoriad, t.5; Ymateb Steemers, yr Athro J i'r ymgynghoriad, t.3.

> "[..] roedd Deddf Cyfathrebiadau 2003 [...] wedi dileu rhwymedigaethau cwota penodol ar ITV i ddarparu cynnwys i blant [...]. Mae sector cynnwys plant y DU wedi cael trafferth byth ers hynny."[201] **Create Central**
>
> "Mae yna risg wirioneddol bod dull gweithredu Ofcom yn lleihau effaith cynnwys darlledu gwasanaeth cyhoeddus sy'n cael ei gynhyrchu, yn hytrach na'i gynnal neu ei gryfhau. Gellir cymell darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus sydd â gogwydd masnachol i symud cynnwys gwasanaeth cyhoeddus i ffwrdd o slotiau gwerth uchel, ac mae gofynion sydd wedi'u diffinio'n fras yn codi cwestiynau ynghylch gorfodaeth effeithiol."[202] **Sky**
>
> "[...] ni ddylai unrhyw awydd i gynyddu hyblygrwydd yn y system arwain at wanhau cynnwys gwasanaeth cyhoeddus. [...] bydd [darparwyr cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus] sydd heb eu gwirio yn anochel yn ceisio sicrhau'r elw masnachol gorau posibl drwy gludo'r cynnwys mwyaf proffidiol yn fasnachol yn y lle mwyaf amlwg."[203] **COBA**

8.6 Yn eu hymatebion, roedd darparwyr cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus yn cydnabod bod dull gweithredu diwygiedig yn debygol o alw am gymysgedd o fesurau ansoddol a meintiol:

> "Yn ymarferol, bydd rôl o hyd i ddarparwyr cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus gael ymrwymiadau penodol sy'n gwarantu darparu mathau penodol o gynnwys o werth uchel i wylwyr yn y DU ac na fyddai'r farchnad o bosibl yn eu darparu fel arall – fel newyddion, neu fuddsoddiad y tu allan i Lundain."[204] **Channel 4**
>
> "Rydyn ni'n cydnabod, hyd yn oed o dan y drefn fwy hyblyg [...] y bydd angen cwotâu a rhwymedigaethau llym yn dal i fod er mwyn sicrhau bod ITV yn cyflawni'r llinell sylfaen."[205] **ITV**

8.7 Rydyn ni o'r farn bod pryder dilys y gallai rhai cynulleidfaoedd fod ar eu colled os bydd darparwyr yn ffafrio teledu ar-lein dros deledu a ddarlledir i dargedu grwpiau penodol. Yn benodol, byddem yn poeni am y posibilrwydd y gallai hyn arwain at ostyngiad mewn rhai gwasanaethau, gan arwain at rai cynulleidfaoedd ar eu colled. Mae ein hymchwil yn dangos nad oes gan bob cynulleidfa fynediad rhwydd i'r rhyngrwyd; does gan 6% o gartrefi ddim mynediad i'r rhyngrwyd gartref, ac mae hyn yn uwch ar gyfer aelwydydd mewn grwpiau economaidd-gymdeithasol is (11%).[206] Yn yr un modd, dydy 16% o oedolion y DU sy'n defnyddio gwasanaethau ar-alw ddim yn gwylio teledu sy'n cael ei ddarlledu.[207]

---

[201] Ymateb Create Central i'r ymgynghoriad, t.3.
[202] Ymateb Sky i'r ymgynghoriad, t.2.
[203] Ymateb COBA i'r ymgynghoriad, t.4.
[204] Ymateb Channel 4 i'r ymgynghoriad, t.21.
[205] Ymateb ITV i'r ymgynghoriad, t.62.
[206] Ofcom, 2021. Traciwr Technoleg arolwg omnibws CATI - 12 Chwefror i 5 Mawrth 2021, KDR06.
[207] Dadansoddiad yn defnyddio data Traciwr Technoleg 2021 Ofcom.

8.8 Yn ein barn ni, bydd angen rhai gofynion meintiol o hyd i ddiogelu cynulleidfaoedd a sicrhau eu bod yn parhau i gael gwasanaeth da gydag amrywiaeth eang o gynnwys. Efallai y bydd angen y gofynion hyn mewn rhai genres, er enghraifft mewn newyddion cenedlaethol a rhanbarthol neu ar gyfer cynnwys sy'n cael ei gynhyrchu yn y gwledydd a'r rhanbarthau.

8.9 Gan ystyried safbwyntiau rhanddeiliaid, rydyn ni'n parhau i feddwl bod dull diwygiedig o ddarparu cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus, fel y gwelir yn yr enghreifftiau rhyngwladol isod, yn cynnig potensial sylweddol i gynyddu'r buddion i gynulleidfaoedd. Bydd cymysgedd o ofynion meintiol clir, yn enwedig mewn meysydd fel darpariaeth newyddion, a gofynion ansoddol mwy hyblyg sy'n cymell darparu cynnwys unigryw o ansawdd uchel ac sy'n rhoi mwy o hyblygrwydd i ddarparwyr cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus gyflawni eu rhwymedigaethau ar draws gwasanaethau ar-lein a theledu a ddarlledir, yn sicrhau'r canlyniadau gorau i wylwyr.

### Enghreifftiau rhyngwladol

- **Gwlad yr Iâ:** Yn dilyn adolygiad yn 2012-13, mae'r fframwaith rheoleiddio ar gyfer darlledu gwasanaeth cyhoeddus yng Ngwlad yr Iâ, RUV, bellach yn cynnwys llai o gwotâu ac mae'n canolbwyntio ar ddewisiadau'r darlledwr gwasanaeth cyhoeddus o ran sut mae cyflawni ei rwymedigaethau. Mae'r fframwaith yn nodi'r amcanion yna mae'r RUV yn nodi pa wasanaethau y bydd yn eu darparu i gyflawni'r amcanion hynny.
- **Canada:** Byddai deddfwriaeth newydd, a gynigiwyd y llynedd i ddiweddaru'r Ddeddf Darlledu, yn rhoi'r adnoddau angenrheidiol i'r rheoleiddiwr, CRTC, ddatblygu dulliau rheoleiddio sy'n edrych tua'r dyfodol. Cyn belled ag y bo modd, byddai'r rhain yn cynnwys rheoleiddio ar sail canlyniadau, gyda'r CRTC yn asesu canlyniadau penodol yn hytrach na bod yn gyfarwyddol ynghylch sut caiff y rhain eu cyflawni.
- **Y Swistir:** Mae'n rhaid i SRG, darlledwr gwasanaeth cyhoeddus y Swistir, ddatblygu ei fesuriadau ei hun ar gyfer asesu sy'n seiliedig ar ganlyniadau, ar ôl cyhoeddi adolygiad 2016 a chytundeb trwydded newydd yn 2018. Mae'n ofynnol iddo bennu strategaeth gyda'i nodau diffiniedig ei hun, ac adrodd yn erbyn y rhain yn y dyfodol.

## Sicrhau bod darparwyr Cyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus yn cyflawni eu rhwymedigaethau

8.10 Mae rhanddeiliaid yn cytuno bod angen disgwyliadau clir ar gyfer darparwyr cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus i helpu i gynnal hyder yn y system cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus. Awgrymodd nifer y byddai angen cynlluniau clir gan ddarparwyr cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus a monitro agos gan Ofcom er mwyn asesu'r system yn y dyfodol.

> "[...] mae'n hanfodol bod darparwyr cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus yn nodi cynlluniau sy'n glir ac sydd ag amcanion mesuradwy. Barn TAC yw bod cynllun blynyddol cyfredol y BBC yn cynnwys llawer o destun generig a dim llawer o destun ar gyflawniadau a lefelau gwariant clir a mesuradwy yn y gwledydd a'r rhanbarthau, ac nad yw'r fformat hwn yn ddigon mesuradwy a chadarn."[208] **TAC**
>
> "Byddem yn annog bod unrhyw drefn ddeddfwriaethol newydd yn cynnwys digon o fanylion er mwyn gallu sicrhau canlyniadau dymunol. [...] Bydd sicrhau canlyniadau clir a mesuradwy, ar draws genres yn dal yn bwysig – hyd yn oed os caniateir i gynnwys gael ei ddarparu ar draws amrywiaeth ehangach o wasanaethau."[209] **Create Central**

8.11 Rydyn ni'n cytuno y bydd fframwaith rheoleiddio wedi'i ddiweddaru yn galw am fesurau tryloywder ychwanegol i sicrhau bod darparwyr cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus yn cydymffurfio â'u gofynion. Bydd angen iddyn nhw gyhoeddi cynlluniau yn egluro sut maen nhw'n bwriadu cyflawni eu rhwymedigaethau ar draws eu portffolio o wasanaethau. Byddem yn disgwyl iddyn nhw nodi'r metrigau maen nhw'n bwriadu eu defnyddio i ddangos eu bod yn cyflawni eu rhwymedigaethau. Rydyn ni'n cydnabod pryder VLV nad oes dull safonol o fesur darpariaeth cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus ar draws llwyfannau ar hyn o bryd.[210] Byddai rhai metrigau cyson ar draws darparwyr yn ein galluogi i wneud cymariaethau ac asesu'r system yn well. Rydyn ni'n trafod mesur perfformiad ymhellach isod.

8.12 Rydyn ni'n cydnabod bod angen taro cydbwysedd gofalus rhwng dal y darparwyr i gyfrif drwy graffu ar eu cynlluniau, a pheidio â dylanwadu'n ormodol ar eu dull gweithredu cyn iddyn nhw gael cyfle i gyflawni. Byddai ein hasesiad yn debygol o ganolbwyntio ar a yw cynlluniau'n seiliedig ar dybiaethau a metrigau rhesymol ac a ydyn nhw'n egluro'n ddigonol sut bydd y darparwr yn cyflawni ei ofynion.

8.13 Hefyd, bydd angen i ddarparwyr cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus adrodd ar eu perfformiad i ddangos eu bod wedi cyflawni eu rhwymedigaethau drwy eu gwasanaeth ar-lein a theledu a ddarlledir.[211] Byddem yn defnyddio hyn i fonitro cydymffurfiaeth er mwyn i ni allu ymyrryd yn brydlon pe baem yn canfod problem. Ar gyfer y BBC, rydyn ni eisoes yn ystyried sut gellid diweddaru'r gofynion presennol yn ei Drwydded Weithredu. Byddem hefyd yn cyhoeddi rhagor o arweiniad i ddarparwyr cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus ynghylch ein disgwyliadau o ran nodi cynlluniau ac adrodd ar berfformiad os bydd angen.

---

[208] Ymateb TAC i'r ymgynghoriad, t.6.
[209] Ymateb Create Central i'r ymgynghoriad, t.3.
[210] Ymateb VLV i'r ymgynghoriad, t.17.
[211] Mae'r gofynion adrodd presennol yn amrywio rhwng y gwahanol ddarparwyr darlledu gwasanaeth cyhoeddus. Edrychwch ar baragraffau A5.23-A5.24 yn Fframwaith Rheoleiddio Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus - Atodiad 5. Yn ymateb Channel 4 i'n hymgynghoriad, dywedodd: "Cafodd cylch gwaith Channel 4 ei ddiweddaru yn Neddf yr Economi Ddigidol 2010 i roi dyletswydd newydd arni i 'ddarlledu neu ddosbarthu cynnwys ar amrywiaeth o lwyfannau darparu gwahanol'. Roedd hyn yn seiliedig ar y Datganiad o Bolisi Cynnwys Cyfryngau (SMCP), a oedd yn rhoi mwy o hyblygrwydd i Channel 4 adrodd ar sut roedd yn cyflawni ei chylch gwaith ar draws ystod ehangach o lwyfannau." (t.21)

8.14 Ochr yn ochr â hyn, bydd Ofcom yn monitro perfformiad y system cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus yn ei chyfanrwydd yn ofalus er mwyn sicrhau ei bod yn parhau i ddiwallu anghenion cynulleidfaoedd. Ar hyn o bryd mae gennym ddyletswydd i adolygu'r gwaith o gyflawni'r cylch gwaith darlledu gwasanaeth cyhoeddus bob pum mlynedd o leiaf,[212] a chyhoeddwyd ein hadolygiad diweddaraf ym mis Chwefror 2020. Rydyn ni'n argymell bod y ddyletswydd hon yn parhau. Ond o ystyried natur y sector sy'n newid yn gyflym, efallai y bydd angen adolygu meysydd penodol yn amlach – yn enwedig os oes tystiolaeth o unrhyw bryderon sy'n codi.

8.15 Byddai'r adolygiadau hyn hefyd yn rhoi cyfle i ni edrych ar y sector mewn ffordd fwy strategol, yn ogystal â chyfraniadau darparwyr unigol i'r system cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus, er mwyn nodi unrhyw feysydd pryder lle gallai fod angen rhwymedigaethau newydd. Byddem yn disgwyl i'r adolygiadau hyn ddefnyddio tystiolaeth o adroddiadau'r darparwyr cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus, ein hymchwil ein hunain a safbwyntiau rhanddeiliaid. Byddwn yn gweithio gyda'r Llywodraeth er mwyn i ni gael y pwerau angenrheidiol i sicrhau bod anghenion cynulleidfaoedd yn cael eu diwallu.[213] Dylid cefnogi hyn gyda phŵer i Ofcom ymyrryd os ydyn ni o'r farn nad yw cynlluniau darparwyr yn ddigonol i wneud hynny.[214] Dylai hyn gynnwys gallu cymryd camau adfer, er enghraifft drwy osod gofynion newydd a / neu roi cosbau ariannol os oes angen.

## Mesur perfformiad yn y dyfodol

> "Nid yw symud i ddigidol yn rhywbeth graddol, mae'n drawsnewidiol, ac mae angen i'r mesurau llwyddiant ar gyfer darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus newid mewn ymateb i gyd-destun y farchnad. Does dim modd i gyfryngau gwasanaeth cyhoeddus grynhoi'r sylw mewn swmp, na denu cyfran fawr o'r amser gwylio, oherwydd dydy'r metrigau hyn ddim yn cyfleu gwerth penodol darlledu gwasanaeth cyhoeddus nac yn cyfiawnhau ei gyllido yn y tymor hir. Felly mae angen mesur gwerth mewn ffordd wahanol."[215] **Rasmus Nielsen, Sefydliad Reuters ar gyfer Astudiaethau Newyddiaduraeth**

8.16 Bydd ein hasesiad o berfformiad darparwyr cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus yn amrywio yn ôl y math o rwymedigaeth. Mae mesur cydymffurfiad â chwotâu yn syml ar y cyfan, a phan fyddan nhw'n parhau i fod yn berthnasol, byddwn yn dal darparwyr i gyfrif amdanyn nhw. Fodd bynnag, mae mesur perfformiad yn ehangach na hyn, gan nad cwotâu yw'r ffordd orau bob amser o sicrhau effeithiolrwydd y system cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus na darparwyr cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus unigol. Er enghraifft, mewn

[212] Adrannau 264 a 264A o'r Ddeddf.
[213] Cefnogwyd hyn gan Ymateb Pwyllgor Cynghori Ofcom ar gyfer Lloegr i'r ymgynghoriad, t.1; Ymateb Pwyllgor Cynghori Ofcom ar gyfer Cymru i'r ymgynghoriad, t.6; Ymateb Creative Industries Foundation i'r ymgynghoriad, t.3; Ymateb Directors UK i'r ymgynghoriad, t.2; Ymateb Llywodraeth yr Alban i'r ymgynghoriad, t.9.
[214] Rydyn ni'n nodi na fyddem yn disgwyl i unrhyw ymyriad yng nghyswllt cynlluniau darparwyr cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus fod ar sail olygyddol.
[215] Adroddiad EY i Ofcom, 2020. Safbwyntiau rhyngwladol ar ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus, t.23

perthynas â newyddion, mae lefel yr allbwn yn bwysig ond byddai'r cyrhaeddiad, yr ansawdd a'r effaith gyffredinol yn berthnasol hefyd.

> "Yn y farchnad newydd hon, nid mater o roi cynnwys cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus allan yn unig yw hyn, ond gwneud yn siŵr ei fod yn cael ei dderbyn a'i weld gan amrywiaeth o gynulleidfaoedd sy'n gwylio mewn ffyrdd gwahanol. Wrth symud ymlaen, bydd angen i fesurau atebolrwydd ddefnyddio cyfuniad o ganlyniadau ansoddol, ochr yn ochr â rhai gofynion cwota i gefnogi'r gwaith o ddarparu cynnwys arbenigol."[216] **Directors UK**

8.17 Dywedodd rhanddeiliaid y dylai'r fframwaith ganolbwyntio ar allbwn ac effaith.[217] Rydyn ni'n cytuno ac yn ystyried y bydd gallu mesur a dadansoddi'n gywir yn y dyfodol sut mae cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus yn cyrraedd cynulleidfaoedd gwahanol ac yn diwallu anghenion cynulleidfaoedd ar draws gwasanaethau a llwyfannau yn dod yn fwyfwy pwysig.[218] Mae angen i ni hefyd sicrhau nad yw unrhyw heriau mesur yn datgymell darparwyr cyfryngau gwasanaeth rhag arloesi a mynd i'r afael â risgiau.

8.18 Mae'r darparwyr cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus, yn enwedig y BBC a Channel 4, hefyd yn meddwl yn ehangach am y gwerth cymdeithasol a phersonol maen nhw'n ei ddarparu a sut mae modd mesur hyn ar draws eu gwasanaethau. Er enghraifft, mae Channel 4 wedi defnyddio metrig o'r blaen sy'n cynnwys traffig cyfryngau cymdeithasol, ymchwil pwrpasol i gynulleidfaoedd a defnyddwyr cofrestredig ar-lein i asesu pa raglenni mae pobl wedi siarad amdanyn nhw fwyaf, wyneb yn wyneb neu ar gyfryngau cymdeithasol.[219] Byddwn yn parhau i wneud rhagor o waith yn y maes hwn gyda'r diwydiant ar y maes hwn.

8.19 Ar ôl cyhoeddi'r datganiad hwn, byddwn yn ystyried adnewyddu Channel 3, 4 a 5 yn ogystal â diweddaru Trwydded Weithredu'r BBC. Rydyn ni'n trafod hyn ymhellach yn **Adran 10**.

---

[216] Ymateb Directors UK i'r ymgynghoriad, t.2.
[217] Ymateb Digital UK i'r ymgynghoriad, t.14; Ymateb TAC i'r ymgynghoriad, t.7.
[218] Mae hwn yn faes lle mae gwaith eisoes yn mynd rhagddo, er enghraifft Prosiect Dovetail BARB, a sefydlwyd i gyrraedd cyfanswm cynulleidfa'r rhaglenni ar draws sawl sgrin (setiau teledu, tabledi, cyfrifiaduron personol a ffonau clyfar).
[219] Channel 4, 2020. 2019, t.97.

**Argymhellion i'r Llywodraeth**

Mae angen diweddaru'r rheolau ar gyfer darparwyr cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus, er mwyn:

- i'w gofynion sicrhau bod cynulleidfaoedd teledu ar-lein a theledu sy'n cael ei ddarlledu yn elwa o gyfryngau gwasanaeth cyhoeddus;
- i'r gofynion ganiatáu i bob darparwr cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus addasu ei wasanaethau i ddiwallu anghenion newidiol cynulleidfaoedd;
- i ddarparwyr cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus nodi eu cynlluniau i gyflawni eu hamcanion cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus ac adrodd yn flynyddol ar eu perfformiad;
- bod rôl rheoleiddio Ofcom yn cael ei diweddaru i adlewyrchu deddfwriaeth newydd, er mwyn i ni allu dal darparwyr cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus i gyfrif a chael yr hyblygrwydd i newid rheolau yn unol â thueddiadau'r sector.

# 9. Cefnogi arloesedd mewn cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus

**Yn yr adran hon, rydyn ni'n:**

- Trafod sut efallai na fydd y cynigion presennol yn ddigonol i sicrhau cynaliadwyedd y system cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus yn y dyfodol, felly efallai y bydd angen mesurau pellach fel partneriaethau strategol ag eraill.
- Ystyried sut gallai cynnwys cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus ategol newydd helpu i roi hwb i gadernid a chynaliadwyedd tymor hir cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus.
- Tynnu sylw at y ffaith y gallai cymhellion fel rhyddhad treth a chronfeydd y mae modd cystadlu amdanyn nhw gefnogi darpariaeth cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus.

9.1 Mae'r cynigion rydyn ni wedi'u hamlinellu yn y ddogfen hon hyd yma wedi cael eu dylunio i helpu i ddarparu system cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus gynaliadwy. Efallai y bydd risgiau o hyd na fydd y newidiadau hyn, er eu bod yn ddefnyddiol, yn ddigon i sicrhau bod cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus yn parhau i fod yn gynaliadwy yn y tymor hwy. Rydyn ni'n nodi sut gallai camau gweithredu gan y diwydiant, y Llywodraeth ac Ofcom helpu i gryfhau a gwella arloesedd mewn darpariaeth cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus.

## Rhaid i ddarparwyr cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus barhau i drawsnewid

9.2 Yn eu hymatebion, roedd y darparwyr cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus presennol yn dweud yn glir y byddai diweddaru'r rheoliadau ynghylch amlygrwydd ac argaeledd yn eu galluogi i gyrraedd cynulleidfaoedd a chyflawni eu cylch gwaith.[220] Roedden nhw hefyd wedi egluro sut maen nhw'n arloesi ac yn datblygu eu gwasanaethau ar-alw.

> "Ein bwriad yw datblygu S4C Clic fel cyrchfan ar gyfer ystod ehangach o gynnwys Cymraeg, gan gynnwys Newyddion digidol, S4C Lleol, deunydd byr a chanolig a chynnwys addas gan bartneriaid allanol. Bydd y data rydyn ni'n ei gasglu drwy S4C Clic yn ein galluogi i farchnata a theilwra cynnwys sydd wedi'i dargedu at y gynulleidfa yn ôl eu harferion gwylio."[221] **S4C**

9.3 Dywedodd y BBC ei fod yn gwneud iPlayer yn fwy perthnasol i unigolion drwy ddatblygu cynnyrch, marchnata a churadu wedi'i dargedu, gyda "chymysgedd unigryw o guradu ar sail pobl ac algorithmau"[222] ac mae ViacomCBS wedi ymrwymo i guradu a phersonoli

---

[220] Ymateb S4C i'r ymgynghoriad, t.3; Ymateb ITV i'r ymgynghoriad, t.9-10.
[221] Ymateb S4C i'r ymgynghoriad, t.5.
[222] BBC, 2021. Cynllun Blynyddol y BBC 2021/22, t.56.

gwasanaeth My5 Channel 5 yn well.[223] Mae ITV, STV a Channel 4 hefyd yn datblygu eu strategaethau digidol.

9.4 Mae gan ddarparwyr cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus frandiau cyfarwydd ac maen nhw'n dal yn boblogaidd iawn gyda chynulleidfaoedd. Dywedodd ITV wrthym fod 99% o bobl mewn cartrefi sy'n berchen ar deledu yn gwylio ei wasanaethau yn 2020 ac roedd 37m yn gwneud hynny bob wythnos. Roedd y traciwr darlledu gwasanaeth cyhoeddus diweddaraf yn dangos bod 75% o'r ymatebwyr yn defnyddio cynnwys darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn rheolaidd.[224]

9.5 Wrth iddyn nhw ddatblygu eu cynnig ar-lein, mae strategaethau darparwyr cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus wedi canolbwyntio'n bennaf ar gyrraedd cynulleidfaoedd drwy eu chwaraewyr ar-alw. Mae'r dull hwn yn sicrhau bod cynulleidfaoedd yn gallu cael gafael ar yr ystod lawn o gynnwys cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus ac mae hefyd yn rhoi dolen fwy uniongyrchol rhwng y rhaglenni maen nhw'n eu gwylio a'r darlledwr. Mae hefyd yn galluogi darparwyr cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus i gynnal perthynas uniongyrchol â'u cynulleidfaoedd.

> "Mae cynnal priodoliad a chlod yn arbennig o bwysig i'r BBC gan fod angen i gynulleidfaoedd gydnabod y gwerth penodol maen nhw'n ei gael o ffi'r drwydded."[225] **BBC**

9.6 Mae'r dewis cynyddol sydd gan gynulleidfaoedd erbyn hyn wedi arwain at rai yn troi eu cefn ar ddarparwyr cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus. Mae hyn yn arbennig o wir ar gyfer cynulleidfaoedd iau; er enghraifft, roedd yr amser yr oedd pobl 16-34 oed yn ei dreulio yn gwylio sianeli teledu a ddarlledir y BBC bob wythnos wedi gostwng 25% rhwng 2017 a 2020.[226] Mae'r duedd hon yn debygol o gynyddu os bydd cenedlaethau'r dyfodol yn dilyn arferion tebyg.[227] Mae cynulleidfaoedd iau yn benodol wedi dweud, er eu bod yn gallu gwylio cynnwys sydd wedi'i gomisiynu'n wreiddiol gan ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus, ar wasanaethau SVoD, mae rhai yn teimlo bod brandiau presennol darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus ar gyfer pobl eraill ac nid "ar eu cyfer nhw". Er enghraifft, canfu ein hymchwil fod pobl ifanc 11-16 oed yn fwyaf cyfarwydd â Netflix ac YouTube, gyda BBC iPlayer yn bumed a ITV Hub yn seithfed.[228]

9.7 Mae tystiolaeth bellach yn dod i'r amlwg o duedd ehangach o grwpiau demograffig eraill, nid pobl iau yn unig, yn teimlo eu bod yn cael eu dieithrio ac yn treulio llai o amser gyda darparwyr cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus ac yn defnyddio mwy ar SVoDs fel Netflix. Er enghraifft, mae'r amser mae pobl dros 54 oed wedi'i dreulio'n gwylio cynnwys nad yw'n cael ei ddarlledu ar y teledu (sy'n cynnwys gwylio gwasanaethau SVoD) wedi bod yn

---

[223] Ymateb ViacomCBS i'r ymgynghoriad, t.4.
[224] Ofcom, 2020. Tablau data Traciwr darlledu gwasanaeth cyhoeddus 2019, t.139. Diffiniwyd 'yn rheolaidd' gan yr ymatebwyr eu hunain.
[225] Ymateb y BBC i'r ymgynghoriad, t.26.
[226] BARB.
[227] Ofcom, 2020. Ymgynghoriad Sgrin Fach: Trafodaeth Fawr, paragraff 7.4.
[228] Ofcom, 2021. Traciwr Pobl Ifanc yn eu Harddegau y BBC 2020/21, C13, Tabl 22.

cynyddu'n gyson bob blwyddyn.[229] Mae SVoDs yn comisiynu mwy a mwy o gynnwys ar gyfer y grwpiau oed 35-44, sef eu grŵp oedran gwylwyr sy'n tyfu gyflymaf.[230] Mae gan y tueddiadau hyn oblygiadau ar gyfer lefelau ymgysylltu yn y dyfodol â'r darparwyr cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus presennol, a dros amser gallai arwain at ddirywiad parhaus yn gyffredinol.

9.8 Mae darparwyr cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus wedi bod yn arbrofi y tu allan i'w chwaraewyr ar-alw. Er enghraifft, mae Channel 4 wedi bod creu partneriaeth â Snapchat a TikTok.[231] Lansiwyd Hansh, sef unig frand ar-lein S4C yn 2017. Mae'n gweithredu ar draws llwyfannau cyfryngau cymdeithasol ac mae wedi'i anelu at bobl ifanc 16-34 oed. Mae eisoes wedi denu dros filiwn o sesiynau gwylio ar draws ei lwyfannau.[232]

9.9 Mae her sylweddol i ddarparwyr cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus sy'n dal i orfod darparu rhaglenni ar gyfer cynulleidfaoedd teledu a ddarlledir, gan gystadlu ar yr un pryd â chwaraewyr byd-eang, sy'n darparu gwasanaethau ar-alw, cyfryngau cymdeithasol a gemau. Mae cwestiynau wedi cael eu codi ynghylch a fydd darparwyr cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus yn gallu trawsnewid yn ddigonol i wasanaethu'r holl gynulleidfaoedd hyn, o ystyried y costau sylweddol sy'n gysylltiedig.

> "Er bod cynulleidfaoedd darlledu gwasanaeth cyhoeddus iau yn gostwng, mae modd priodoli llawer o hyn i lwyfannau yn hytrach na chynnwys. Mae llai o bobl yn gwrando ar Radio One ar radio go iawn ond mae llawer yn dal i wrando ar ei chynnwys drwy BBC Sounds ac mae llawer hefyd yn gwylio rhaglenni'r BBC ar YouTube. Maen nhw'n dal i elwa o fanteision darlledu gwasanaeth cyhoeddus, ond ddim yn yr un ffordd â chenedlaethau blaenorol. Yr hyn sy'n bwysig yw esblygu cynnwys a'r dechnoleg i gael gafael arno."[233] **NUJ**

9.10 Efallai na fydd darparu cynnwys cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus ar gyfryngau cymdeithasol neu lwyfannau eraill y tu hwnt i chwaraewyr ar-alw cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus yn fasnachol hyfyw oherwydd gall gynnwys trefniadau rhannu refeniw. Mewn rhai achosion, gall olygu bod gofyn i ddarparwyr cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus masnachol ildio cyfran sylweddol o'u refeniw i'r partner neu'r llwyfan cynnal.

---

[229] BARB. Cynnwys nad yw'n cael ei ddarlledu sy'n cael ei wylio ar y set deledu: Teledu yn cael ei ddefnyddio ond nad oes modd ei gysylltu â sain na'i adnabod mewn unrhyw fodd arall. Mae'n cynnwys chwarae gemau, gwylio DVDs/cyfresi/archifau, SVoD, YouTube, rhywfaint o gynnwys darlledwyr o'r archif, apiau ar deledu clyfar a llywio o amgylch Cyfeiryddion Rhaglenni Electronig (EPG guides) lle nad oes llun o'r cynnwys sy'n cael ei ddarlledu.
[230] The Sunday Telegraph, 9 Mai 2021. Mae Netflix ac Amazon yn mynd ar ôl gwylwyr hŷn sy'n colli diddordeb yn y BBC.
[231] Datganiad Newyddion Channel 4, 4 Mehefin 2020. Channel 4 yn gweithio mewn partneriaeth â Snap Inc. i ddod â llu o sioeau newydd i Discover; Datganiad Newyddion Channel 4, 16 Mawrth 2021. Channel 4 ac E4 yn lansio ar TikTok ac yn dod yn bartneriaid i'r ymgyrch #LearnonTikTok.
[232] Datganiad i'r Wasg gan S4C, 26 Mawrth 2020. Hansh yn denu 1 miliwn o sesiynau gwylio mewn mis.
[233] Ymateb NUJ i'r ymgynghoriad, t.4.

> "Ar ôl cymryd yr holl risg i fuddsoddi mewn creu a chynhyrchu cynnwys o ansawdd uchel, dydy hi ddim yn iawn bod llwyfannau, nad ydyn nhw'n cymryd dim o'r risg ond sy'n cael budd sylweddol o gael cynnwys cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus o ansawdd uchel ar eu llwyfan, yn gallu cymryd 45% o'r refeniw."[234] **Channel 4**

9.11 Dywedodd y BBC fod ei ymchwil yn dangos bod y 'clod' mae cynulleidfaoedd yn ei roi i'r BBC am ei gynnwys pan fyddan nhw'n ei wylio ar lwyfannau/gwasanaethau dosbarthu trydydd parti (yn hytrach nag ar BBC iPlayer er enghraifft) yn gostwng hyd at 50-70%.[235] Roedd y BBC yn dadlau bod gan hyn oblygiadau i safbwyntiau cynulleidfaoedd ar werth am arian ffi'r drwydded.

## Darpariaeth cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus newydd

9.12 Mae angen yr argymhellion a nodwyd yn gynharach yn y datganiad hwn ar frys er mwyn diweddaru'r fframwaith deddfwriaethol presennol. Fodd bynnag, o ystyried graddfa'r newid yn y sector, efallai na fydd diweddariad yn ddigon i sicrhau cynaliadwyedd tymor hir y system cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus. Yng ngweddill yr adran hon rydyn ni'n edrych ar ragor o gyfleoedd i'r Llywodraeth a darparwyr cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus ystyried nawr, er mwyn mynd i'r afael â'r heriau maen nhw'n eu hwynebu a chefnogi cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus yn y tymor hwy.

9.13 Yn ein hymgynghoriad roedden ni'n gofyn a allai fod manteision o ategu cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus presennol gyda darpariaeth newydd. Fe wnaethom ddweud y gallai defnyddio cymhellion penodol helpu i ddarparu amrywiaeth ehangach o gynnwys i gynulleidfaoedd, a allai hybu arloesedd a helpu gyda chynaliadwyedd.

9.14 Roedd consensws cryf na ddylai unrhyw ddarpariaeth cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus newydd gael ei hariannu drwy frigdorri ffi trwydded y BBC oherwydd y gallai hyn wanhau'r system bresennol.[236] Rydyn ni'n cytuno y byddai risgiau i'r ddarpariaeth bresennol pe bai brigdorri'n cael ei gyflwyno a dydyn ni ddim yn credu bod hyn yn gyson â chryfhau'r ddarpariaeth cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus bresennol.

---

[234] Ymateb Channel 4 i'r ymgynghoriad, t.35.
[235] Ymateb y BBC i'r ymgynghoriad, t.26.
[236] Ymateb y BBC i'r ymgynghoriad, t.30; Ymateb tîm DCMS y Democratiaid Rhyddfrydol i'r ymgynghoriad, t.4; Ymateb Children's Media Foundation i'r ymgynghoriad, t.6; Ymateb yr Athro S Barnett i'r ymgynghoriad, t.7; Ymateb yr Athro J Hardy i'r ymgynghoriad, t.7.

> "Mae ymdrechion i ddatblygu ffrydiau cyllido newydd yn angenrheidiol ac i'w croesawu, ond mae perygl gwirioneddol y gellid dehongli 'cyfleoedd i ddarparwyr newydd' fel cyfleoedd i ailddosbarthu cronfeydd presennol, yn fwy penodol refeniw ffi'r drwydded y BBC. [...] [Os oes] cystadleuaeth am y gronfa bresennol, byddai [hyn] yn sicr o wanhau gallu'r BBC i gyflawni yn erbyn ei gylch gwaith presennol."[237]
> **Yr Athro Steven Barnett, Prifysgol Westminster**
>
> "[...] ni ddylai cwmnïau masnachol fod yn gymwys i gael arian cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus heblaw o dan amgylchiadau penodol iawn cynhyrchu a chydgynhyrchu a gomisiynir gan gyfryngau gwasanaeth cyhoeddus o dan drefniadau llywodraethu cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus. Ni ddylai fod unrhyw gystadleuaeth am wrthod cyllid ffi'r drwydded a dylid defnyddio'r holl gyllid o'r fath ar gyfer darparu cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus gan y BBC yn unig, neu ar ran y BBC."[238] **Yr Athro Jonathan Hardy, Prifysgol y Celfyddydau Llundain**

9.15 Awgrymwyd y gellid defnyddio ardoll ar-lein ar SVoD yn lle hynny.[239] Gallai hyn helpu i ariannu cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus penodol yn y DU, yn ogystal â chynnwys sydd wedi'i dargedu at gynulleidfaoedd iau neu gynnwys lleol a rhanbarthol.

> "...rydyn ni wedi argymell yn ein hadroddiad bod y Llywodraeth yn sefydlu cronfa newydd, yn seiliedig ar ardoll ar refeniw'r cyfryngwyr digidol mwyaf. Byddai hyn yn cynnwys cyfres o grantiau arloesi digidol a fyddai'n agored i sefydliadau diwylliannol a sefydliadau eraill nad ydyn nhw eisoes yn ymwneud â gweithgareddau cyfryngau masnachol i ddarparu cynnwys sy'n bodloni amcanion gwasanaeth cyhoeddus penodol a diffiniedig."[240] **Yr Arglwydd Puttnam, ymchwiliad Dyfodol Teledu Gwasanaeth Cyhoeddus**

9.16 Dywedodd rhai rhanddeiliaid fod risg o ddarnio petai gan y system cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus yn y dyfodol nifer fawr o ddarparwyr gwahanol gyda chynnwys mewn sawl lle. Roedden nhw'n dadlau y byddai'n gwanhau manteision amlygrwydd pe bai'n cael ei roi i ddarparwyr newydd ychwanegol. Rydyn ni'n cytuno na ddylai unrhyw ddarpariaeth ategol neu newydd danseilio'r ddarpariaeth cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus presennol ond y dylai wella'r system bresennol.

## Opsiynau ar gyfer darparu cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus ategol yn y dyfodol

9.17 Rydyn ni'n credu y gallai fod cyfleoedd yn y dyfodol i ddarparu cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus mewn ffyrdd gwahanol; rydyn ni wedi nodi nifer o feysydd y dylai'r

---

[237] Ymateb yr Athro S Barnett i'r ymgynghoriad, t.6.
[238] Ymateb yr Athro J Hardy i'r ymgynghoriad, t.4.
[239] Ymateb TAC i'r ymgynghoriad, t.11; Ymateb A Future for Public Service Television: Content and Platforms in a Digital World i'r ymgynghoriad, t.3; Ymateb Balfour, F i'r ymgynghoriad, t.5.
[240] Ymateb A Future for Public Service Television: Content and Platforms in a Digital World i'r ymgynghoriad, t.3-4.

Llywodraeth, Ofcom a'r diwydiant eu hystyried ar gyfer darpariaeth cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus ychwanegol:

- Cyfleoedd i ddarparwyr cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus gael eu cymell i ddatblygu partneriaethau strategol i ddarparu cynnwys newydd a chyrraedd cynulleidfaoedd ehangach.
- Sut mae modd cynnal cyfraniad cynnwys sy'n debyg i gynnwys cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus gan ddarlledwyr masnachol.
- A oes cyfleoedd i annog darpariaeth cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus newydd sy'n canolbwyntio ar fathau penodol o gynnwys a / neu wedi'u targedu at grwpiau cynulleidfa penodol.

## Cyfleoedd i ddarparwyr cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus ddatblygu partneriaethau strategol uchelgeisiol i gyrraedd cynulleidfaoedd ehangach

9.18 Fe wnaethom drafod yn ein hymgynghoriad sut gallai partneriaethau strategol helpu i gynyddu effeithlonrwydd, lleihau costau a gwasanaethu cynulleidfaoedd yn well mewn nifer o ffyrdd.

9.19 Ers hynny, mae rhagor o gyhoeddiadau wedi bod am bartneriaethau strategol ac, yn fwy diweddar, er enghraifft, cyhoeddodd Channel 4 a Sky eu bod wedi ehangu eu partneriaeth fasnachol bresennol i gynnwys cynnwys, technoleg ac arloesedd. Bydd mwy o gynnwys Channel 4 ar gael i gynulleidfaoedd Sky a bydd Channel 4 yn elwa o'r cyfle i gynyddu refeniw hysbysebu digidol i gefnogi ei strategaeth Future4.

9.20 Gallai rhagor o gydweithio rhwng darparwyr cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus ar ddata ac ymchwil ymysg cynulleidfaoedd, yn ogystal ag ymchwil a datblygu, fel ar ffyrdd newydd o gyrraedd cynulleidfaoedd, fod o fudd i'r system cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus. Dywedodd nifer o randdeiliaid fod llawer o ddarparwyr cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus eisoes yn cydweithio, ond roedd eraill yn awgrymu bod angen mwy.[241] Roedd rhanddeiliaid yn cefnogi mwy o rannu data,[242] gan gynnwys data cynulleidfa.[243] Rydyn ni'n cytuno bod manteision i hyn lle bo'n briodol, gan y gall ddarparu gwybodaeth ychwanegol ar gyfer penderfyniadau comisiynu a golygyddol a gall hefyd helpu i wneud penderfyniadau masnachol. Er enghraifft, dylai CFlight, system mesur cynulleidfaoedd a fydd yn cael ei lansio yn y DU yr hydref hwn, roi gwybodaeth ychwanegol i ddarlledwyr a hysbysebwyr.[244]

---

[241] Er enghraifft, mae darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn cydweithio drwy Freeview a Britbox. Ymateb ITN i'r ymgynghoriad t.18; Ymateb Michalis, Dr. M i'r ymgynghoriad, t.5; Ymateb y BBC i'r ymgynghoriad, t.23. Yn ogystal, mae gan S4C a'r BBC bartneriaeth ffurfiol hirsefydlog ac mae S4C yn derbyn cyllid drwy ffi'r drwydded. Fodd bynnag, dywedodd LG fod sefydliad ymchwil a datblygu darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn yr Almaen wedi cael ei ddiddymu oherwydd diffyg cefnogaeth darlledu gwasanaeth cyhoeddus, Ymateb LG i'r ymgynghoriad, t.14.
[242] Ymateb ITN i'r ymgynghoriad t.18; Ymateb Pact i'r ymgynghoriad, t.19. Fodd bynnag, nododd Pact hefyd fod y data hwn yn fasnachol sensitif i gyflenwyr yn aml, a dywedodd y gallai fod angen asesiad effaith yn y dyfodol.
[243] Ymateb Michalis, Dr. M i'r ymgynghoriad, t.6.
[244] System mesur cynulleidfaoedd ar gyfer sector darlledu masnachol y DU yw CFlight. Mae'n casglu data am gynulleidfaoedd ar draws llwyfannau gan gynnwys BVoDs. Mediatel News, Mehefin 2021. Cynghrair CFlight yn dangos bod modd i'n marchnad teledu a reoleiddir arloesi.

> "Mae ITN yn croesawu unrhyw ddatblygiadau a fyddai'n arwain at rannu gwir ddata ar draws llwyfannau ochr yn ochr â'r trefniadau rhannu data presennol sydd ar waith."[245] **ITN**
>
> "Mae Pact yn cefnogi data ychwanegol a chronni gwybodaeth a fyddai'n helpu darlledwyr i wella eu llwyfannau fideo ar-alw, argymhellion defnyddwyr ac yn eu helpu i ddeall eu cynulleidfaoedd yn well."[246] **Pact**

9.21 Roedd rhywfaint o gefnogaeth hefyd i bartneriaethau o ran creu cynnwys, er enghraifft o ran rhannu hawliau chwaraeon a phartneriaethau rhwng sefydliadau, fel sefydliadau diwylliannol, elusennau neu gyrff addysgol a fyddai'n cynyddu gwerth cyhoeddus.[247]

> "[Gall] rhaglenni a gynhyrchir drwy [bartneriaeth y Brifysgol Agored/y BBC] gael effaith gymdeithasol sylweddol drwy wella dealltwriaeth ddinesig gwylwyr. Yr enghraifft orau ddiweddaraf o hyn yw Blue Planet II. Cafodd y rhaglen [...] effaith enfawr o ran codi proffil llygredd plastig morol, [...] gan annog pobl i newid eu hymddygiad [...]."[248] **Y Brifysgol Agored**

9.22 Gallai hyn helpu i ddarparu cynnwys sydd o werth cymdeithasol pwysig na fyddai fel arall yn fasnachol hyfyw, i gyrraedd set ehangach o gynulleidfaoedd drwy ddarparwyr cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus.

9.23 Gallai rhannu ar y cyd fod o fudd i gynulleidfaoedd hefyd. Roedd rhywfaint o gefnogaeth ar gyfer un chwaraewr ar-alw cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus, gyda rhai rhanddeiliaid yn dweud y byddai un dewis Prydeinig, hawdd ei lywio, yn hytrach na rhai gwasanaethau SVoD byd-eang, yn cael ei groesawu ac o fudd i gynulleidfaoedd.[249]

> "Mae darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus eisoes yn cydweithio â'i gilydd ac yn cydweithio â darparwyr newydd [...]. Er y gellid gwella hyn yn sylweddol drwy gael un pwynt mynediad craidd ar gyfer cynnwys cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus [...]. Gallai hyn arwain at gyfleoedd newydd pellach o ran chwilio am gynnwys mewn ffordd nad yw'n gorfod bod fesul ap, yn unol â disgwyliadau defnyddwyr [...]."[250] **techUK**

[245] Ymateb ITN i'r ymgynghoriad, t.18.
[246] Ymateb Pact i'r ymgynghoriad, t.19.
[247] Ymateb Michalis, Dr M, i'r ymgynghoriad, t.5; Ymateb y BBC i'r ymgynghoriad, t.28; Ymateb BT i'r ymgynghoriad, t.10; Ymateb Media Reform Coalition i'r ymgynghoriad, t.5; Ymateb yr Athro C Johnson i'r ymgynghoriad, t.10; Ymateb yr Athro S Barnett S i'r ymgynghoriad, t.6; Ymateb VLV i'r ymgynghoriad, t.28; Ymateb Balfour, F i'r ymgynghoriad, t.4-5. Ymateb Diehl, C i'r ymgynghoriad, t.3
[248] Ymateb y Brifysgol Agored i'r ymgynghoriad, t.4.
[249] Ymateb RNIB i'r ymgynghoriad, t.4; Ymateb Pwyllgor Cynghori Gogledd Iwerddon i'r ymgynghoriad, t. 11; Ymateb Directors UK i'r ymgynghoriad, t.10
[250] Ymateb techUK i'r ymgynghoriad, t.11.

> "Gallwn hefyd weld y manteision i gynulleidfaoedd (ac o ran lleihau dyblygu ymdrechion), o gael un "chwaraewr" fideo ar-alw neu bwynt mynediad i gael gafael ar gynnwys gan yr holl ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus. Byddai hyn yn ei gwneud hi'n haws i gynulleidfaoedd ddod o hyd i gynnwys cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus mewn un lle [...]."[251] **Directors UK**

9.24 Dywedodd un rhanddeiliad y byddai partneriaethau'n dal i fod yn annigonol i fynd i'r afael ag 'anghydbwysedd pŵer' rhwng y cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus a llwyfannau byd-eang oherwydd eu graddfa.[252] Er eu bod yn cefnogi chwaraewr ar y cyd, cyfeiriodd Directors UK hefyd at heriau o ran yr angen i reoli sensitifrwydd masnachol rhwng darparwyr (er enghraifft, o ran rhannu data a chyfyngiadau cystadleuaeth), a phwysigrwydd cadw amrywiaeth o leisiau.[253]

> "[...] mae'r amrywiaeth o ddarpariaeth darlledu gwasanaeth cyhoeddus [...] yn caniatáu i bob darlledwr gwasanaeth cyhoeddus gynnal perthynas uniongyrchol â'u cynulleidfaoedd [...], i arfer rheolaeth olygyddol [...], i ddatblygu eu brandiau a'u hunaniaethau unigryw eu hunain [...], ac i gael eu gwobrwyo'n uniongyrchol gan gynulleidfaoedd am eu buddsoddiad mewn cynnwys a nodweddion arloesol [...]. Byddai perygl y byddai gweithredu un gwasanaeth ar y cyd neu wasanaeth cynnwys ar-alw yn lleihau'r ffynonellau gwerth hyn ac yn amlygu'r gwasanaeth ar y cyd i'r un risgiau ag y mae'r gwasanaethau cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus unigol yn eu hwynebu ar hyn o bryd o ran peidio â defnyddio llwyfannau."[254] **ITV**

9.25 Gallai partneriaethau strategol â sefydliadau ar-lein helpu'r darparwyr cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus presennol i gyrraedd cynulleidfaoedd ehangach, yn enwedig os oes gan y partner ar-lein hwnnw berthynas yn barod â chynulleidfaoedd nad ydyn nhw'n defnyddio chwaraewyr ar-alw cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus. Efallai y bydd angen cymhellion i wneud hyn yn fasnachol ddeniadol i ddarparwyr cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus.

## Sut gellir cynnal cyfraniad darlledwyr eraill yn y DU

9.26 Fe wnaethom dynnu sylw yn ein hymgynghoriad at y ffaith bod gan sector cyfryngau'r DU gyfuniad unigryw o wasanaethau teledu a sain cyhoeddus a masnachol sy'n cyfrannu at yr economi greadigol ehangach.[255] Yn **Adran 4**, fe wnaethom hefyd amlinellu manteision darpariaeth ehangach sy'n debyg i gyfryngau gwasanaeth cyhoeddus gan ddarlledwyr masnachol. Mae'r darlledwyr hyn yn dangos bod cymhellion masnachol i ddarparu rhai mathau o gyfryngau gwasanaeth cyhoeddus, ond mae'n dibynnu ar hyfywedd ariannol parhaus.

---

[251] Ymateb Directors UK i'r ymgynghoriad, t.10.
[252] Ymateb ITV i'r ymgynghoriad, t.47.
[253] Ymateb Directors UK i'r ymgynghoriad, t.10.
[254] Ymateb ITV i'r ymgynghoriad, t.7-8.
[255] Ofcom, Rhagfyr 2020. Ymgynghoriad Sgrin Fach: Trafodaeth Fawr, t.2.

9.27 Mae llwyfannau, darlledwyr teledu a radio a darparwyr newyddion lleol i gyd yn cyfrannu at sector cyfryngau'r DU sydd, mewn sawl ffordd, yn adlewyrchu egwyddorion cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus. Roedd rhanddeiliaid yn cytuno bod cynulleidfaoedd yn elwa o ddarparwyr masnachol presennol sy'n darparu cynnwys sy'n debyg i gyfryngau gwasanaeth cyhoeddus. Tynnodd Radiocentre sylw at gyfraniad radio masnachol sydd, meddai, yn darparu 10 awr yr wythnos ar gyfartaledd fesul gorsaf o allbwn gwerth cyhoeddus fel newyddion, teithio a digwyddiadau lleol.[256] Dywedodd y Rhwydwaith Teledu Lleol fod gwasanaethau teledu lleol yn cynnig haen ychwanegol o newyddiaduraeth leol, gan roi sylw i faterion lleol a chynrychioli amrywiaeth mewn cymunedau.[257] Mae darparwyr ar-lein hefyd yn cyfrannu, gyda Google a YouTube yn tynnu sylw at yr enghraifft o 'FreeScienceLessons' ar y llwyfan pan gaeodd ysgolion oherwydd Covid-19.[258]

9.28 O ystyried pwysigrwydd y cynnwys hwn, efallai y bydd achos dros gyflwyno cymhellion newydd i gefnogi darpariaeth barhaus, os bydd ei hangen yn y dyfodol i roi hwb i gyfryngau gwasanaeth cyhoeddus. Yn yr adrannau isod rydyn ni'n nodi manteision annog darpariaeth newydd a pha gymhellion y gellid eu defnyddio i gefnogi darpariaeth cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus ychwanegol.

## Manteision annog darpariaeth atodol newydd

9.29 Gallai darpariaeth atodol newydd helpu i arallgyfeirio risg, cryfhau'r system a gwella cynaliadwyedd wrth i gynulleidfaoedd chwilio am amrywiaeth o gynnwys ehangach. Gallai hefyd gynyddu nifer y lleisiau a'r safbwyntiau a fyddai'n ei helpu i apelio at set ehangach o gynulleidfaoedd.

> Gallai sefydliadau neu gyrff diwylliannol sydd am gynhyrchu cynnwys digidol sy'n canolbwyntio ar wasanaethau cyhoeddus "wneud llawer mwy pe baent yn cael eu rhyddhau i fyd rhwydwaith y cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus [...]. Felly, rydyn ni'n cynnig y byddai'r darparwyr cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus 'newydd' hyn yn creu partneriaethau a chytundebau fframwaith gyda darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus a pherchnogion llwyfannau eraill i hyrwyddo a dosbarthu eu cynnwys [...]."[259] **Yr Arglwydd Puttnam, ymchwiliad Dyfodol Teledu Gwasanaeth Cyhoeddus**

9.30 Gallai ategu'r system gyda darpariaeth benodol gan sefydliadau llai roi mwy o hyblygrwydd ac ystwythder i'r system cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus yn y dyfodol – yn enwedig os gallen nhw fynd i'r afael ag anghenion cynulleidfaoedd arbenigol. Gallai cystadleuaeth ychwanegol gan ddarparwyr newydd hefyd helpu i wella ansawdd a chodi safonau ar draws y system cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus.

[256] Ymateb Radiocentre i'r ymgynghoriad, t.2.
[257] Ymateb cyfrinachol Rhwydwaith Teledu Lleol i'r ymgynghoriad, t.1
[258] Ymateb Google a YouTube i'r ymgynghoriad, t.9.
[259] Ymateb A Future for Public Service Television: Content and Platforms in a Digital World i'r ymgynghoriad, t.4-5.

### Bydd angen adolygu'r system cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus yn rheolaidd

9.31 Gellid defnyddio adolygiadau o gyfryngau gwasanaeth cyhoeddus i nodi meysydd lle gallai darpariaeth ychwanegol helpu i sicrhau bod y system yn parhau'n gynaliadwy. Gallai'r ddarpariaeth hon gynnwys amcanion penodol, er enghraifft mewn meysydd fel darparu cynnwys sydd wedi'i anelu at gynulleidfaoedd anodd eu cyrraedd neu genres cynnwys lle gallai fod risg yn y dyfodol o ddarpariaeth annigonol; mwy o bwyslais ar amrywiaeth a chynnwys y gwledydd a'r rhanbarthau; a/neu ffocws ar sbarduno arloesedd wrth ddarparu cynnwys cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus. Efallai y bydd cyfleoedd hefyd i weithio mewn partneriaeth â'r darparwyr cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus i ddarparu rhagor o gynnwys sy'n benodol i'r gwledydd, er enghraifft, gydag S4C neu STV.

9.32 Dylai deddfwriaeth newydd sicrhau bod gan Ofcom y pwerau casglu gwybodaeth angenrheidiol i asesu perfformiad unrhyw ddarparwr cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus ychwanegol ac i adolygu'r angen am unrhyw ddarpariaeth cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus atodol.

## Defnyddio cymhellion i gefnogi darpariaeth cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus ychwanegol

9.33 Fe wnaethom gomisiynu EY i edrych ar y gwahanol fathau o gymhellion a ddefnyddir mewn pum sector arall.[260] Mae'r dadansoddiad hwn, ynghyd ag ymatebion rhanddeiliaid a'n hymchwil ryngwladol[261] ein hunain, yn tynnu sylw at ffyrdd o ddefnyddio cymhellion er budd cynulleidfaoedd ac i gryfhau'r system cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus.

9.34 Gallai cymhellion fod yn arbennig o bwysig i annog darpariaeth cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus ategol newydd. Maen nhw'n cael eu defnyddio ar draws llawer o sectorau'r diwydiant ac maen nhw'n amrywio o rwymedigaethau cyfreithiol neu reoleiddiol, i gymhellion masnachol sy'n seiliedig ar elw yn unig. Mae llawer eisoes yn cael eu defnyddio ar draws y sector cyfryngau, ond efallai y gellid cyflwyno rhai newydd. Byddai angen eu dylunio i sicrhau nad ydyn nhw'n tanseilio'r ddarpariaeth bresennol.

### Cronfeydd y mae modd cystadlu amdanyn nhw

9.35 Mae'r rhain yn gymhellion ariannol sydd fel arfer yn cael eu rhoi ar waith gan y Llywodraeth neu gyrff y diwydiant er mwyn sicrhau canlyniad penodol. Dyrennir yr arian yn ôl cymhwysedd neu drwy broses dendro gystadleuol. Yn y DU, mae enghreifftiau'n cynnwys y Gronfa Cynnwys i Gynulleidfaoedd Ifanc, cynllun peilot tair blynedd yn rhedeg tan 2022 ac yn cael ei weinyddu gan y BFI ar ran y Llywodraeth.[262] Yn yr un modd, yng Ngogledd Iwerddon mae dwy gronfa wedi'u sefydlu – Cronfa Gyllid yr Iaith Wyddeleg

[260] Mae adroddiad EY ar gael yn Atodiad 3.
[261] Caiff astudiaethau achos rhyngwladol eu nodi yn Atodiad 4.
[262] Mae cronfa YACF yn cefnogi'r gwaith o ddatblygu a chynhyrchu rhaglenni ar gyfer llwyfannau teledu ac ar-lein rhad ac am ddim sy'n cael eu rheoleiddio ac sy'n cynnwys gwerthoedd darlledu gwasanaeth cyhoeddus mewn gweithredoedd byw ac animeiddio. Mae'r BFI yn chwilio am gynnwys sy'n diddanu, yn hysbysu ac yn adlewyrchu profiadau plant a phobl ifanc sy'n tyfu i fyny yn y DU heddiw.

(ILBF)[263] a Chronfa Ddarlledu Gaeleg Ulster (USBF)[264], ac mae'r ddwy yn cael eu gweinyddu gan Northern Ireland Screen. Hefyd, mae Cronfa Cynnwys Sain gwerth £3 miliwn ar gyfer creu cynyrchiadau radio gwreiddiol yn y DU. Mae'n canolbwyntio ar gynhyrchu cynnwys radio gwasanaeth cyhoeddus unigryw ar gyfer radio masnachol a chymunedol. Mae'n darparu cyllid cymorth grant gwerth £57 miliwn y gellir cystadlu amdano i gynhyrchu cynnwys unigryw o ansawdd uchel ar gyfer cynulleidfaoedd hyd at 18 oed.

9.36 Hefyd, mae cronfeydd y gellir cystadlu amdanyn nhw'n cael eu defnyddio mewn nifer o wledydd,[265] er enghraifft cronfa Sain a Gweledigaeth Iwerddon sy'n cefnogi rhaglenni hygyrch sy'n adlewyrchu diwylliant, hanes, iaith ac amrywiaeth Iwerddon. Mae'r cynllun yn cael ei weithredu gan Awdurdod Darlledu Iwerddon (BAI), sy'n cael ei ariannu gan hyd at 7% o dderbyniadau net blynyddol o ffi'r drwydded yn Iwerddon. Erbyn mis Mai 2021, mae gwerth €7.2m o gyllid wedi'i ddyrannu i 104 o brosiectau radio a theledu.[266]

9.37 Gellid defnyddio cyllid i gyflawni amcanion penodol fel creu cynnwys ar gyfer cynulleidfaoedd anodd eu cyrraedd, o bosibl drwy ddefnyddio partneriaethau strategol, er enghraifft, â'r rhai hynny a allai fod â chysylltiadau presennol â'r cynulleidfaoedd hyn. Dywedodd EY fod Sport England yn defnyddio cronfa y mae modd cystadlu amdani i gyflawni pum amcan y Llywodraeth sy'n canolbwyntio ar chwaraeon ar lawr gwlad ac annog mwy o bobl i gymryd rhan mewn gweithgarwch corfforol.[267] Mae grwpiau sy'n cael eu tangynrychioli yn cael eu targedu drwy bartneriaethau â mudiadau cymunedol ac mae cysylltiad agos rhwng y pum amcan a'r ffordd y mae cyllid yn cael ei ddyrannu gan Sport England.

9.38 Dywedodd rhanddeiliaid y gallai partneriaethau â sefydliadau diwylliannol, sydd eisoes wedi'u sefydlu o ran arbenigedd ac adnoddau, helpu darlledwyr i ehangu eu cynnig gwasanaeth cyhoeddus a helpu cynulleidfaoedd i gael gafael ar gynnwys. Awgrymodd rhanddeiliaid hefyd y byddai canlyniadau wedi'u targedu, fel gwneud cynnwys mewn ieithoedd cynhenid, yn ffordd o sicrhau bod cyllid y mae modd cystadlu amdano yn cael ei ddefnyddio i lenwi unrhyw fylchau mewn darpariaeth gwasanaethau cyhoeddus.[268] Er enghraifft, gellid defnyddio cronfeydd y mae modd cystadlu amdanyn nhw hefyd i greu cronfa gyfryngau leol i annog rhagor o gydweithio yn y gwledydd a'r rhanbarthau.

[263] Lansiwyd Cronfa Gyllid yr Iaith Wyddeleg (ILBF) yn 2005, a'i nod yw ariannu cynnwys Gwyddeleg a meithrin y sector cynhyrchu annibynnol Gwyddeleg yng Ngogledd Iwerddon.
[264] Sefydlwyd Cronfa Ddarlledu Gaeleg Ulster (USBF) yn 2010 ac mae'n darparu cyllid ar gyfer cynhyrchu ffilmiau, teledu a chynnyrch delweddau symudol eraill ar dreftadaeth, diwylliant ac iaith Gaeleg Ulster yng Ngogledd Iwerddon.
[265] Trafodir y rhain yn Atodiad 4.
[266] BAI, 31 Mai 2021. BAI yn cyhoeddi gwerth €7.2m o gyllid o dan gynllun Sound and Vision.
[267] Yr amcanion hyn yw lles corfforol; lles meddyliol; datblygiad unigol; datblygiad cymdeithasol a chymunedol a datblygiad economaidd ac rydyn ni'n trafod y rhain ar dudalen 16 adroddiad EY yn Atodiad 3.
[268] Ymateb TAC i'r ymgynghoriad, t.11; Ymateb Barcroft, S i'r ymgynghoriad, t.1; Ymateb yr Athro S Barnett i'r ymgynghoriad, t.6-7; Ymateb Directors UK i'r ymgynghoriad, t.11; Ymateb Pwyllgor Cynghori Ofcom ar gyfer Gogledd Iwerddon i'r ymgynghoriad, t.11; Ymateb Together TV i'r ymgynghoriad, t.7

> "Gallai dulliau defnyddiol gael eu creu i alluogi buddsoddiad wedi'i dargedu mewn cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus ieithoedd cynhenid yn y DU, fel rhyddhad treth cynhyrchu ieithoedd cynhenid, a chronfeydd y mae modd cystadlu amdanyn nhw, fel yr hyn y mae Awdurdod Darlledu Iwerddon yn ei gynnig."[269] **MG Alba**

## Cymhellion treth

9.39 Mae'r Llywodraeth yn defnyddio manteision treth i leihau faint o dreth sy'n daladwy neu i newid y system dreth er budd grŵp o bobl neu sefydliadau. Yn y DU, mae nifer o gynlluniau ar gael; er enghraifft, ar gyfer cynnwys drama o'r radd flaenaf, mae yna gynllun sy'n rhoi ad-daliad ariannol o hyd at 25% o wariant cymwys y DU i sefydliadau, os yw'n pasio prawf diwylliannol. Mae cymhellion treth ymchwil a datblygu ar gael hefyd i gwmnïau yn y DU sy'n ceisio symud gwyddoniaeth neu dechnoleg ymlaen drwy ddatrys ansicrwydd gwyddonol neu dechnolegol.[270] Gall darparwyr cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus ddefnyddio'r rhain, mewn meysydd fel effeithiau arbennig neu wella gwasanaethau ffrydio i ddarparu cynnwys ar sawl dyfais.

9.40 Roedd rhai rhanddeiliaid yn cefnogi rhyddhad treth, gan gynnwys gostwng y trothwy ar gyfer cynyrchiadau a wneir mewn ieithoedd cynhenid.[271] Awgrymwyd y gallai rhagor o gyllid helpu chwaraewyr newydd i ymuno â'r farchnad a chynyddu amrywiaeth lleisiau,[272] ac y gellid defnyddio rhyddhad treth i gymell cynyrchiadau rhanbarthol ymhellach.[273]

> "Gallai rhyddhad treth newydd ar gyfer cynyrchiadau teledu y tu allan i Lundain ysgogi mwy o fuddsoddi yn y rhanbarthau. Gallai hyn ganolbwyntio ar fanteision unrhyw gynnydd yng ngwariant cynyrchiadau allanol llinell uchaf y DU ar ganolfannau teledu rhanbarthol, gan rannu manteision economaidd y sector ledled y DU ac o bosibl, gynyddu lluosogrwydd y ddarpariaeth i gynulleidfaoedd."[274] **Sky**

9.41 Rydyn ni'n credu ei bod hi'n hanfodol bod y Llywodraeth yn ystyried yr achos dros ddarpariaeth cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus ychwanegol nawr ac mae perygl y bydd unrhyw oedi yn arwain at ostyngiad pellach yn yr ymgysylltu â'r gynulleidfa. Yn ogystal ag argymhellion ar gyfer y Llywodraeth, rydyn ni hefyd yn credu bod camau y gall Ofcom a'r diwydiant eu cymryd, fel y nodir yn **Adran 10**.

---

[269] Ymateb MG Alba i'r ymgynghoriad, t.3.
[270] Edrychwch ar: HMRC, 2007. Hawlio rhyddhad treth ymchwil a datblygu.
[271] Ymateb TAC i'r ymgynghoriad, t.10.
[272] Ymateb Children's Media Foundation i'r ymgynghoriad, t.6; Ymateb Media Reform Coalition i'r ymgynghoriad, t.6-7.
[273] Ymateb Create Central i'r ymgynghoriad, t.4. Creative Industries Federation, t.4
[274] Ymateb Sky i'r ymgynghoriad, t.26.

**Argymhellion i'r Llywodraeth**

- Dylai deddfwriaeth ganiatáu ar gyfer darpariaeth cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus ategol drwy gyflwyno hyblygrwydd, er mwyn galluogi darparwyr ychwanegol i ddarparu cynnwys cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus newydd, ochr yn ochr â darparwyr cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus presennol.
- Dylai'r Llywodraeth ystyried yr achos dros gymhellion cyllidol a allai ehangu'r ddarpariaeth cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus.
- Dylai darparwyr cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus barhau i gydweithio i ddatblygu mwy o bartneriaethau strategol ymysg ei gilydd a gyda'r diwydiant ehangach.

# 10. Y camau nesaf

**Yn yr adran hon, rydyn ni'n:**

- Nodi sut byddwn ni'n cefnogi'r Llywodraeth i ddatblygu deddfwriaeth newydd
- Egluro ein rhaglen waith ehangach i sicrhau bod cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus yn parhau i fod yn llwyddiannus, wrth galon economi greadigol fywiog y DU.


10.1 Ar ôl cyhoeddi'r datganiad hwn, byddwn yn cefnogi'r Llywodraeth ar sut gellid cynnwys ein hargymhellion yn ei phapur gwyn ac unrhyw ddeddfwriaeth ddilynol ar gyfer y cyfryngau. Mae'r Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon hefyd wedi cyhoeddi y bydd yn ymgynghori yn ystod yr haf ar gynlluniau i reoleiddio gwasanaethau ar-alw ac mae wedi cyhoeddi ymgynghoriad ar berchnogaeth a chylch gwaith Corfforaeth Channel 4.

10.2 Bydd ein gwaith gyda'r Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon yn parhau yn yr hydref. Mewn rhai meysydd, rydyn ni'n disgwyl y bydd angen datblygu polisi pellach i gyfrifo'r manylion sydd eu hangen ar gyfer rheoleiddio, er mwyn sicrhau bod y fframwaith newydd yn effeithiol ac yn orfodadwy. Wrth i unrhyw ddeddfwriaeth newydd a rheoleiddio dilynol gael eu datblygu, byddwn yn ymgysylltu'n agos â'r Llywodraeth, y Senedd Brydeinig a rhanddeiliaid.

## Ein rhaglen waith barhaus i gefnogi Cyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus y DU

10.3 Mae gennym eisoes nifer o feysydd gwaith ar y gweill. Isod, rydyn ni'n nodi rhai o gerrig milltir rheoleiddiol allweddol a cherrig milltir y Llywodraeth dros y blynyddoedd nesaf.

**Ffigur 4: Cerrig Milltir Rheoleiddiol a Cherrig Milltir y Llywodraeth 2021 – 2027**




## Rheoleiddio'r BBC

10.4 Wrth baratoi ar gyfer adolygiad canol tymor y Llywodraeth o Siarter y BBC, byddwn yn asesu pa mor effeithiol yw'r rheoleiddio presennol.[275] Fel rhan o hyn, rydyn ni hefyd yn ystyried sut dylid diweddaru Trwydded Weithredu'r BBC ac rydyn ni'n disgwyl cyhoeddi ymgynghoriad yn ddiweddarach y mis hwn, gan nodi ein dull arfaethedig a'n cynlluniau lefel uchel. Rydyn ni'n bwriadu ymgynghori'n llawn ar Drwydded newydd ddechrau 2022. Gan fod fframwaith rheoleiddio'r BBC eisoes yn cynnwys gwasanaethau teledu, radio ac ar-lein y BBC, gallwn ddechrau gweithio nawr ar ddiweddaru Trwydded Weithredu'r BBC i sicrhau ei bod yn gyson â'n dull gweithredu arfaethedig ar gyfer cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus.

## Adnewyddu Channel 3, 4 a 5

10.5 Daw'r trwyddedau presennol ar gyfer Channel 3, Channel 4 a Channel 5 i ben ddiwedd 2024. Byddwn yn adrodd i'r Ysgrifennydd Gwladol erbyn mis Mehefin 2022 ar allu deiliaid trwyddedau Channel 3 a Channel 5 i gyfrannu at ddibenion darlledu gwasanaeth cyhoeddus dros gyfnod o 10 mlynedd arall.[276] Byddwn yn ystyried ymgynghoriad y Llywodraeth ar berchnogaeth a chylch gwaith Channel 4 ac yn cydweithio i roi unrhyw newidiadau maen nhw'n penderfynu eu gwneud ar waith. Byddwn hefyd yn gweithio gyda'r Llywodraeth a thrwyddedigion dros y misoedd nesaf ar sut gallai ein hargymhellion

[275] Gan gynnwys model BBC yn Gyntaf.
[276] A.229 y Ddeddf.

a chynlluniau'r Llywodraeth ar gyfer diwygio deddfwriaethol effeithio ar delerau trwyddedau darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn y dyfodol.

### Dyfodol teledu daearol digidol

10.6 Mae Ofcom yn parhau i ymgysylltu â'r Llywodraeth a rhanddeiliaid ynghylch dyfodol teledu daearol digidol, gan baratoi ein safbwynt ar gyfer trafodaethau rhyngwladol yng Nghynhadledd Radiogyfathrebu'r Byd yn 2023, ochr yn ochr â'n strategaeth sbectrwm yn y dyfodol. Ar ben hynny, gan fod dau o'r trwyddedau amlblecs cenedlaethol i fod i ddod i ben ddiwedd 2022, gan gynnwys un sy'n cludo sianeli gwasanaeth cyhoeddus, rydyn ni wedi bod yn darparu cyngor technegol i'r Llywodraeth ar ei chynlluniau ar gyfer dyfodol pob amlblecs cyn y ddeddfwriaeth newydd a ddisgwylir yn ddiweddarach eleni.

### Dyfodol radio a sain

10.7 Rydyn ni'n ymwybodol bod llawer o'r heriau rydyn ni wedi'u hamlygu ar gyfer cynnwys teledu cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus yn y datganiad hwn hefyd yn berthnasol i radio a sain. Mae Ofcom wedi darparu mewnbwn technegol i'r adolygiad o radio a sain digidol y mae'r Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS) yn ei gynnal ar hyn o bryd gyda'r diwydiant, sy'n edrych ar y materion sy'n wynebu radio yn ystod y degawd nesaf. Disgwylir i'r Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon wneud argymhellion yn ddiweddarach eleni a byddwn yn ystyried y rhain fel rhan o'n rhaglen waith ehangach.

## Rheoleiddio ar draws y sector darlledu

10.8 Nid cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus yw unig faes rheoleiddio Ofcom y gallai fod angen ei ddiweddaru i adlewyrchu'r newidiadau cyflym mewn technoleg ac ymddygiad gwylwyr. Rhaid i reoleiddio darlledu sicrhau bod sector cyfryngau bywiog y DU yn parhau i lwyddo, boed hynny o ran perfformiad darlledwyr, safonau cynnwys neu gystadleuaeth.

10.9 **Rheolau perchnogaeth cyfryngau.** Mae'n rhaid i ni adolygu'r rheolau ar gyfer perchnogaeth cyfryngau ar gyfer y teledu, radio a phapurau newydd bob tair blynedd, ac adrodd ein canfyddiadau i'r Ysgrifennydd Gwladol. Mae'r rheolau'n gwneud yn siŵr bod pobl yn gallu cael mynediad at amrywiaeth eang o safbwyntiau ac maen nhw'n rhan bwysig o sut mae ein democratiaeth yn gweithio. Rydyn ni'n ymgynghori ar hyn o bryd ar ein newidiadau arfaethedig i'r rheolau presennol.

10.10 **Amrywiaeth ym maes darlledu:** Mae mwy o amrywiaeth mewn teledu a radio yn flaenoriaeth bwysig i Ofcom. Rydyn ni'n disgwyl i ddarlledwyr fynd i'r afael â meysydd hollbwysig o dangynrychiolaeth, yn enwedig mewn swyddi uwch ac rydyn ni am i ddarlledwyr gael gwell dealltwriaeth o amrywiaeth economaidd-gymdeithasol a daearyddol eu gweithluoedd. Byddwn yn cefnogi'r ymdrechion hyn drwy barhau i fonitro ac ymgysylltu'n eang â'r sector. Fel yr awgrymwyd yn **Adran 4** y datganiad hwn, rydyn ni hefyd yn credu y gellid cyflwyno rhwymedigaethau cyfle cyfartal cyfatebol ar gyfer canghennau comisiynu a chynhyrchu'r prif wasanaethau SVoD sy'n gweithredu yn y DU.

10.11 **Hygyrchedd cynnwys i bobl anabl.** Byddwn hefyd yn parhau i fonitro hygyrchedd darlledu a gwasanaethau rhaglenni ar-alw i bobl sydd â nam ar eu golwg a/neu ar eu clyw. Byddwn yn gorfodi gofynion ar gyfer gwasanaethau mynediad darlledu ac yn ddiweddar rydyn ni wedi cyhoeddi ein hargymhellion i'r Llywodraeth i gyflwyno gofynion hygyrchedd newydd ar gyfer gwasanaethau rhaglenni ar-alw.

10.12 **Mae diogelu cynulleidfaoedd rhag niwed ar y teledu a'r radio** hefyd yn dal yn rhan ganolog o'n gwaith. Ofcom yw'r rheoleiddiwr ar ôl darlledu ar gyfer safonau cynnwys ar sianeli darlledu teledu a radio. Rydyn ni hefyd yn rheoleiddio gwasanaethau rhaglenni ar-alw, ond mae rheolau'r rhain yn llai cynhwysfawr na'r rheini yn y Cod Darlledu ar gyfer darlledwyr radio a theledu, ac eithrio BBC iPlayer sy'n gorfod cydymffurfio â'r Cod. O ystyried y nifer cynyddol o wylwyr sy'n gwylio gwasanaethau ffrydio, mae Llywodraeth y DU yn bwriadu ymgynghori ynghylch a ddylai gwasanaethau fel Disney+ ac Amazon Prime gael eu rheoleiddio yn y DU i'r un lefel â theledu a ddarlledir ac a ddylai gwasanaethau mawr sydd y tu allan i awdurdodaeth Ofcom ar hyn o bryd, fel Netflix ac Apple TV+, gael eu cynnwys yn y cwmpas. Bydd unrhyw newid yn y ffordd mae'r rheolau hyn yn cael eu rhoi ar waith yn galw am asesiad manwl, gan nad yw rhai rheolau darlledu, fel y rheini sy'n ymwneud ag amser darlledu, yn trosi'n hawdd i wasanaethau ar-alw.

10.13 **Partneriaethau masnachol a hysbysebu.** Un maes penodol yn y Cod Darlledu sy'n bwysig i gynaliadwyedd darparwyr cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus masnachol yw rheoleiddio cynnwys sy'n destun trefniadau masnachol, fel nawdd a gosod cynnyrch, yn ogystal â rheolau ar amserlennu hysbysebion ar sianeli darlledu.[277] Mae hyn wedi cael ei godi fel maes y dylid ei adolygu i sicrhau bod cynulleidfaoedd yn parhau i fwynhau manteision cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus mewn byd ar-lein. Gofynnodd rhai o'r ymatebwyr i'n hymgynghoriad i ni ystyried y rheolau a'r canllawiau ynghylch trefniadau o'r fath, [278]a dywedodd rhai[279] y dylid adolygu rheolau munudau hysbysebu.[280] Byddwn yn ymgysylltu â rhanddeiliaid ynghylch yr awgrymiadau a wnaed ac yn ystyried sut gallwn sicrhau cydbwysedd priodol o hyd rhwng buddiannau cynulleidfaoedd a chynaliadwyedd ariannol darlledwyr, gan gynnwys y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus.

10.14 Yn **Adran 3** roedden ni hefyd wedi sôn am yr heriau a godwyd gan randdeiliaid ynghylch cyfyngiadau newydd ar hysbysebu bwydydd sy'n cynnwys llawer o fraster, halen a siwgr. Pan fydd cyfyngiadau llymach yn cael eu cyflwyno ar gyfer hysbysebion teledu, byddai'n rhaid i Ofcom a'i gyd-reoleiddwyr (BCAP ac ASA) weinyddu'r rhain. Mae unrhyw gyfyngiadau'n debygol o gael effaith sylweddol ar refeniw hysbysebu'r darparwyr cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus masnachol.

---

[277] Mae gosod cynnyrch a nawdd yn cael eu rheoleiddio o dan Adran Naw o'r Cod Darlledu (Cyfeiriadau masnachol ar y teledu). Mae'r nod hwn er mwyn sicrhau bod darlledwyr yn cadw annibyniaeth olygyddol dros raglenni, a bod gwahaniaeth rhwng hysbysebion a chynnwys golygyddol. Maen nhw'n cefnogi'r rheolau yn COSTA sy'n cyfyngu ar faint o hysbysebion y gall darlledwyr eu darlledu.

[278] Ymateb Channel 4 i'r ymgynghoriad, t.33; Ymateb COBA i'r ymgynghoriad, t.7; Ymateb ITV i'r ymgynghoriad, t.65.

[279] Ymateb ITV i'r ymgynghoriad, t.65; Ymateb STV i'r ymgynghoriad, t.18-19; Ymateb yr Athro P Barwise i'r ymgynghoriad, t.2.

[280] Mae'r Cod ar Amserlennu Hysbysebion Teledu ("COSTA") yn nodi rheolau sy'n pennu faint o hysbysebion y gall darlledwr eu darlledu a lle caiff hysbysebion eu hamserlennu. Edrychwch ar: Ofcom, Rhagfyr 2020. Datganiad: Codau darlledu Ofcom: diwygiadau arfaethedig i'r Cod Darlledu a'r Cod ar Amserlennu Hysbysebion Teledu.

10.15 Roedd rhai hefyd yn awyddus i Ofcom weithio gyda chyrff rheoleiddio eraill i ystyried diweddaru'r broses o reoleiddio hysbysebion ar-lein i sicrhau nad yw darparwyr cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus dan anfantais oherwydd rheoleiddio anghymesur ar lwyfannau darlledu o'i gymharu ag ar-lein.[281] Rydyn ni'n gweithio gyda'r Llywodraeth ar eu cynlluniau ar gyfer trefn newydd o blaid cystadleuaeth, ac yn cydweithio â rheoleiddwyr eraill ar faterion perthnasol, gan gynnwys drwy'r Fforwm Cydweithredu ar gyfer Rheoleiddio Digidol (DRCF) ar asesu agweddau ar dechnolegau hysbysebu digidol i ymateb i bryderon posibl ynghylch cystadleuaeth, defnyddwyr a phreifatrwydd.[282]

## Rheoleiddio ehangach gan Ofcom

10.16 Mae diogelu pobl rhag cynnwys niweidiol ar-lein yn flaenoriaeth i Ofcom. Mae ein hymchwil yn dangos bod traean o bobl yn credu bod y risgiau o fod ar-lein wedi dechrau gorbwyso'r manteision. Ar hyn o bryd rydyn ni'n gweithio ar gyflawni ein dyletswydd newydd i wneud yn siŵr bod llwyfannau rhannu fideos (VSPs) sydd wedi'u sefydlu yn y DU yn cymryd mesurau priodol i amddiffyn plant rhag cynnwys a allai fod yn niweidiol iddyn nhw, ac i ddiogelu'r cyhoedd rhag cynnwys troseddol a deunydd sy'n debygol o gymell trais neu gasineb.

10.17 Ym mis Mai cyhoeddodd y Llywodraeth y Bil Diogelwch Ar-lein, a fyddai'n rhoi cyfrifoldebau newydd i Ofcom i helpu i gadw pobl yn ddiogel pan fyddan nhw ar-lein. Rydyn ni wedi cynyddu ein paratoadau ar gyfer y rôl newydd bwysig hon, gan adeiladu ar ein cyfrifoldebau dros VSPs, yn ogystal â defnyddio ein rhaglen llythrennedd yn y cyfryngau ('Gwneud Synnwyr o'r Cyfryngau'), a'n profiad helaeth o ddiogelu gwylwyr a gwrandawyr rhag niwed ar yr un pryd â chadw rhyddid mynegiant.

10.18 Rydyn ni hefyd yn parhau i nodi ac ystyried technolegau arloesol sy'n datblygu a allai siapio'r diwydiant cyfathrebu yn y dyfodol.[283] Rydyn ni'n cynnal adolygiad o fframwaith niwtraliaeth y rhyngrwyd yn y DU i sicrhau ei fod yn parhau i wasanaethu buddiannau dinasyddion a defnyddwyr yn y ffordd orau. Byddwn yn edrych ar gefnogi arloesedd i sicrhau gwell canlyniadau i fusnesau a defnyddwyr, gan ystyried sut mae rhwydweithiau a gwasanaethau wedi datblygu dros y blynyddoedd diwethaf. Cyn bo hir byddwn yn cyhoeddi cais am fewnbwn yn amlinellu'r cwmpas a'r cynlluniau ar gyfer ein hadolygiad.

10.19 Wrth i'r sector cyfryngau barhau i esblygu, bydd ein gwaith rheoleiddio hefyd yn newid. Bydd angen i'n rheolau annog twf ac arloesedd, gan ganiatáu i ddarlledwyr ffynnu, er mwyn iddyn nhw allu diwallu anghenion cynulleidfaoedd y DU yn y ffordd orau. Byddwn yn gweithio gyda'r Llywodraeth a'r diwydiant i sicrhau llwyddiant parhaus y Cyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus, sydd wrth galon economi greadigol ddeinamig a llwyddiannus y DU.

[281] Ymateb Pwyllgor Cynghori Ofcom ar gyfer yr Alban i'r ymgynghoriad, t.9; Ymateb ITV i'r ymgynghoriad, t.65.
[282] Rydyn ni'n darparu crynodeb byr o'n gwaith gyda'r Fforwm a'r Uned Marchnadoedd Digidol newydd a sefydlwyd yn yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd yn Adran 6 y datganiad hwn (t.41).
[283] Ofcom, 2021. Dyfodol Technoleg – tynnu sylw at y technolegau sy'n siapio cyfathrebu ar gyfer y dyfodol.

# Atodiadau i'r datganiad hwn

Mae rhagor o fanylion am ein datganiad a'n hargymhellion ar gael mewn pum atodiad i'r ddogfen hon.

**Atodiad 1:** Sicrhau bod cynnwys cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus yn dal i fod ar gael yn eang ac yn amlwg

**Atodiad 2:** Datblygu cynnwys cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus

**Atodiad 3:** Sut i gymell darpariaeth newydd o gyfryngau gwasanaeth cyhoeddus yn y DU

**Atodiad 4:** Annog cynnwys sydd o ddiddordeb i'r cyhoedd: enghreifftiau rhyngwladol

**Atodiad 5:** Fframwaith rheoleiddio darlledu gwasanaeth cyhoeddus